



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cofnod y Trafodion**

**The National Assembly for Wales
The Record of Proceedings**

Dydd Mercher, 11 Ionawr 2006

Wednesday, 11 January 2006

Cynnwys
Contents

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration	3
Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Questions to the Minister for Economic Development and Transport	19
Cwestiynau i'r Trefnydd ar ei Chyfrifoldebau Heblaw am Fusnes Questions to the Business Minister on her Responsibilities other than for Business	35
Datganiad Busnes Diwygiedig Revised Business Statement	49
Cynnig i Alw ar Lywodraeth y DU i Ddiwygio'r Mesur Gweinyddiaeth Etholiadol o dan Reol Sefydlog Rhif 33.9 Motion to Call upon the UK Government to Amend the Electoral Administration Bill under Standing Order No. 33.9	66
Cynnig i Ystyried Adroddiad yr Astudiaeth Ddichonoldeb ar gynnig Val Lloyd o dan Reol Sefydlog Rhif 31 a Drafodwyd ar 27 Medi 2005 Motion to Consider the Feasibility Study Report on Val Lloyd's Standing Order No. 31 Proposal Debated on 27 September 2005	96
Dadl Fer: Cyllid Craidd ar gyfer Cyngor ar Bopeth Short Debate: Core Funding for Citizens Advice	104

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration

Cynllun Gofal a Thrwsio Care and Repair Scheme

Q1 Val Lloyd: Will the Minister make a statement on the care and repair scheme? OAQ0508(SJR)

C1 Val Lloyd: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun gofal a thrwsio? OAQ0508(SJR)

The Minister for Social Justice and Regeneration (Edwina Hart): Care and repair schemes in Wales received £3.978 million in financial support from the Assembly Government in 2005-06. More than £4 million will be available for care and repair in 2006-07. These resources help ensure that Care and Repair Cymru continues to play an important role in supporting the Assembly's key housing, health and social care policies.

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart): Cafodd cynlluniau gofal a thrwsio yng Nghymru £3.978 miliwn o gymorth ariannol gan Lywodraeth y Cynulliad yn 2005-06. Bydd mwy na £4 miliwn ar gael ar gyfer gofal a thrwsio yn 2006-07. Mae'r adnoddau hyn yn helpu sicrhau bod Gofal a Thrwsio Cymru yn parhau i chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gefnogi polisiau allweddol y Cynulliad ym meysydd tai, iechyd a gofal cymdeithasol.

Val Lloyd: Care and Repair Cymru provides an invaluable service to many of my constituents, and the Handy Person scheme is well rated by those that it helps. The scheme will launch its 85 plus initiative, which will provide extra services and support for those in that age band. Alongside care and repair, could you outline other initiatives that have been implemented to ensure that vulnerable people receive the support and services they need to enjoy an excellent quality of life?

Val Lloyd: Mae Gofal a Thrwsio Cymru yn darparu gwasanaeth gwerthfawr i lawer o'r hetholwyr, a chanmolir y cynllun 'Handy Person' gan y rhai y mae'n eu helpu. Bydd y cynllun yn lansio ei fenter 85 a hŷn, a fydd yn darparu gwasanaethau a chymorth ychwanegol i bobl yn y band oedran hwnnw. Ochr yn ochr â gofal a thrwsio, a allech amlinellu mentrau eraill a weithredwyd er mwyn sicrhau bod pobl sy'n agored i niwed yn cael y cymorth a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt i allu mwynhau ansawdd bywyd ardderchog?

Edwina Hart: I think that care and repair is one of the most successful schemes in Wales. It enables a tremendous amount of people to remain within their own homes. In one year, almost 1,500 people said that they would have had to move had the care and repair services not been available. That is a substantial number.

Edwina Hart: Credaf mai gofal a thrwsio yw un o'r cynlluniau mwyaf llwyddiannus yng Nghymru. Mae'n galluogi llawer iawn o bobl i aros yn eu tai eu hunain. Mewn un flwyddyn, dywedodd bron i 1,500 o bobl y byddai'n rhaid iddynt fod wedi symud pe na bai'r gwasanaethau gofal a thrwsio ar gael. Mae hynny'n nifer sylweddol.

There are other schemes across Wales that help and assist, but care and repair remains our principal vehicle as it covers the 22 local authorities.

Mae cynlluniau eraill ledled Cymru sy'n rhoi help a chymorth, ond gofal a thrwsio yw ein prif gyfrwng o hyd gan ei fod yn cwmpasu'r 22 awdurdod lleol.

Mark Isherwood: The care and repair

Mark Isherwood: Mae'r cynllun gofal a

scheme has been a great success, with Denbighshire reaching its three thousandth client last year. However, when attending care and repair annual general meetings, I have heard concerns expressed that because care and repair is restricted to home owners and private tenants, council tenants can be excluded from a comparable service. What actions do you propose to remedy this?

Edwina Hart: I have discussions with Care and Repair Cymru about the availability of its services across Wales. There are capacity issues in some parts of Wales, which I have discussed with the director. I will continue to support Care and Repair Cymru and hope that it can become absolutely integral to the life of Wales. Any extension of its responsibilities remains to be discussed.

Eleanor Burnham: I, too, commend the care and repair service because, like my colleague, I have seen it in action. I understand that, in 2004, the Social Justice and Regeneration Committee produced a report on the scheme. How many of the report's 26 recommendations have been implemented?

Edwina Hart: I cannot recall a specific report on the care and repair scheme by the Social Justice and Regeneration Committee, but perhaps my memory is not clear, so I will check the records.

thrwsio wedi bod yn llwyddiant mawr, a chyrrhaeddodd Sir Ddinbych ei thair milfed cleient y llynedd. Fodd bynnag, wrth fynd i gyfarfodydd cyffredinol blynyddol gofal a thrwsio, yr wyf wedi clywed pobl yn mynegi pryderon y gall tenantiaid tai cyngor gael eu heithrio o wasanaeth cymharol gan fod gofal a thrwsio yn gyfyngedig i berchnogion tai a thenantiaid preifat. Pa gamau gweithredu a gynigwch i ddatrys hyn?

Edwina Hart: Yr wyf yn cael trafodaethau gyda Gofal a Thrwsio Cymru ynghylch darparu ei wasanaethau ledled Cymru. Mae yna faterion yn ymwneud â gallu ac adnoddau mewn rhai rhannau o Gymru, ac yr wyf wedi eu trafod gyda'r cyfarwyddwr. Byddaf yn parhau i gefnogi Gofal a Thrwsio Cymru, a gobeithio y gall ddod yn rhan annatod o fywyd Cymru. Ni thrafodwyd ymestyn ei gyfrifoldebau hyd yma.

Eleanor Burnham: Yr wyf fi hefyd yn cymeradwyo'r gwasanaeth gofal a thrwsio, oherwydd, fel fy nghyd-Aelod, yr wyf wedi ei weld ar waith. Deallaf fod y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio wedi cynhyrchu adroddiad yn 2004 ar y cynllun. O'r 26 argymhelliad yn yr adroddiad, sawl un sydd wedi ei weithredu?

Edwina Hart: Ni allaf gofio adroddiad penodol ar y cynllun gofal a thrwsio gan y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ond efallai nad yw fy nghof yn glir, felly fe archwiliaf y cofnodion.

Llwyddiannau yn y Maes Cyfiawnder Cymdeithasol yng Nghonwy Achievements in Social Justice in Conwy

Q2 Denise Idris Jones: Will the Minister make a statement about achievements in social justice in Conwy? OAQ0469(SJR)

Edwina Hart: 'Wales: A Better Country' has made a significant impact for social justice. For example, two Communities First partnerships have been established, one community safety partnership has been established, and there are currently two active housing renewal areas in Conwy. A total of 10 projects have also been awarded under the community facilities and activities programme, and two projects have been funded through the physical regeneration

C2 Denise Idris Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lwyddiannau ym maes cyfiawnder cymdeithasol yng Nghonwy? OAQ0469(SJR)

Edwina Hart: Mae 'Cymru: Gwlad Well' wedi cael effaith sylweddol ar gyfiawnder cymdeithasol. Er enghraifft, sefydlwyd dwy bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf, sefydlwyd un bartneriaeth diogelwch cymunedol, ac ar hyn o bryd mae dwy ardal adnewyddu tai yng Nghonwy. Yn ogystal, dyfarnwyd grant i 10 prosiect o dan y rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol, ac ariannwyd dau brosiect drwy'r gronfa adfywio ffisegol.

fund.

Denise Idris Jones: That sounds good, Minister. Given the £600,000 drawn down from some excellent Communities First projects in the Tudno and Mostyn wards in Llandudno and invested in reducing youth-caused anti-social behaviour through better community provision and support, and through working in partnership with schools to re-engage disaffected pupils, do you agree that the programme is making a real difference in deprived areas in Conwy?

Edwina Hart: Yes, I agree. It is good that you have given that illustration of the issues in Conwy and how Communities First areas are dealing with them. It is vitally important that we engage young people, look at what happens with disaffected youth, and encourage them to integrate by putting in the necessary resources. I am pleased that Communities First in Conwy, and elsewhere, has been able to help with some youth provision aspects that are not funded from other sources.

Janet Ryder: A group that works across the whole of north Wales, but has its headquarters in Conwy, is the North Wales Race Equality Network. The network is to be congratulated on receiving, over the Christmas recess, a good lottery grant that will enable it to develop three projects. However, it is still in need of adequate core funding to ensure that its valuable work in north Wales can continue. I have raised this issue with you on a number of occasions. Will you support its efforts in going to the local county councils across north Wales, and ensure that each council contributes significantly to the ongoing and necessary work that North Wales Race Equality Network does?

Edwina Hart: I am delighted that you raised the issue of the network's lottery funding. That is indeed welcome news for the projects that it bid for. I will reflect on your question and discuss it with my ministerial colleagues with responsibility for local government and equality.

Denise Idris Jones: Mae hynny'n swinio'n dda, Weinidog. O ystyried y £600,000 a hawliwyd o rai o brosiectau ardderchog Cymunedau yn Gyntaf yn wardiau Tudno a Mostyn yn Llandudno, a'i fuddsoddi i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol ymysg pobl ifanc drwy ddarpariaeth a chefnogaeth well yn y gymuned, a thrwy weithio mewn partneriaeth ag ysgolion er mwyn ymgysylltu disgyblion sydd wedi'u dadrithio unwaith eto, a gytunwch fod y rhaglen yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol mewn ardaloedd o amddifadedd yng Nghonwy?

Edwina Hart: Ydwyf, yr wyf yn cytuno. Mae'n dda eich bod wedi rhoi'r enghraifft honno o'r materion yng Nghonwy a'r modd y mae ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn ymdrin â hwy. Mae'n hanfodol bwysig inni ymgysylltu pobl ifanc, gan edrych ar yr hyn sy'n digwydd i bobl ifanc sydd wedi'u dadrithio, a'u hannog i integreiddio drwy ddarparu adnoddau angenrheidiol. Yr wyf yn falch fod Cymunedau yn Gyntaf yng Nghonwy, ac mewn lleoedd eraill, wedi gallu helpu gyda rhai o'r agweddau ar y ddarpariaeth i ieuentid nad ydynt yn cael eu hariannu drwy ffynonellau eraill.

Janet Ryder: Un grŵp sy'n gweithio ar draws y gogledd, ond sydd â'i bencadlys yng Nghonwy, yw Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru. Mae angen llongyfarch y rhwydwaith ar gael grant da gan y loteri yn ystod toriad y Nadolig a fydd yn ei alluogi i ddatblygu tri phrosiect. Fodd bynnag, mae angen cyllid craidd digonol arno o hyd er mwyn sicrhau y gall ei waith gwerthfawr yn y gogledd barhau. Yr wyf wedi codi'r mater hwn gyda chi droeon. A fyddwch yn cefnogi ei ymdrechion i fynd at y cynghorau sir lleol ledled y gogledd, gan sicrhau bod pob cyngor yn cyfrannu'n sylweddol at y gwaith parhaus ac angenrheidiol y mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru yn ei wneud?

Edwina Hart: Yr wyf yn falch eich bod wedi codi cyllid loteri'r rhwydwaith. Mae hynny yn newyddion da yn wir i'r prosiectau y gwnaeth gais ar eu cyfer. Fe ystyriaf eich cwestiwn a'i drafod gyda'm cyd-Weinidogion sydd â chyfrifoldeb dros lywodraeth leol a chydraddoldeb.

Brynle Williams: In Conwy, as in north Wales as whole, youth offending and anti-social behaviour is a serious and persistent problem, as we are well aware. It is made worse, I believe, by the lack of extracurricular activities available to young people. What assurances can you give that communities in north Wales will receive sufficient support from the Assembly to allow them to create the organised extracurricular activities that can have such a positive impact on young people's lives?

Edwina Hart: I can only answer in the context of my portfolio, particularly in relation to Communities First areas, where I have been particularly happy to support initiatives that involve young people. However, we must not automatically link young people and anti-social behaviour. Anti-social behaviour involves many other people, and we must recognise that a very small percentage of youth are engaged in these activities. During the last 12 months, which was the Year of the Volunteer, I have seen many young people doing good work and volunteering. It is important that we praise those individuals and ensure that others follow their fine example.

Brynle Williams: Yng Nghonwy, fel yn y gogledd i gyd, mae troseddau ieuentid ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn broblem ddifrifol a pharhaus, fel y gwyddom i gyd. Mae'n waeth, yn fy marn i, oherwydd y diffyg gweithgareddau allgyrsiol sydd ar gael i bobl ifanc. Pa sicrwydd y gallwch ei roi y bydd cymunedau yn y gogledd yn derbyn cymorth digonol gan y Cynulliad i'w galluogi i greu'r gweithgareddau allgyrsiol wedi'u trefnu a all gael effaith mor gadarnhaol ar fywydau pobl ifanc?

Edwina Hart: Dim ond yng nghyd-destun fy mhorthffolio y gallaf ymateb, yn benodol o ran ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, lle yr oeddwn yn arbennig o falch cefnogi mentrau sy'n ymwneud â phobl ifanc. Fodd bynnag, ni ddylem gysylltu pobl ifanc yn awtomatig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â llawer o bobl eraill, a rhaid inni gydnabod mai canran fechan iawn o bobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn. Yn ystod y 12 mis diwethaf, sef Blwyddyn y Gwirfoddolwr, gwelais nifer o bobl ifanc yn gwneud gwaith da ac yn gwirfoddoli. Mae'n bwysig inni ganmol yr unigolion hynny ac yn sicrhau bod eraill yn dilyn eu hesiampl dda.

Tai Amlfeddiannaeth yng Nghymru Houses in Multiple Occupation in Wales

Q3 Ann Jones: Will the Minister make a statement on the implementation of mandatory licensing for houses in multiple occupation in Wales? OAQ0509(SJR)

Edwina Hart: I know that this has been a concern of yours for many years. Work is currently under way on introducing the provisions contained within the Housing Act 2004, including those covering the licensing of houses in multiple occupation in Wales. We hope to have the provisions in place by the summer, which will be good news in your constituency.

Ann Jones: Yes, that will be excellent news for my constituency. The Housing Act 2004 fulfils Labour's manifesto commitment to licence houses in multiple occupation, and rightly so, as there is poor management among a minority of landlords. In large

C3 Ann Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weithredu trwyddedu gorfodol ar gyfer tai amlfeddiannaeth yng Nghymru? OAQ0509(SJR)

Edwina Hart: Gwn fod hyn yn bryder ichi ers llawer blwyddyn. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar gyflwyno'r darpariaethau a gynhwysir yn Neddf Tai 2004, gan gynnwys y rheini sy'n ymdrin â thrwyddedu tai amlfeddiannaeth yng Nghymru. Gobeithio y bydd y darpariaethau ar waith erbyn yr haf, a fydd yn newyddion da yn eich etholaeth.

Ann Jones: Bydd, bydd hynny'n newyddion ardderchog i'm hetholaeth. Mae Deddf Tai 2004 yn cyflawni ymrwymiad maniffesto Llafur i drwyddedu tai amlfeddiannaeth, a da o beth yw hynny, gan fod rheolaeth wael i'w gweld ymysg nifer bach o landlordiaid. Mewn eiddo mawr lle

properties with many tenants, that can put many lives at risk. I know that you are aware, Minister, that the risk of death in a house fire is 16 times greater in a bedsit or a house in multiple occupation of three or more storeys. Will you outline any recent discussions that you have had with representatives of the fire service, local authorities, the police, housing benefit departments and the Inland Revenue about pulling together to ensure that the new licensing powers can be strictly implemented, and that we can get rid of the landlords who are out to make a quick buck at the expense of those who then have to put up with poor housing?

Edwina Hart: It is important that you stressed that it is a minority of private landlords that we have to deal with. I have not had specific discussions that I can report on here now, but I am happy to put this on the agenda of my next meeting with the fire authorities, and to take the issue forward.

Jenny Randerson: As you will appreciate, Minister, a couple of the wards in my constituency have just about the greatest concentration of houses in multiple occupation in Wales. The commitment to licence HMOs was made by the Labour Government in 1997. I know that it is not your fault that it took so long to reach the statute book, but I want to express my concern that it has taken even longer to become law here. Do you retain your commitment to have wider and more stringent powers in Wales, and to allow local authorities greater flexibility in how they use those powers, so that we can ensure the best for tenants and other local residents?

Edwina Hart: I hold quite strong views on what we should be doing on licensing and those other areas, and I am happy to confirm that. However, we must recognise that even though this has taken a wee while to get on the statute book, local authorities already have powers to deal with problems relating to HMOs, and they can give grants to improve the condition of HMOs. Therefore not all the fault lies in another place. I will just be happy when I bring the legislation in.

mae nifer o denantiaid, gall hynny roi llawer o fywydau mewn perygl. Gwn eich bod yn ymwybodol, Weinidog, fod perygl marwolaeth oherwydd tân mewn tŷ 16 gwaith yn fwy mewn fflat un ystafell neu dŷ amlfeddiannaeth o dri llawr neu fwy. A wnewch chi amlinellu unrhyw drafodaethau a gawsoch yn ddiweddar gyda chynrychiolwyr y gwasanaeth tân, awdurdodau lleol, yr heddlu, adrannau budd-dal tai a Chyllid y Wlad ynghylch cydweithio i sicrhau y gellir gweithredu'r pwerau trwyddedu newydd yn gaeth, ac y gallwn gael gwared â'r landlordiaid nad ydynt yn poeni am ddim ond arian ar draul y rheini sy'n gorfod dioddef tai gwael o ganlyniad?

Edwina Hart: Mae'n bwysig eich bod wedi pwysleisio mai lleiafrif o landlordiaid preifat y mae'n rhaid inni ymdrin â hwy. Nid wyf wedi cael trafodaethau penodol y gallaf roi adroddiad arnynt ichi yma yn awr, ond byddwn yn fwy na pharod rhoi hyn ar agenda fy nghyfarfod nesaf gyda'r awdurdodau tân, a mynd ar drywydd y mater.

Jenny Randerson: Fel y byddwch yn ei werthfawrogi, Weinidog, mae'r nifer mwyaf, fwy neu lai, o dai amlfeddiannaeth yng Nghymru i'w weld yn rhai o'r wardiau yn fy etholaeth. Gwnaed yr ymrwymiad i drwyddedu tai amlfeddiannaeth gan y Llywodraeth Lafur yn 1997. Gwn nad eich bai chi ydyw ei fod wedi cymryd cyhyd i gyrraedd y llyfr statud, ond hoffwn fynegi fy mhryder ei fod wedi cymryd yn hirach fyth i ddod yn gyfraith gwlad yma. A ydych yn cadw at eich ymrwymiad i gael pwerau ehangach a llymach yng Nghymru, ac i roi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol o ran sut i ddefnyddio'r pwerau hynny, fel y gallwn sicrhau'r gorau i denantiaid ac i breswylwyr lleol eraill?

Edwina Hart: Mae gennyf farn ddigon pendant ynghylch yr hyn y dylem ei wneud o ran trwyddedu a'r meysydd eraill hynny, ac yr wyf yn barod i gadarnhau hynny. Fodd bynnag, rhaid inni gydnabod, er iddo gymryd ychydig amser i gyrraedd y llyfr statud, fod pwerau gan awdurdodau lleol eisoes i fynd i'r afael â phroblemau'n ymwneud â thai amlfeddiannaeth, ac y gallant roi grantiau i wella cyflwr tai amlfeddiannaeth. Felly, nid yw'r bai i gyd ar rywun arall. Byddaf yn hapus pan gyflwynaf y ddeddfwriaeth.

Y Gronfa Adfywio Ffisegol
Physical Regeneration Fund

Q4 Christine Gwyther: Will the Minister provide an update on the physical regeneration fund? OAQ0472(SJR)

C4 Christine Gwyther: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gronfa adfywio ffisegol? OAQ0472(SJR)

2.10 p.m.

Edwina Hart: In 2004-06 we have committed more than £33 million to regeneration projects across Wales from the fund, and the final implementation round will be held in 2006. Funding for approved projects will be available up to March 2010.

Edwina Hart: Yn 2004-06 yr ydym wedi ymrwymo mwy na £33 miliwn o'r gronfa i brosiectau adfywio ledled Cymru, a bydd y cylch gweithredu terfynol yn 2006. Bydd cyllid ar gyfer prosiectau a gymeradwyir ar gael hyd at fis Mawrth 2010.

Christine Gwyther: I welcome previous announcements of bids under this initiative, including some in my constituency. Other areas of very high need in my constituency need little more than a facelift, not least the Mount building in Spillman Street in Carmarthen. I am sure that many of us will have passed it and been horrified by it. It has been shrouded in scaffolding for the past five years. Could you assure me that the Welsh Assembly Government is working collaboratively with local government to try to remedy these eyesores, and also that you will be looking at Objective 1 funding, in the next round, to help those areas, maybe with match funding?

Christine Gwyther: Croesawaf gyhoeddiadau blaenorol ynghylch ceisiadau o dan y fenter hon, gan gynnwys rhai yn fy etholaeth i. Nid oes angen llawer mwy na mân newidiadau ar du allan adeiladau mewn rhai ardaloedd eraill lle mae angen dybryd yn fy etholaeth, ac un o'r rheini yw adeilad Mount yn Stryd Spillman yng Nghaerfyrddin. Yr wyf yn siŵr y bydd nifer ohonom wedi ei basio ac wedi arswydo wrth ei weld. Mae sgaffaldiau wedi ei orchuddio ers dros bum mlynedd. A allech roi sicrwydd imi fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio â Llywodraeth leol i geisio adnewyddu'r hyllbethau hyn, ac y byddwch hefyd yn edrych ar gyllid Amcan 1, yn y cylch nesaf, i helpu'r ardaloedd hynny, gydag arian cyfatebol o bosibl?

Edwina Hart: Thank you for raising this point with me. I agree with you, particularly about eyesores across Wales. The physical fabric of our communities is important to people in deciding where they want to live and work, as well as other activities that emanate from that.

Edwina Hart: Diolch ichi am godi'r pwynt gyda mi. Cytunaf â chi, yn arbennig o ran hyllbethau ledled Cymru. Mae adeiladwaith ffisegol ein cymunedau yn bwysig i bobl wrth iddynt benderfynu ble maent am fyw a gweithio, yn ogystal â gweithgareddau eraill sy'n tarddu o hynny.

I informed the Welsh Local Government Association and the three national parks on 28 and 29 November of my proposals to wind up the physical regeneration fund as it is currently constituted. However, in light of your points today, I will give further consideration to the issues arising.

Ar 28 ac 29 Tachwedd dywedais wrth Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r tri pharc cenedlaethol am fy nghynigion i gael gwared â'r gronfa adfywio ffisegol fel y mae ar hyn o bryd. Fodd bynnag, yng ngoleuni eich pwyntiau heddiw, ystyriaf y materion sy'n codi ymhellach.

Rhodri Glyn Thomas: Weinidog, mae llawer o'r adeiladau a fyddai'n manteisio o'r gronfa hon o werth hanesyddol. Yn aml, mae problemau yn codi wrth i awdurdodau lleol a mudiadau geisio cydweithio gyda Cadw i

Rhodri Glyn Thomas: Minister, many of the buildings that would benefit from this fund are of historical interest. Problems often arise when local authorities and organisations try to collaborate with Cadw to ensure that those

sicrhau bod yr adeiladau yn cael eu hatgyweirio. A wnewch chi sicrhau bod Cadw yn gweithio yn fwy hyblyg, a bod y broses yn gyflymach, gan ei bod yn gallu cymryd llawer o amser ar adegau?

Edwina Hart: I would be happy to take up the issue that you raised about Cadw with the appropriate Minister, if Members have concerns. I am particularly concerned that historic buildings be used again; for example, they could be turned into housing. If Members have examples that reflect my portfolio, I would be grateful if they would give them to me.

Alun Cairns: The physical regeneration fund is extremely popular with local authorities, and, although only 69 out of 116 applications have been approved, those have still given a total of £20 million to local authorities. However, the budget line for the forthcoming financial year is a little over £11 million. What plans do you have to increase it, bearing in mind the sharp demand for it in recent times?

Edwina Hart: None whatsoever.

buildings are renovated. Will you ensure that Cadw works more flexibly, and that the process is speeded up, as it can be quite lengthy at times?

Edwina Hart: Byddwn yn fodlon trafod gyda'r Gweinidog priodol y mater a godwyd gennych ynghylch Cadw, os yw Aelodau'n pryderu. Yr wyf yn credu'n gryf y dylid aildefnyddio adeiladau hanesyddol: gellid eu troi'n dai, er enghraifft. Os oes gan Aelodau enghreifftiau sy'n dod o fewn fy mhortffolio, byddwn yn ddiolchgar pe gallent eu rhoi imi.

Alun Cairns: Mae'r gronfa adfywio ffisegol yn boblogaidd iawn gydag awdurdodau lleol, ac er mai dim ond 69 o 116 cais a gymeradwywyd, mae hynny'n cyfateb i gyfanswm o £20 miliwn i awdurdodau lleol. Fodd bynnag, ychydig dros £11 miliwn yw'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Pa gynlluniau sydd gennych i'w chynyddu, o gofio'r galw mawr a fu amdani yn ddiweddar?

Edwina Hart: Dim o gwbl.

Materion Cyfiawnder Cymdeithasol sy'n wynebu Pobl Hŷn Social Justice Issues facing Older People

Q5 Denise Idris Jones: Will the Minister make a statement about the social justice issues facing older people in Wales? OAQ0460(SJR)

Edwina Hart: As a result of our recent national housing debate on independence and the housing needs of older people, it was clear that older people wanted more independence and more housing choices and options. Among other issues were the need for more effective services for people with dementia, more appropriate sheltered housing, an alleviation of fuel poverty, and the more effective tackling of problems associated with rural housing.

C5 Denise Idris Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y materion cyfiawnder cymdeithasol sy'n wynebu pobl hŷn yng Nghymru? OAQ0460(SJR)

Edwina Hart: O ganlyniad i'n trafodaeth genedlaethol ddiweddar ar dai, mewn perthynas ag annibyniaeth ac anghenion tai pobl hŷn, yr oedd yn eglur bod pobl hŷn am gael mwy o annibyniaeth a mwy o ddewisiadau o ran tai. Ymysg materion eraill, nodwyd bod angen gwasanaethau mwy effeithiol i bobl sydd â demensia, tai gwarchod mwy priodol, lliniaru tloidi tanwydd, a mynd i'r afael yn fwy effeithiol â phroblemau'n ymwneud â thai yng nghefn gwlad.

Denise Idris Jones: Would you agree that more than £645,000 spent on improving almost 600 homes in Conwy through the home energy efficiency scheme over the past year highlights the levels of resources being invested to address some of the social justice and poverty-related issues facing older people in my constituency? Over the past few months, I have been holding joint meetings with the Eaga Partnership across Conwy to encourage the take-up of the HEES scheme. Would you work with older people's groups and associations across Wales to ensure that they are fully informed and are making full use of the resources available to them?

Denise Idris Jones: A fyddech yn cytuno bod mwy na £645,000 a wariwyd ar wella bron i 600 o dai yng Nghonwy drwy'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn dangos lefelau'r adnoddau a fuddsoddir i fynd i'r afael â rhai materion yn ymwneud â thlodi a chyfiawnder cymdeithasol sy'n wynebu pobl hŷn yn fy etholaeth? Yn ystod y misoedd diwethaf, cefais gyfarfodydd ar y cyd â Phartneriaeth Eaga yng Nghonwy i annog pobl i gymryd rhan yn y cynllun effeithlonrwydd ynni yn y cartref. A fyddech yn barod i weithio gyda grwpiau a chymdeithasau pobl hŷn ledled Cymru i sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth briodol ac yn manteisio i'r eithaf ar yr holl adnoddau sydd ar gael iddynt?

Edwina Hart: I am concerned that all the additional money in this budget be spent well, so I am doing a mapping exercise of home energy efficiency issues and who gives advice. I thank Assembly Members who, like you, are prepared to go out and about to sell the scheme and speak to various groups that might benefit from it. That is enormously helpful. I will have to look further at the publicity angle, so that information can be made available in a more easily accessible format.

Edwina Hart: Yr wyf am i'r holl arian ychwanegol yn y gyllideb hon gael ei wario'n ddoeth, ac felly yr wyf yn cynnal ymarfer mapio o faterion effeithlonrwydd ynni cartref a phwy sy'n rhoi cyngor. Diolch i Aelodau'r Cynulliad sydd, fel chi, yn barod i fynd allan i hyrwyddo'r cynllun a'i drafod gyda grwpiau amrywiol a allai elwa ohono. Mae hynny'n ddefnyddiol iawn. Bydd yn rhaid imi edrych ymhellach ar yr ongl gyhoeddusrwydd, fel y gellir sicrhau bod gwybodaeth ar gael ar ffurf fwy hwylus.

William Graham: Minister, you will be well aware that, when properly resourced, neighbourhood watch schemes can be of real benefit to a community. One issue that has been reported in the press is distraction crime, which preys on the elderly especially. Have you any guidelines to issue regarding such crimes?

William Graham: Weinidog, byddwch yn ymwybodol iawn y gall cynlluniau gwarchod y gymdogaeth, o'u cyllido'n iawn, fod o fudd gwirioneddol i gymuned. Un mater sydd wedi ei drafod yn y wasg yw troseddau tynnu sylw, sy'n targedu'r henoed yn arbennig. A oes gennych unrhyw ganllawiau i'w cyhoeddi mewn perthynas â throseddau o'r fath?

Edwina Hart: There are issues with distraction crime, such as knocking on doors and gaining access to people's homes, and I would be happy to take this up with the chief constables at our meeting, to see if the Assembly can usefully issue publicity on any matter.

Edwina Hart: Mae yna broblemau i'w trafod mewn perthynas â throseddau tynnu sylw, megis cnocio drysau a chael mynediad i gartrefi pobl, a byddwn yn fwy na pharod i fynd i'r afael â hyn gyda'r prif gwnstabiliaid yn ein cyfarfod, i weld a all y Cynulliad fod o ddefnydd drwy gyhoeddi deunydd cyhoeddusrwydd ar unrhyw bwnc.

Strategaeth Tlodi Plant Child Poverty Strategy

Q6 Irene James: Will the Minister provide an update on the implementation of the child poverty strategy? OAQ0468(SJR)

C6 Irene James: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r strategaeth tlodi plant? OAQ0468(SJR)

Edwina Hart: My Deputy Minister is currently finalising his child poverty implementation plan.

Irene James: Do you agree that implementing the strategy and targeting child poverty is a key priority for the Welsh Assembly Government, and that it provides a strong foundation as a basis for future policy developments across the full remit of Assembly responsibilities? Further to the strategy's direct measures, what consideration is being given to the indirect effect on child poverty and social disadvantage of the way mainstream funding is distributed?

Edwina Hart: We must be clear that the Deputy Minister is looking at the child poverty implementation plan. Some of the levers in terms of child poverty do not lie in the hands of the Assembly Government. The Deputy Minister is focusing on what we can do in terms of budgets and how we can deal with issues. I am sure that, when his report is discussed, you will see that he is trying to address some of the issues that you have raised.

Leanne Wood: We have the highest level of child poverty in the UK, with a third of our children living in poverty. Last year, in the Chamber, Labour said that the UK Government was central to tackling child poverty and had attempted to acknowledge the problem through family tax credits. In the UK, 1.8 million claimants were overpaid this tax credit by the Inland Revenue. Many low-income families in Wales have now been plunged into debt, yet there has been no response about that matter from your Government. What discussions have you had with your colleagues in Westminster regarding the implications of this administrative error for families in Wales?

Edwina Hart: We are all aware, as individual AMs, of some case history in this respect. Members of Parliament are taking this forward in Westminster, as that is their role and function. I am more than happy, when I have an appropriate meeting, to raise the issues that you have raised today.

Edwina Hart: Mae fy Nirprwy Weinidog wrthi ar hyn o bryd yn llunio fersiwn terfynol ei gynllun gweithredu ar dlodi plant.

Irene James: A gytunwch fod gweithredu'r strategaeth a thargeddu tlodi plant yn brif flaenoriaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru, a'i bod yn sylfaen gref ar gyfer datblygu polisiau yn y dyfodol ar draws cylch gwaith llawn cyfrifoldebau'r Cynulliad? Yn ychwanegol at fesurau uniongyrchol y strategaeth, pa ystyriaeth a roddir i'r effaith anuniongyrchol a gaiff y ffordd y caiff arian prif ffrwd ei dyrannu ar dlodi plant ac anfantais gymdeithasol?

Edwina Hart: Rhaid inni fod yn glir fod y Dirprwy Weinidog yn edrych ar y cynllun gweithredu tlodi plant. Nid yw rhai o'r achosion tlodi plant yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r Dirprwy Weinidog yn canolbwyntio ar yr hyn y gallwn ei wneud o ran cyllidebau a sut y gallwn ymdrin â materion. Pan drafodir ei adroddiad, yr wyf yn siŵr y gwelwch ei fod yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd gennych.

Leanne Wood: Mae gennym y lefel uchaf o dlodi plant yn y DU, gyda thraean o'n plant yn byw mewn tlodi. Y llynedd, yn y Siambr, dywedodd Llafur fod Llywodraeth y DU yn ganolog i'r gwaith o fynd i'r afael â thlodi plant a'i bod wedi ceisio cydnabod y broblem drwy greydau treth i deuluoedd. Yn y DU, gordalwyd y credyd treth hwn gan Gyllid y Wlad i 1.8 miliwn o hawlwyd. Bellach, mae nifer o deuluoedd incwm isel yng Nghymru mewn dyled fawr, ond ni fu unrhyw ymateb i'r mater hwnnw gan eich Llywodraeth chi. Pa drafodaethau a gawsoch gyda'ch cyd-Weinidogion yn San Steffan am oblygiadau'r gwall gweinyddol hwn i deuluoedd yng Nghymru?

Edwina Hart: Yr ydym i gyd yn ymwybodol, fel ACau unigol, o achosion o'r fath. Mae Aelodau Seneddol yn gweithredu ar hyn yn San Steffan, gan mai dyna yw eu rôl a'u swyddogaeth. Yr wyf yn fwy na pharod, pan gaf gyfarfod priodol, i drafod y materion a godwyd gennych heddiw.

Jonathan Morgan: Save the Children published a report in December commenting on the persistently high levels of child poverty across Wales, despite the fact that, three years ago, the Assembly set up the child poverty task group. Can you provide an update on what that task group has been doing, and will you comment on what seems to be a fair criticism from Save the Children on the progress of this matter?

Edwina Hart: We must recognise that much good work has been done across Wales in respect of child poverty, whether as a result of Assembly Government or central Government policies. The appropriate time to discuss these issues will be when we have the final child poverty implementation plan from my Deputy Minister. I am happy to agree that that should be the subject not only of discussion in committee but of debate here, provided that the Business Minister agrees.

Jonathan Morgan: Cyhoeddodd Achub y Plant adroddiad ym mis Rhagfyr yn cyfeirio at lefelau uchel parhaus o dlodi plant ledled Cymru, er bod y Cynulliad wedi sefydlu'r grŵp gorchwyl tlodi plant dair blynedd yn ôl. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y bu'r grŵp gorchwyl hwnnw'n ei wneud, ac a wnewch ymateb i'r hyn sydd, yn ôl pob tebyg, yn feirniadaeth deg gan Achub y Plant ar gynnydd gyda'r mater hwn?

Edwina Hart: Rhaid inni gydnabod bod llawer o waith da wedi ei wneud ledled Cymru o ran tlodi plant, boed o ganlyniad i bolisiau Llywodraeth y Cynulliad neu bolisiau'r Llywodraeth Ganolog. Yr amser priodol i drafod y materion hyn fydd pan gawn y cynllun gweithredu terfynol ar dlodi plant gan fy Nirprwy Weinidog. Yr wyf yn fodlon cytuno y dylai hynny fod yn destun trafodaeth, nid yn unig yn y pwyllgor ond yn destun dadl yma, ar yr amod bod y Trefnydd yn cytuno â hynny.

Grantiau Cyfleusterau ar gyfer Pobl Anabl Disabled Facilities Grants

Q7 Peter Black: What action is the Minister taking to reduce waiting times for disabled facility grants in Wales? OAQ0492(SJR)

Edwina Hart: We are making good progress in implementing the recommendations from our review of disabled facilities grants, which addressed this issue. However, the effective delivery of DFGs is ultimately a matter for local authorities.

Peter Black: As you know, the review that you carried out into DFGs indicated that the average waiting time is 18 months, and that that is not shifting much. Although there are things that you can do on the fringes, the basic problem is one of resource. Given that, effectively, £40 million that was available for private renovations has been taken out and put into the major repairs allowance, what plans do you have to replace that money in future years, so as to enable local councils to access the resources to reduce these waiting times?

Edwina Hart: Individual local authorities

C7 Peter Black: Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i leihau amseroedd aros am grantiau cyfleusterau i bobl anabl yng Nghymru? OAQ0492(SJR)

Edwina Hart: Yr ydym yn gwneud cynnydd da wrth weithredu argymhellion ein hadolygiad o grantiau cyfleusterau i bobl anabl, a oedd yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Fodd bynnag, cyfrifoldeb awdurdodau lleol yn y pen draw yw dyrannu grantiau cyfleusterau i bobl anabl yn effeithiol.

Peter Black: Fel y gwyddoch, yr oedd yr adolygiad o grantiau cyfleusterau i bobl anabl a wnaed gennych yn nodi mai'r amser aros ar gyfartaledd yw 18 mis, ac nad yw hynny'n newid rhyw lawer. Er bod pethau y gallwch eu gwneud ar yr ymylon, mae a wnelo'r broblem sylfaenol ag adnoddau. O gofio mewn gwirionedd fod £40 miliwn a oedd ar gael ar gyfer gwaith adnewyddu preifat wedi ei dynnu allan a'i gynnwys yn y lwfans atgyweiriadau mawr, pa gynlluniau sydd gennych i ddychwelyd yr arian hwnnw yn y dyfodol, er mwyn galluogi cynghorau lleol i allu cael yr adnoddau a lleihau'r amseroedd aros hyn?

Edwina Hart: Rhaid i awdurdodau lleol unigol

must also look at themselves in terms of the administration of DFGs, the time they take and the resources. The responsibility for allocating DFGs rests squarely with local authorities rather than with the Assembly. The grants are mandatory, and it is for local authorities to determine the amount of unhypothecated resources that they target at these grants, in line with local priorities. I have been firm on this issue. However, on the issue of DFGs, as we did undertake what was a very successful review, I am in ongoing discussions with officials, and they are in ongoing discussions with local government. I will report to the Social Justice and Regeneration Committee in the spring on some useful issues in this regard. Members might want to raise those issues with me again.

Helen Mary Jones: I am currently dealing with two constituency cases where delays in people being released from hospital are being caused by the quality of work done by particular contractors with disabled facilities grants. Obviously, this is primarily a matter for the local authority, but what are you able to do in partnership with local authorities to drive up the standard of work that is done, after people have often waited for it for a very long time.

2.20 p.m.

Edwina Hart: I thank you for raising this issue. Quality of work issues are raised by many Assembly Members, either formally or informally. It is also about the timescales that are involved when you have the discharge issue of someone not being able to return home and how long that process takes. I would be happy to take up those points, and if there are particular concerns, such as the two cases you mentioned, I would be grateful if you passed those on to me.

David Melding: The average waiting period of 18 months is worrying. Not all of these alterations are of a large scale, but they can be crucial, even if they are fairly small adjustments, in allowing people back home, or in allowing people to stay at home in the last portion of their lives. This is a vital issue and we need a more flexible and responsive

hefyd ystyried sut maent yn gweinyddu'r grantiau cyfleusterau i bobl anabl, yr amser a gymerant a'r adnoddau. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yn llwyr yw dyrannu grantiau cyfleusterau i bobl anabl, yn hytrach na'r Cynulliad. Mae'r grantiau'n rhai gorfodol, a gwaith awdurdodau lleol yw penderfynu swm yr adnoddau heb eu neilltuo a dargedir ganddynt i'r grantiau hyn, yn unol â blaenoriaethau lleol. Bûm yn gadarn o ran y mater hwn. Fodd bynnag, o ran y grantiau cyfleusterau i bobl anabl, gan ein bod wedi gwneud adolygiad llwyddiannus iawn, yr wyf yn cael trafodaethau parhaus gyda swyddogion, ac maent hwy'n trafod yn barhaus gyda llywodraeth leol. Byddaf yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn y gwanwyn ar rai materion defnyddiol yn hyn o beth. Hwyrach y bydd Aelodau am godi'r materion hynny gyda mi maes o law.

Helen Mary Jones: Ar hyn o bryd yr wyf yn ymdrin â dau achos yn fy etholaeth lle mae oedi cyn i bobl gael eu rhyddhau o'r ysbyty, a hynny'n cael ei achosi gan ansawdd y gwaith a wneir gan gontractwyr penodol gyda grantiau cyfleusterau i bobl anabl. Yn amlwg, mater i'r awdurdod lleol yn bennaf yw hwn, ond beth y gallwch ei wneud mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i wella safon y gwaith a wneir, ar ôl i bobl fod yn aros amdano am amser hir iawn yn aml.

Edwina Hart: Diolch ichi am godi'r mater hwn. Codir materion am safon gwaith gan nifer o Aelodau'r Cynulliad, naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol. Mae hefyd yn ymwneud â'r amserlenni pan gaiff pobl eu rhyddhau ac na allant ddychwelyd adref a faint o amser a gymer y broses honno. Byddwn yn fwy na pharod i fynd i'r afael â'r pwyntiau hynny, ac os oes pryderon penodol, fel y ddau achos yr oeddech yn sôn amdanynt, byddwn yn ddiolchgar pe gallech eu trosglwyddo imi.

David Melding: Mae'r amser aros cyfartalog o 18 mis yn peri gofid. Nid yw pob un o'r addasiadau hyn ar raddfa fawr, ond gallant fod yn hanfodol, hyd yn oed os newidiadau cymharol fach ydynt, i alluogi pobl i fynd adref, neu alluogi pobl i aros yn eu cartref yn ystod cyfnod olaf eu bywyd. Mae hwn yn fater hanfodol ac mae arnom angen system fwy

system.

Edwina Hart: We are going down the route of the disabled facilities grant, when Care and Repair Cymru could do a few things that would enable people to remain in their homes, to be discharged from hospital, and so on. This is the area that I will be looking at in light of the report, and I would be happy to report back to Members. I share your concerns on this because there are unacceptable delays in the system in dealing with DFGs.

hyblyg ac ymatebol.

Edwina Hart: Yr ydym yn defnyddio'r grant cyfleusterau i bobl anabl mewn achosion lle gallai Gofal a Thrwsio Cymru wneud ambell beth a fyddai'n galluogi pobl i aros gartref, i gael eu rhyddhau o'r ysbyty, ac yn y blaen. Dyma'r maes y byddaf yn ymchwilio iddo yng ngoleuni'r adroddiad, a byddwn yn fwy na pharod i adrodd yn ôl i'r Aelodau. Fel chi, yr wyf finnau'n pryderu am hyn gan fod achosion o oedi annerbyniol yn y system wrth ymdrin â grantiau cyfleusterau i bobl anabl.

Costau Ailstrwythuro'r Heddluoedd yng Nghymru Costs of Restructuring the Police Forces in Wales

C8 Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones): Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o gostau ailstrwythuro'r heddluoedd yng Nghymru? OAQ0486(SJR)

Q8 The Leader of the Opposition (Ieuan Wyn Jones): What assessment has the Minister made of the costs of restructuring the police forces in Wales? OAQ0486(SJR)

Edwina Hart: This work is being undertaken by the police forces in Wales, who have the relevant detailed information

Edwina Hart: Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud gan yr heddluoedd yng Nghymru, gan mai ganddynt hwy mae'r wybodaeth fanwl berthnasol.

Ieuan Wyn Jones: Cyn fy mod yn gofyn cwestiwn penodol ar hynny, yr wyf yn siŵr y byddai'r Gweinidog am inni anfon ein cofion, yn arbennig heddiw, at deulu Sharon Beshenivsky. Yr ydym yn cydnabod y perygl y mae nifer o'n heddweision yn ei wynebu pan fyddant ar ddyletswydd, ac yr wyf yn siŵr y byddai'r Gweinidog am ymateb i hynny ar ran y Llywodraeth.

Ieuan Wyn Jones: Before I ask a specific question on that, I am sure the Minister would want us to send our best wishes, particularly today, to the family of Sharon Beshenivsky. We acknowledge the danger that many of our police officers face when they are on duty, and I am sure the Minister will want to respond to that on behalf of the Government.

Trof at y ffordd y mae heddluoedd yng Nghymru a Lloegr wedi ymateb i'r amserlen a roddwyd iddynt gan yr Ysgrifennydd Cartref yn Lloegr. A yw'r ffaith bod yr heddluoedd yn Nghymru wedi gwrthod ymateb yn unol ag amserlen yr Ysgrifennydd Cartref yn tanlinellu'r ffaith bod y Cynulliad yn berffaith iawn wrth ddweud ei fod wedi gosod amserlen llawer rhy dynn i'r heddluoedd ymateb i'r ailstrwythuro?

I turn now to the way police forces in Wales and in England have responded to the timetable set for them by the Home Secretary in England. Does the fact that police forces in Wales have refused to respond in line with the Home Secretary's timetable emphasise the fact that the Assembly was totally right in saying that he had set too tight a timetable for the police forces to respond to the restructuring?

Edwina Hart: The Assembly and I said a few words about the tight timetable in respect of the consultation, and I can fully understand why the police authorities in Wales wanted to have longer discussions about the issues. It was a rushed timetable, and I have

Edwina Hart: Mynegais i a'r Cynulliad farn am amserlen dynn yr ymgynghori, a gallaf ddeall yn iawn pam y byddai awdurdodau'r heddlu yng Nghymru am gael trafodaethau hirach am y materion. Yr oedd yr amserlen yn frysio, ac yr wyf wedi cydnabod hynny yn y

acknowledged that in the Chamber.

Siambr.

Turning to the death of the police officer, what does one say in the face of tragedy? We can only say to her relatives that we wish them well. However, these incidents occur and we must recognise that there are some very brave people out there who keep the streets safe for us.

I droi at farwolaeth y blismones, beth a all neb ei ddweud mewn trasiedi? Ni allwn ond dweud wrth ei pherthnasau ein bod yn dymuno'n dda iddynt. Fodd bynnag, mae'r pethau hyn yn digwydd, a rhaid inni gydnabod bod gennym bobl ddewr iawn sydd wrthi'n sicrhau bod ein strydoedd yn ddiogel inni.

Ieuan Wyn Jones: I will move on to explore this issue about the timetable given to the police authorities in England and Wales by the Home Secretary. You will know that the majority of the police authorities, taking England and Wales together, have rejected the timetable and the criteria proposed by the Home Secretary. Is it not time for the Assembly to renew its plea to the Home Secretary to rethink the way in which he will approach the restructuring of police authorities in Wales, and to take into account a number of very important issues, including governance, the constitution of police authorities, and to renew the plea on behalf of many people in Wales that this is a matter that should be left to the people of Wales to decide, and not the Home Secretary?

Ieuan Wyn Jones: Symudaf ymlaen i archwilio'r amserlen a osodwyd i awdurdodau'r heddlu yng Nghymru a Lloegr gan yr Ysgrifennydd Cartref. Gwyddoch fod y rhan fwyaf o awdurdodau'r heddlu, o gymryd Cymru a Lloegr gyda'i gilydd, wedi gwrthod yr amserlen a'r meini prawf a gynigiwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref. Onid yw'n bryd i'r Cynulliad adnewyddu ei ble i'r Ysgrifennydd Cartref ailystyried y ffordd y bydd yn mynd ati i ailstrwythuro awdurdodau'r heddlu yng Nghymru, ac i ystyried nifer o faterion pwysig iawn, gan gynnwys llywodraethu, cyfansoddiad awdurdodau'r heddlu, ac i adnewyddu'r ble ar ran nifer o bobl yng Nghymru fod hwn yn fater y dylai pobl Cymru ei benderfynu, nid yr Ysgrifennydd Cartref?

Edwina Hart: I will be having further discussions about the whole governance issue and what structures we believe are appropriate in Wales—if any changes occur—for the governance of the police. I have made it clear that, in the long run, there are issues about the devolution of the police, but there are also areas that I am immediately concerned about, such as financial transparency, which I will continue to pursue.

Edwina Hart: Byddaf yn cael trafodaethau pellach ar lywodraethu a pha strwythurau a gredwn sy'n briodol yng Nghymru—os gwneir unrhyw newidiadau—o ran llywodraethu'r heddlu. Yr wyf wedi gwneud yn glir fod yna broblemau ynghylch datganoli'r heddlu yn y pen draw. Ond mae yna feysydd hefyd sy'n peri pryder uniongyrchol imi, fel eglurder ariannol, a byddaf yn parhau i ymdrin â hwy.

The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne): The leader of Plaid Cymru has already referred to PC Sharon Beshenivsky, and, on behalf of my party, I extend our sympathy to her family. This tragedy illustrates the dangerous work that the police do for us, and the dangers in the front line of police service, so it is appropriate that we mark our respect for them.

Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne): Mae arweinydd Plaid Cymru eisoes wedi cyfeirio at y Cwnstabl Sharon Beshenivsky, ac ar ran fy mhlaid estynnaf ein cydymdeimlad i'w theulu. Mae'r drasiedi hon yn dangos y gwaith peryglus y mae'r heddlu'n ei wneud drosom, a'r peryglon yn rheng flaen gwasanaethau'r heddlu, felly mae'n briodol inni ddangos ein parch tuag atynt.

To return to the cost aspect of the restructuring, which clearly concerns people in Wales, the great danger is that this is not a devolved area except when it comes to

I ddychwelyd at gost yr ailstrwythuro, sy'n amlwg yn peri pryder i bobl yng Nghymru, y perygl mawr yw nad yw'n faes sydd wedi ei ddatganoli, ac eithrio pan fydd angen talu'r

picking up the tab, which is what many people are worried about. I make no judgment about whether it should be devolved or not; I remain to be convinced that it should be. However, as regards the cost, what assurance has the Minister had that these additional costs—the actual set-up cost—amounting to £12.2 million, will not be placed on the Assembly Government or on local authorities in Wales, but will be picked up by the Home Office? If you have not had assurances on that, are you seeking assurances that the costs pre these changes, during the changes, and afterwards will be met from the Home Office budget?

Edwina Hart: I am always one that believes that when you have any change in structures, there will be immediate, upfront costs. In the future, there might well be savings, but you have to look at the upfront issues—sheer practical things like whether computer systems are compatible—of which there is a whole range. I have made it clear that if there are additional costs, I do not expect the Welsh taxpayer, in any shape or form, to pick them up. That is my position, and I will be reiterating that position shortly.

Nick Bourne: I am grateful to the Minister for that clear statement, extending, as it no doubt does, not just to the Assembly budget, but to the local government budget. We know that she has a robust approach on these issues. I simply ask that she keeps us informed of any progress or discussions with the Home Office on this matter, because, clearly, it is of central importance to the people of Wales.

Edwina Hart: I will obviously keep Members informed; I will do so through my committee, because I intend to mention it in every appropriate report. I have also indicated that I will be giving reports and updates, because we are in ongoing discussions about costs and financial issues with the Home Office, and I will give regular updates on any progress.

The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German): First of all, I associate myself with the comments that you and the leaders of the Conservative group and the Plaid Cymru group have in

gost, sef yr hyn y mae nifer o bobl yn pryderu yn ei gylch. Nid wyf yn mynegi barn a ddylid ei ddatganoli ai peidio; nid wyf eto wedi fy narbwyllo y dylid gwneud hynny. Fodd bynnag, o ran y gost, pa sicrwydd a gafodd y Gweinidog na fydd y costau ychwanegol hyn—y gost sefydlu wirioneddol—sef £12.2 miliwn, yn disgyn ar ysgwyddau Llywodraeth y Cynulliad neu'r awdurdodau lleol yng Nghymru, ond yn hytrach ar ysgwyddau'r Swyddfa Gartref? Os na chawsoch sicrwydd am hynny eisoes, a ydych yn ceisio cael sicrwydd y bydd y costau cyn y newidiadau hyn, yn ystod y newidiadau, ac wedi hynny yn dod o gyllideb y Swyddfa Gartref?

Edwina Hart: Yr wyf bob amser yn credu y bydd costau i'w talu ar unwaith pan fydd unrhyw newidiadau mewn strwythurau. Yn y dyfodol, efallai y bydd arbedion, ond rhaid ichi ystyried y materion cychwynol—pethau cwbl ymarferol fela yw systemau cyfrifiadurol yn gydnaws. Yr wyf wedi gwneud yn glir nad wyf yn disgwyl i drethdalwyr Cymru dalu unrhyw gostau mewn unrhyw ffordd, os bydd costau ychwanegol. Dyna fy marn, a byddaf yn ailadrodd y farn honno maes o law.

Nick Bourne: Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am y datganiad clir hwnnw, sy'n cwmpasu, fel y mae, yn siŵr, nid yn unig gyllideb y Cynulliad, ond cyllideb llywodraeth leol. Gwyddom fod ganddi ymagwedd gadarn tuag at y materion hyn. Gofynnaf iddi roi gwybod inni am unrhyw gynnydd neu drafodaethau gyda'r Swyddfa Gartref ar y mater hwn, gan ei fod, yn amlwg, yn fater hanfodol bwysig i bobl Cymru.

Edwina Hart: Byddaf, wrth gwrs, yn hysbysu Aelodau; gwnaf hynny drwy fy mhwyllgor, oherwydd bwriadaf sôn amdano ym mhob adroddiad priodol. Yr wyf hefyd wedi crybwyll y byddaf yn rhoi adroddiadau a'r manylion diweddaraf, gan ein bod yn cael trafodaethau parhaus am gostau a materion ariannol gyda'r Swyddfa Gartref, a byddaf yn rhoi'r newyddion diweddaraf yn rheolaidd am unrhyw gynnydd.

Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German): Yn gyntaf, yr wyf am ategu'r sylwadau a wnaed gennych chi ac arweinwyr y grŵp Ceidwadol a grŵp Plaid Cymru am dristwch teulu'r Cwnstabl

relation to the sorrow felt by the family of PC Beshenivsky and the people of Bradford, and about the brave work that is done by the police federation and police officers throughout the United Kingdom.

I would like to follow on from your robust statement about the costs of this matter. Of course, there are short-term costs that are associated with change, and you have already identified one of the key ones as being the information technology systems of police authorities in Wales, which will need to be connected in some way. However, there is always a problem that once you have built in the change, those will be ongoing costs that will be reflected for some considerable time, because today's costs get passed on and can keep going for many years.

On the whole issue of funding, which you have rightly described as 'contentious', I think that the National Assembly as a whole would wish you well in your discussions with the Home Secretary. Have you identified the exact costs that you feel that the proposals, as outlined by the Home Secretary, would cause to fall to council tax payers and to the National Assembly should there be no contribution from the Home Office? If you have identified those sums, can you tell us whether you have already indicated to the Home Secretary that those figures amount to unacceptable increases for our budget and for local authority budgets?

Edwina Hart: The police authorities have been working through some figures within the police service. I do not believe that I have yet seen the final figures that are emerging from all of those discussions, but once I see those final figures and feel happy—the authorities will have better knowledge than me of finances this year—I will consider my position and make the appropriate representations to the Home Secretary. To be clear about this, we have to recognise the differences in police precepts in Wales, along with other issues. Funding is key to how all this works. There is no point in ignoring the issue. It has to be confronted head on, and it is my duty as an Assembly Minister to protect the interests of the citizens and taxpayers of Wales on this particular issue. At the end of the day, the most important

Beshenivsky a phobl Bradford, ac am y gwaith dewr a wneir gan ffederasiwn yr heddlu a heddweision ledled y Deyrnas Unedig.

Hoffwn ymateb i'ch datganiad grymus am gostau'r mater hwn. Wrth gwrs, mae yna gostau byrdymor yn gysylltiedig â newid, ac yr ydych wedi nodi un o'r prif rai eisoes, sef systemau technoleg gwybodaeth awdurdodau'r heddlu yng Nghymru. Bydd angen eu cysylltu rywsut. Fodd bynnag, mae'r un broblem yn codi dro ar ôl tro sef, ar ôl gweithredu'r newid, y bydd y costau hynny'n gostau parhaus a gaiff eu hadlewyrchu am amser maith, gan fod costau heddiw'n cael eu cario ymlaen ac yn gallu parhau felly am flynyddoedd lawer.

O ran ariannu, a ddisgrifiwyd gennych yn gywir ddigon fel mater 'cynhennus', credaf y byddai'r Cynulliad Cenedlaethol cyfan yn dymuno'n dda ichi yn eich trafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Cartref. A ydych wedi nodi'r union gostau y credwch y byddai'r cynigion, fel y'u hamlinellwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref, yn eu gosod ar ysgwyddau trethdalwyr a'r Cynulliad Cenedlaethol pe na bai unrhyw gyfraniad gan y Swyddfa Gartref? Os ydych wedi nodi'r symiau hynny, a allwch ddweud wrthym a ydych eisoes wedi dweud wrth yr Ysgrifennydd Cartref fod y ffigurau hynny'n golygu cynnydd annerbyniol yn ein cyllideb ni a chyllidebau awdurdodau lleol?

Edwina Hart: Mae awdurdodau'r heddlu wedi bod yn gweithio drwy rai ffigurau o fewn gwasanaeth yr heddlu. Ni chredaf fy mod wedi gweld y ffigurau terfynol eto sy'n deillio o'r holl drafodaethau hynny, ond cyn gynted ag y gwelaf y ffigurau hynny ac y byddaf yn teimlo'n fodlon—bydd gan yr awdurdodau fwy o wybodaeth na mi am gyllidebau eleni—byddaf yn ystyried fy safbwynt ac yn cyflwyno sylwadau priodol i'r Ysgrifennydd Cartref. I fod yn glir am hyn, rhaid inni gydnabod y gwahaniaethau ym mhraeseptau'r heddlu yng Nghymru, ynghyd â materion eraill. Mae arian yn allweddol i'r ffordd mae hyn oll yn gweithio. Nid oes diben anwybyddu'r mater. Rhaid mynd i'r afael ag ef yn uniongyrchol, a'm dyletswydd i fel un o Weinidogion y Cynulliad yw diogelu buddiannau dinasyddion a threthdalwyr Cymru yn y mater penodol hwn. Yn y pen draw, y peth

thing about policing is that it is relevant, that people see that it is good for neighbourhoods, and that they recognise what they are paying for and getting. That is an important principle.

Michael German: I do not dispute that for a moment. I fully agree with you that the issue of funding, particularly upon hard-pressed council tax payers in Wales, will be crucial in this debate. What I am seeking to know relates to the timetable for this matter. If you are waiting for the figures to come from the police authorities in Wales, do you have enough time at the other end? Will Charles Clarke wait for you to be able to make your case? Do you think that you have weeks or months to put this case?

Edwina Hart: I have already made my case on some of these issues. In terms of the detailed figures of the police authorities, those figures are with them. I have indications of cost, but I can assure you that I am dealing with the issue of cost very vigorously.

pwysicaf ynglŷn â phlismaona yw ei fod yn berthnasol, fod pobl yn sylweddoli ei fod yn beth da i gymdogaethau, a'u bod yn cydnabod yr hyn y maent yn talu amdano ac yn ei gael. Mae honno'n egwyddor bwysig.

Michael German: Nid wyf yn amau hynny am eiliad. Cytunaf yn llwyr â chi y bydd y broses ariannu, yn enwedig mewn perthynas â threthdalwyr sy'n ei chael yn anodd yng Nghymru, yn hanfodol yn y ddaidl hon. Mae'r hyn yr wyf am ei wybod yn gysylltiedig â'r amserlen ar gyfer y mater hwn. Os ydych yn aros am y ffigurau gan awdurdodau'r heddlu yng Nghymru, a fydd gennych ddigon o amser wedi hynny? A wnaiff Charles Clarke aros i chi allu cyflwyno'ch achos? A ydych y credu bod gennych wythnosau neu fisoedd i gyflwyno'r achos hwn?

Edwina Hart: Yr wyf eisoes wedi cyflwyno fy achos ar rai o'r materion hyn. O ran ffigurau manwl awdurdodau'r heddlu, ganddynt hwy mae'r ffigurau hynny. Mae gennyf syniad o'r gost, ond gallaf eich sicrhau fy mod yn ymdrin â mater y gost yn drylwyr iawn.

Polisiâu Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth y Cynulliad The Assembly Government's Social Justice Policies

Q9 Lisa Francis: What action is the Welsh Assembly Government taking to ensure that local authorities in mid and west Wales are fully aware of their obligations in implementing the Assembly Government's social justice policies? OAQ0491(SJR)

C9 Lisa Francis: Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod awdurdodau lleol yn y canolbarth a'r gorllewin yn gwbl ymwybodol o'u rhwymedigaethau wrth weithredu polisiâu cyfiawnder cymdeithasol Llywodraeth y Cynulliad? OAQ0491(SJR)

2.30 p.m.

Edwina Hart: To be honest, we work closely with all local authorities throughout Wales to make them aware of their obligations with regard to social justice policies. This is achieved, in the main, by negotiation and through the agreement of local strategies and targets, and the publication of associated guidance and documentation. I have regular meetings with the Welsh Local Government Association, and several authorities also come to me to talk about issues.

Edwina Hart: A bod yn onest, yr ydym yn gweithio'n agos gyda phob awdurdod lleol ar hyd a lled Cymru i'w gwneud yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau o ran polisiâu cyfiawnder cymdeithasol. Gwneir hyn, yn bennaf, drwy negodi a thrwy gytuno ar strategaethau a thargedau lleol, a chyhoeddi canllawiau a dogfennaeth gysylltiedig. Byddaf yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a bydd aml i awdurdod yn dod ataf i siarad am faterion.

Lisa Francis: This is a fairly new issue, but powers to deal with abandoned shopping trolleys, which blight the environment and

Lisa Francis: Mae hwn yn fater cymharol newydd, ond rhoddir pwerau i gynghorau sir ymdrin â throlïau siopa sy'n cael eu gadael ac

landscape, are to be given to county councils. They will now be able to pick up abandoned trolleys and charge retailers for their removal and storage. Do you anticipate that your Government will be taking action to ensure that all local authorities in Mid and West Wales take up this practice?

Edwina Hart: There is nothing more irritating to me than shopping trolleys that have been left all over the place. Sometimes, it is the responsibility of individuals, and they should consider the consequences of their actions when they abandon trolleys. I will certainly make inquiries with officials regarding what action may be taken in this area.

Rhodri Glyn Thomas: A fyddech yn cytuno bod mudiadau ieuenctid yn gwneud gwaith pwysig o ran sicrhau bod pobl ifanc yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dinesig a chymdeithasol? Un mudiad sy'n gwneud gwaith eithriadol o bwysig yn y maes hwn yw Ffederasiwn Cenedlaethol Clybiau Ffermwyr Ifanc. A ydych yn rhannu fy ngofid bod Cyngor Sir Gaerfyrddin yn gwrthod rhoi cymorthdaliadau i'r ffederasiwn?

Edwina Hart: How Carmarthenshire County Council gives out grants is entirely a matter for it. Interestingly, further to Lisa's question, I do not think that it is young people who are causing problems with shopping trolleys.

sy'n difwyno'r amgylchedd a'r dirwedd. Byddant bellach yn gallu casglu trolïau sydd wedi'u gadael a chodi ffi ar fanwerthwyr i'w symud a'u storio. A ragwelwch y bydd eich Llywodraeth yn cymryd camau gweithredu i sicrhau bod yr holl awdurdodau lleol yn y canolbarth a'r gorllewin yn mabwysiadu'r arfer hwn?

Edwina Hart: Nid oes dim yn fy nghythraddo'n fwy na throlïau siopa sy'n cael eu gadael ym mhobman. Weithiau, cyfrifoldeb unigolion yw hyn, a dylent ystyried canlyniadau eu gweithredoedd pan fyddant yn gadael eu trolïau. Byddaf yn sicr yn gwneud ymholiadau gyda swyddogion i weld pa gamau y gellir eu cymryd yn y maes hwn.

Rhodri Glyn Thomas: Do you agree that youth organisations perform an important function to ensure that young people are made aware of their civic and social responsibilities? An organisation that does extremely important work in this area is the National Federation of Young Farmers' Clubs. Do you share my concern that Carmarthenshire County Council is refusing to grant-aid the federation?

Edwina Hart: Mater i Gyngor Sir Caerfyrddin yn llwyr yw'r ffordd y mae'n dosbarthu grantiau. Yn ddiddorol, yn ychwanegol at gwestiwn Lisa, ni chredaf mai pobl ifanc sy'n peri problemau o ran trolïau siopa.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth **Questions to the Minister for Economic Development and Transport**

Gwerth Ychwanegol Crynswth **Gross Value Added**

Q1 Owen John Thomas: What steps is the Minister taking to increase the Welsh gross value added? OAQ0616(EDT)

The Minister for Economic Development and Transport (Andrew Davies): The Assembly Government's economic development agenda focuses on the economic issues of most relevance to people across Wales, namely increasing employment and earnings, both of which have risen sharply

C1 Owen John Thomas: Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i gynyddu gwerth ychwanegol crynswth Cymru? OAQ0616(EDT)

Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies): Mae agenda Llywodraeth y Cynulliad ar ddatblygu economaidd yn canolbwyntio ar y materion economaidd sydd fwyaf perthnasol i bobl ledled Cymru, sef cynyddu cyflogaeth ac enillion, ac mae'r naill a'r llall wedi codi'n sydyn dros y

over recent years. Increases in employment and earnings will, in general, lead to increases in GVA.

Owen John Thomas: GVA per head in Wales, relative to the United Kingdom average, is at its lowest since 1998 and is the lowest of all the devolved nations and English regions. What steps is the Welsh Assembly Government taking to actively engage with small and medium-sized businesses, so that they are aware of the assistance that is available and how they can get it?

Andrew Davies: One reason why GVA per capita has fallen—and it fell significantly from a position of 85 per cent of the UK average in 1989, with a rapid fall after 1984—is as a result of the economic policies that were pursued by the previous Conservative Government. In fact, during the last two years, there has been a significant increase in GVA, in aggregate terms and per capita; last year, it was 5 per cent and the year before it was 5.4 per cent. There has been a significant increase, which shows the success of our policies. Nevertheless, small and medium-sized enterprises are crucial to the current and future prosperity of the Welsh economy. Our policies, such as the new knowledge bank for business, will identify high growth-potential companies and we will give them targeted support to help them to grow. In turn, they will make a significant contribution to the Welsh economy.

Leighton Andrews: I welcome the more detailed analysis of GVA that is set out in ‘Wales: A Vibrant Economy’. It is important that we understand the difficulties in addressing some of the issues. However, it is the case, is it not, that the record fall in Welsh GVA took place between 1989 and 1997, under the previous Conservative Government? Will you pledge to continue with the policies that are leading to a growth in employment and in getting more people back into work? Those are the kinds of policies that are helping communities such as mine.

Andrew Davies: Very much so. Wales is the only part of the nations and regions of the United Kingdom where, since 1999, there has

blynyddoedd diwethaf. Yn gyffredinol, bydd cynnydd mewn cyflogaeth ac enillion yn arwain at gynnydd mewn GYC.

Owen John Thomas: Mae GYC y pen yng Nghymru, o'i gymharu â chyfartaledd y Deyrnas Unedig, ar ei isaf er 1998, a'r isaf o'r holl genhedloedd datganoledig a rhanbarthau Lloegr. Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i gysylltu â busnesau bach a chanolig eu maint, er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael a sut y gallant ei gael?

Andrew Davies: Un rheswm pam y mae GYC y pen wedi gostwng—a gostyngodd yn sylweddol o 85 y cant o gyfartaledd y DU yn 1989, gyda gostyngiad sydyn ar ôl 1984—yw o ganlyniad i'r polisiau economaidd a ddilynwyd gan y Llywodraeth Geidwadol flaenorol. Mewn gwirionedd, yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, bu cynnydd sylweddol yn y GYC, yn ei gryswth ac yn ôl y pen; y llynedd, 5 y cant ydoedd a'r flwyddyn flaenorol yr oedd yn 5.4 y cant. Bu cynnydd sylweddol, sy'n dangos llwyddiant ein polisiau. Serch hynny, mae mentrau bach a chanolig eu maint yn hanfodol i ffyniant economi Cymru yn awr ac yn y dyfodol. Bydd ein polisiau, megis y banc gwybodaeth newydd ar gyfer busnesau, yn nodi cwmnïau sydd â photensial i dyfu llawer, a byddwn yn rhoi cymorth wedi'i dargedu iddynt i'w helpu i dyfu. Yn eu tro, byddant yn gwneud cyfraniad sylweddol i economi Cymru.

Leighton Andrews: Croesawaf y dadansoddiad manylach o GYC a nodir yn ‘Cymru: Economi yn Ffynnu’. Mae'n bwysig inni ddeall yr anawsterau wrth fynd i'r afael â rhai o'r materion. Fodd bynnag, onid yw'n wir fod y gostyngiad mwyaf mewn GYC yng Nghymru wedi digwydd rhwng 1989 a 1997, o dan y Llywodraeth Geidwadol flaenorol? A wnewch chi addo parhau'r polisiau sy'n arwain at gynnydd mewn cyflogaeth, a sicrhau bod mwy o bobl yn dychwelyd i'r gwaith? Dyna'r math o bolisiau sy'n helpu cymunedau megis fy nghymuned i.

Andrew Davies: Mae hynny'n wir iawn. Cymru yw'r unig ran o genhedloedd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig lle bu cynnydd o

been a 10 per cent increase in employment—100,000 jobs have been created since the Assembly was established. In fact, the most recent ONS figure for employment earnings growth was 5.8 per cent, which is the highest for any part of the United Kingdom. That shows that our policies are working. However, we are never complacent, and we know that we need to redouble our efforts in an increasingly competitive global market.

Alun Cairns: Is it not thin and does it not demonstrate the weakness of the Minister's argument that he harks back to the last Conservative Government, given that his party has been in power since 1997? There has been ample time to improve Welsh GVA and GDP figures, and we know that because the First Minister said that, by 2010, although the target would be difficult to achieve, the figures would exceed 90 per cent of UK GVA. Now that it is clear that you do not have a hope in the world of achieving 90 per cent of UK GVA by 2010, Minister, you want to refer back to the previous administration of more than seven years ago to try to blame it for these poor and disastrous figures. The fact is that Wales is the poorest region or nation of the United Kingdom, in spite of the Labour Assembly Government's policies. You always return to the job creation figures, but if you have not moved the GVA figures forward, that demonstrates that the quality and salaries of those jobs are not moving the Welsh economy forward. It is nothing less than abject failure.

Andrew Davies: The GVA figures were in freefall when your party was in Government. We have halted that decline, and it has levelled off. I have just shown that, in the last two years, there has been a significant increase in GVA, in aggregate terms and per capita. However, all the analysis, in 'WAVE' and 'A Winning Wales', shows that at least half the difference in GVA between Wales and the rest of the United Kingdom is because of the high levels of unemployment that your party bequeathed us when it left Government. Another reason is the unacceptably high levels of economic inactivity. Why is it that former coalmining communities, many in the Heads of the

10 y cant mewn cyflogaeth er 1999—crëwyd 100,000 o swyddi ers sefydlu'r Cynulliad. Mewn gwirionedd, ffigur diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer twf mewn enillion cyflogaeth oedd 5.8 y cant, sef yr uchaf ar gyfer unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig. Dengys hynny fod ein polisiau'n gweithio. Fodd bynnag, nid ydym fyth yn hunanfodlon, a gwyddom fod yn rhaid inni wneud mwy o ymdrech mewn marchnad fyd-eang sy'n mynd yn fwyfwy cystadleuol.

Alun Cairns: Onid yw'n wan, ac onid yw'n dangos gwendid dadl y Gweinidog ei fod yn mynnu cyfeirio'n ôl at y Llywodraeth Geidwadol ddiwethaf, o gofio bod ei blaid mewn grym er 1997? Cafwyd digon o amser i wella ffigurau GYC a CMC Cymru, a gwyddom hynny oherwydd mae'r Prif Weinidog wedi dweud, erbyn 2010, er y byddai'r targed yn anodd i'w gyflawni, y byddai'r ffigurau'n fwy na 90 y cant o GYC y DU. Gan ei bod bellach yn amlwg nad oes gennych unrhyw obaith o gwbl o gyrraedd 90 y cant o GYC y DU erbyn 2010, Weinidog, yr ydych am gyfeirio'n ôl at y weinyddiaeth flaenorol, a oedd mewn grym dros saith mlynedd yn ôl, i geisio ei beio am y ffigurau gwael a thrychinebus hyn. Y gwir amdani yw mai Cymru yw'r rhanbarth neu'r genedl dlotaf yn y Deyrnas Unedig, er gwaethaf polisiau Llywodraeth Lafur y Cynulliad. Yr ydych bob amser yn dychwelyd at ffigurau creu swyddi. Ond os nad ydych wedi symud y ffigurau GYC ymlaen, mae hynny'n dangos nad yw ansawdd a chyflogau'r swyddi hynny yn symud economi Cymru ymlaen. Methiant llwyr yw hynny.

Andrew Davies: Yr oedd y ffigurau GYC yn gostwng yn sydyn pan oedd eich plaid chi mewn grym. Yr ydym wedi atal y gostyngiad hwnnw, ac mae wedi gwastatau. Yr wyf newydd ddangos bod cynnydd sylweddol mewn GYC wedi digwydd yn y ddwy flynedd diwethaf, yn ei grynsyth ac yn ôl y pen. Fodd bynnag, mae'r holl waith dadansoddi, yn 'WAVE' a 'Cymru'n Ennill', yn dangos bod o leiaf hanner y gwahaniaeth mewn GYC rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig yn deillio o'r lefelau diweithdra uchel a etifeddwyd gennym ar ôl i'ch plaid chi golli grym. Rheswm arall yw'r lefelau anweithgarwch economaidd annerbyniol o uchel. Pam mae cyfraddau anweithgarwch economaidd o 25 y cant, 30 y

Valleys areas, have economic inactivity rates of 25 per cent and, in many cases, 30 per cent? It is because of a deliberate attempt by your Government to remove people from the unemployment list and to class them as long-term sick. You created the problem, and we are sorting it out.

cant mewn llawer achos, mewn hen gymunedau glofaol, nifer ohonynt yn ardaloedd Blaenau'r Cymoedd? Y rheswm yw ymgais fwriadol gan eich Llywodraeth chi i dynnu enwau pobl oddi ar restr y bobl ddi-waith a galw'r rheini'n bobl â salwch hirdymor. Chi a greodd y broblem, a ni sy'n ei datrys.

Menter Busnes Business Enterprise

Q2 Mark Isherwood: Will the Minister make a statement on business enterprise in Wales? OAQ0591(EDT)

C2 Mark Isherwood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fenter busnes yng Nghymru? OAQ0591(EDT)

Andrew Davies: Our strategic framework for economic development, 'Wales: A Vibrant Economy', sets out our vision for realising the full potential of the economy. Its key actions include encouraging the ongoing development of business enterprise and entrepreneurship.

Andrew Davies: Mae ein fframwaith strategol ar gyfer datblygu economaidd, 'Cymru: Economi yn Ffynnu', yn gosod allan ein gweledigaeth ar gyfer gwireddu potensial llawn yr economi. Ymhlith ei gamau gweithredu allweddol mae annog datblygiad parhaus menter busnes ac entrepreneuriaeth.

Mark Isherwood: Last year, the number of VAT registrations in Wales was down. If economic inactivity, to which you just referred, was at the same level as it is in England, 100,000 more people would be in work in Wales. Despite European structural funding, Wales needs to create an additional 2,000 VAT registrations each year just to catch up with the UK average. Meanwhile, public sector productivity has crashed. When will you take real, business-driven action that recognises that the most competitive regions in the UK, across Europe and internationally are those that are most dependent on business enterprise and least dependent on the public sector?

Mark Isherwood: Y llynedd, yr oedd nifer y cofrestrïadau TAW yng Nghymru wedi gostwng. Pe bai anweithgarwch economaidd, fel yr ydych newydd gyfeirio, ar yr un lefel ag yn Lloegr, byddai 100,000 o bobl yn fwy mewn gwaith yng Nghymru. Er gwaethaf cronfeydd strwythurol Ewropeaidd, mae angen i Gymru greu 2,000 o gofrestrïadau TAW ychwanegol bob blwyddyn dim ond i gyrraedd cyfartaledd y DU. Yn y cyfamser, mae cynhyrchiant yn y sector cyhoeddus wedi dirywio. Pryd y byddwch yn cymryd camau gweithredu gwirioneddol sy'n cael eu hybu gan fusnes ac sy'n cydnabod mai'r rhanbarthau mwyaf cystadleuol yn y DU, ar draws Ewrop ac yn rhyngwladol, yw'r rheini sy'n dibynnu fwyaf ar fenter busnes ac yn dibynnu leiaf ar y sector cyhoeddus?

Andrew Davies: You always see the glass as being half empty, Mark. I was at a Cardiff Business School dinner the other night where Lord Stevenson, the chair of HBOS, said that the UK economy is probably now experiencing, and has done for some time, the most favourable economic environment that it has experienced, certainly more so than when your party was in Government. He said that Wales is able to benefit from that. Digby Jones, the director general of the CBI, has also said, on his last couple of visits to

Andrew Davies: Yr ydych bob amser yn besimistaidd, Mark. Yr oeddwn yn bresennol mewn cinio pa nos gan Ysgol Fusnes Caerdydd pan ddywedodd yr Arglwydd Stevenson, cadeirydd HBOS, fod economi'r DU bellach yn debygol o fod yn gweld, ac wedi gweld ers cryn amser, yr amgylchedd economaidd mwyaf ffafriol erioed, ac yn sicr yn fwy ffafriol na phan oedd eich plaid chi mewn grym. Dywedodd fod Cymru'n gallu elwa o hynny. Mae Digby Jones, cyfarwyddwr cyffredinol y CBI, hefyd wedi dweud yn ystod ei ymweliadau

Wales, that he has never seen the Welsh economy in such vibrant, good shape or, indeed, his members so positive about the economy in Wales.

On VAT registrations, there has been a 13 per cent increase on the figure for 1999, when the Assembly was set up, and it is up 14 per cent in north Wales alone according to that indicator. The *Global Entrepreneurship Monitor*, the biggest comparator of a wide range of entrepreneurial activity, has shown that Wales has seen some of the biggest increases in entrepreneurial activity of all the countries covered in that report. Our policies are working and are helping more people to set up their own business.

2.40 p.m.

Alun Ffred Jones: Under priority 1, the provision for promoting entrepreneurship, it was expected that 12,000 new businesses would be created in seven years. As I understand it, that figure currently stands at 8,000. Are you likely to reach the figure that you had hoped?

Andrew Davies: I do not have the information to hand on that. I will look at the issue, and give a written reply to your question.

â Chymru'n ddiweddar nad yw erioed wedi gweld economi Cymru mewn cyflwr crystal ac mor rymus, nac wedi gweld ei aelodau, yn wir, mor gadarnhaol ynglŷn â'r economi yng Nghymru.

O ran cofrestriadau TAW, bu cynnydd o 13 y cant yn y ffigur ar gyfer 1999, pan sefydlwyd y Cynulliad, a chynyddodd 14 y cant yn y gogledd yn unig yn ôl y dangosydd hwnnw. Mae'r *Global Entrepreneurship Monitor*, y cymharydd mwyaf o amrywiaeth eang o weithgarwch entrepreneuriaidd, wedi dangos bod Cymru wedi gweld cynnydd mewn gweithgarwch entrepreneuriaidd gyda'r mwyaf yn yr holl wledydd a gynhwysir yn yr adroddiad hwnnw. Mae ein polisiau'n gweithio ac yn helpu mwy o bobl i sefydlu eu busnes eu hunain.

Alun Ffred Jones: O dan flaenoriaeth 1, y ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo entrepreneuriaeth, disgwyliwyd y byddai 12,000 o fusnesau newydd yn cael eu creu mewn saith mlynedd. Yn ôl yr hyn a ddeallaf fi, 8,000 yw'r ffigur hwnnw ar hyn o bryd. A ydych yn debygol o gyrraedd y ffigur yr oeddech wedi gobeithio'i gyrraedd?

Andrew Davies: Nid yw'r wybodaeth am hynny gennyf wrth law. Edrychaf ar y mater a rhoddaf ateb ysgrifenedig i'ch cwestiwn.

Gwella Cyflwr Cerbydau Trenau Improving the Condition of Railway Rolling Stock

Q3 Kirsty Williams: What action is the Welsh Assembly Government taking to improve the condition of railway rolling stock in Wales? OAQ0554(EDT)

Andrew Davies: I have funded additional rolling stock to alleviate overcrowding on the Cardiff Valley lines, and the Assembly Government has announced that there will be an additional class 158 of rolling stock trains for services in rural Wales. I have also funded the installation of on-train closed circuit television on all Arriva Trains Wales trains.

Kirsty Williams: You will be aware of the growing concern about the reliability of the

C3 Kirsty Williams: Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i wella cyflwr cerbydau trenau yng Nghymru? OAQ0554(EDT)

Andrew Davies: Yr wyf wedi ariannu cerbydau trenau ychwanegol i leddfu trenau gorlawn ar linellau'r Cymoedd a Chaerdydd, ac mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi y bydd dosbarth 158 ychwanegol o gerbydau trenau ar gyfer gwasanaethau yng nghefn gwlad Cymru. Yn ogystal, yr wyf wedi ariannu gosod teledu cylch cyfyng ar bob un o drenau Trenau Arriva Cymru.

Kirsty Williams: Byddwch yn gwybod am y pryder cynyddol ynghylch dibynadwyedd y

pacers trains on the Valleys lines, and the adequacy of the trains running on the Heart of Wales lines. Arriva Trains Wales is working up its plan on how it intends to use the additional rolling stock that has been made available by the budget concession that you had to give to the opposition parties. However, what have you said to Arriva Trains Wales about improving the stock on the Valleys line and the Heart of Wales line?

Andrew Davies: I am always delighted when the opposition parties agree with my priorities, such as that of improving the railway services in Wales. The 15-year franchise gives us a long-term opportunity to work with Arriva Trains Wales to improve rail services. There are issues, given the leasing arrangements that Arriva Trains Wales had on some of the rolling stock, but, as ever, we will work with it to see that everything possible is done to improve the rolling stock, which will have a major impact on the reliability and quality of the services that it provides.

Christine Chapman: We all welcome the fact that the Valleys lines are now much improved, and there has been a 50 per cent increase in passenger travel along this route. However, like other Members, I am currently disappointed with Arriva Trains Wales, and I have heard a number of concerns from constituents about the condition of the trains in that they can be cold and dirty, they are often late, and there are often severe disruptions to the line. While the improvements are welcome, could you give assurances that you will work with Arriva Trains Wales to ensure that we improve the services yet again?

Andrew Davies: Very much so. Given the current franchise arrangements, the Assembly Government has no direct control or management responsibility for the franchise. However, with the passing of the Railways Act 2005, as of April this year, we will be partly responsible for the delivery of the franchise. I made it clear to representatives of Arriva Trains that I wish to work closely with them, and I will meet with them far more frequently than I have done in the past. We

trenau *pacers* ar linellau'r Cymoedd, a digonolrwydd y trenau sy'n rhedeg ar linellau Calon Cymru. Mae Trenau Arriva Cymru yn gweithio ar ei gynllun am y ffordd y mae'n bwriadu defnyddio'r cerbydau trenau ychwanegol a sicrhawyd gan y consesiwn cyllideb y bu'n rhaid ichi ei roi i'r gwrthbleidiau. Fodd bynnag, beth yr ydych wedi'i ddweud wrth Drenau Arriva Cymru ynghylch gwella'r trenau ar linell y Cymoedd a llinell Calon Cymru?

Andrew Davies: Yr wyf bob amser yn falch iawn pan fydd y gwrthbleidiau'n cytuno â'm blaenoriaethau i, megis gwella'r gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru. Mae'r fasnachfrait 15 mlynedd yn gyfle hirdymor inni weithio gyda Threnau Arriva Cymru i wella gwasanaethau rheilffyrdd. Mae yna broblemau i'w goresgyn, o gofio'r trefniadau prydlesu a oedd gan Drenau Arriva Cymru ar rywfaint o'r cerbydau trenau. Ond fel bob amser, byddwn yn gweithio gydag ef i sicrhau bod popeth posibl yn cael ei wneud i wella'r cerbydau trenau, a bydd hyn yn cael effaith fawr ar ddibynadwyedd ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ganddo.

Christine Chapman: Yr ydym bob un yn croesawu'r ffaith fod llinellau'r Cymoedd bellach lawer yn well, a bu cynnydd o 50 y cant yn nifer y teithwyr ar y llinell hon. Fodd bynnag, fel Aelodau eraill, ar hyn o bryd yr wyf yn siomedig am Drenau Arriva Cymru. Yr wyf wedi clywed nifer o bryderon gan etholwyr am gyflwr y trenau oherwydd gallant fod yn oer ac yn fudr, maent yn aml yn hwyr, ac yn aml mae tarfu difrifol ar y llinell. Er bod y gwelliannau'n cael eu creosawu, a allech roi sicrwydd y byddwch yn gweithio gyda Threnau Arriva Cymru i sicrhau ein bod yn gwella'r gwasanaethau ymhellach?

Andrew Davies: Yn sicr. O ystyried y trefniadau masnachfrait presennol, nid oes gan Lywodraeth y Cynulliad unrhyw reolaeth uniongyrchol na chyfrifoldeb rheoli dros y fasnachfrait. Fodd bynnag, yn sgil pasio Deddf Rheilffyrdd 2005, o fis Ebrill eleni byddwn yn rhannol gyfrifol am ddarparu'r fasnachfrait. Pwysleisiais wrth gynrychiolwyr Trenau Arriva fy mod yn dymuno gweithio'n agos gyda hwy, a byddaf yn cyfarfod â hwy lawer yn amlach nag yn y gorffennol. Mae gennym gyd-

have a joint commitment to improving services. I do not think that we should ignore the fact that there has been a substantial improvement in railway services on the Cynon valley line, for example, through a considerable investment. We have increased the length of station platforms, we have moved from two to four-car trains, and we are increasing the capacity and the frequency of services, but there is still a significant way to go. I will work closely with Arriva Trains Wales to ensure that services are improved.

Janet Davies: The structure of the UK railways industry gives rolling stock companies significant power in the standard of railway services. Do you, personally, agree that the rolling stock should be brought back into public ownership?

Andrew Davies: I am on record as saying that one of the previous Conservative Government's most egregious actions was to privatise and fragment the nationalised rail system. However, we are where we are, and I am looking to improve rail services. Any investment that I, as a Minister, and the Assembly Government will make will be to improve the rail services, where we have a direct responsibility, such as with the Wales and Borders franchise, and also where we do not have direct responsibility, namely the mainline services in north and south Wales.

Leighton Andrews: When you have formal responsibility for this subject, you are likely to hear from me even more regularly. As I raised with you in this morning's Economic Development and Transport Committee, when you next meet with Arriva Trains, I hope that you will take up the wide range of issues that are being brought to all Assembly Members whose constituencies are in the Valleys concerning their performance. The quality of the stock is one of the issues that people are particularly concerned about. Frankly, their trains are seen as glorified buses. That is the way that people feel about them. They feel that they are overcrowded and of poor quality, and insufficient investment is being made. I hope that you will raise those matters with Arriva Trains Wales.

ymrwymiad i wella gwasanaethau. Ni chredaf y dylem anwybyddu'r ffaith fod gwelliannau sylweddol wedi'u gweld mewn gwasanaethau rheilffyrdd ar linell cwm Cynon, er enghraifft, drwy fuddsoddiad sylweddol. Yr ydym wedi ymestyn hyd y plattform mewn gorsafoedd, yr ydym wedi newid o drenau dau gerbyd i drenau pedwar cerbyd, ac yr ydym yn cynyddu maint ac amllder gwasanaethau. Ond mae llawer i'w wneud eto. Byddaf yn gweithio'n agos gyda Threnau Arriva Cymru i sicrhau y bydd gwasanaethau'n gwella.

Janet Davies: Mae strwythur diwydiant rheilffyrdd y DU yn rhoi pŵer sylweddol i gwmnïau cerbydau trenau o ran safon gwasanaethau rheilffyrdd. A ydych chi, yn bersonol, yn cytuno y dylai cerbydau trenau fod mewn perchenogaeth gyhoeddus eto?

Andrew Davies: Yr wyf wedi dweud yn gyhoeddus mai un o gamau gweithredu gwaethaf y Llywodraeth Geidwadol flaenorol oedd preifateiddio'r system reilffordd wladol a'i rhannu. Fodd bynnag, dyna'r sefyllfa sydd ohoni, ac yr wyf yn bwriadu gwella gwasanaethau rheilffyrdd. Diben unrhyw fuddsoddiad y byddaf fi, fel Gweinidog, a Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud fydd gwella'r gwasanaethau rheilffyrdd, lle mae gennym gyfrifoldeb uniongyrchol drostynt, megis gyda masnachfaint Cymru a'r Gororau, a hefyd lle nad oes gennym gyfrifoldeb uniongyrchol drostynt, sef gwasanaethau'r brif linell yn y gogledd a'r de.

Leighton Andrews: Pan fydd gennych gyfrifoldeb ffurfiol dros y pwnc hwn, yr ydych yn debygol o glywed gennyf hyd yn oed yn fwy rheolaidd. Fel y dywedais wrthyh yng nghyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth y bore yma, yn eich cyfarfod nesaf gyda Threnau Arriva gobeithio y byddwch yn trafod yr amrywiaeth eang o faterion sy'n dod i sylw holl Aelodau'r Cynulliad sydd ag etholaethau yn y Cymoedd ynglŷn â'u perfformiad. Ansawdd y cerbydau yw un o'r materion penodol sy'n peri pryder i bobl. A bod yn onest, nid yw eu trenau'n cael eu hystyried yn fawr gwell na bysiau. Dyna sut mae pobl yn teimlo amdanynt. Maent yn teimlo'u bod yn orlawn ac o safon wael, ac nad oes digon o fuddsoddi'n digwydd. Gobeithio y byddwch yn codi'r materion hynny gyda Threnau Arriva Cymru.

Andrew Davies: To be fair to Arriva, it is very determined to improve services. There were problems with regard to the maintenance of the rolling stock. However, I have heard from the unions and from the management of the company that those issues have largely been resolved. Therefore, the ongoing maintenance and reliability of trains should improve. There are issues with regard to the long-term viability and quality of the trains, and wherever we can we are working with Arriva to improve the quality, safety, comfort and cleanliness of the trains and the reliability of the service.

Nick Bourne: I had not realised the commitment of the Minister to the improvements to the rolling stock in mid Wales. He must have been overruled in Cabinet, so I am very glad that we were able to join forces with you to reverse that in the budget discussions to ensure that we take delivery of that rolling stock. When will the rolling stock be coming on stream? Have you had any discussions with Arriva on the consequential improvements in service, such as longer trains on the Aberystwyth to Shrewsbury and Cambrian coast lines, and a fifth train on the Heart of Wales line? Those improvements are of great concern to the people of mid and west Wales.

Andrew Davies: I will write to the Member on that.

Andrew Davies: I fod yn deg ag Arriva, mae'n benderfynol iawn o wella gwasanaethau. Cafwyd problemau gyda chynnal a chadw'r cerbydau. Fodd bynnag, yr wyf wedi clywed gan yr undebau a chan reolwyr y cwmni fod y materion hynny wedi'u datrys i raddau helaeth. Felly, dylai'r gwaith cynnal a chadw parhaus a dibynadwyedd y trenau wella. Mae yna faterion ynglŷn ag ymarferoldeb ac ansawdd y trenau dros gyfnod hir, a lle bynnag y gallwn yr ydym yn gweithio gydag Arriva i wella ansawdd, diogelwch, cyfforddusrwydd a glanweithdra'r trenau a dibynadwyedd y gwasanaeth.

Nick Bourne: Nid oeddwn wedi sylweddoli bod y Gweinidog wedi ymrwymo i wella'r cerbydau yn y canolbarth. Rhaid bod y Cabinet wedi dyfarnu yn ei erbyn, felly, yr wyf yn falch iawn ein bod wedi gallu ymuno â chi i wrthdroi hynny yn y trafodaethau ar y gyllideb, er mwyn sicrhau bod y cerbydau hynny'n cael eu darparu. Pryd caiff y cerbydau eu cyflwyno? A ydych wedi cael unrhyw drafodaethau gydag Arriva ynglŷn â'r gwelliannau yn y gwasanaeth a fydd yn dilyn, fel trenau hirach ar y llinell o Aberystwyth i Amwythig a llinell Arfordir Cambria, a phumed trêrn ar linell Calon Cymru? Mae'r gwelliannau hynny'n destun pryder mawr i bobl y canolbarth a'r gorllewin.

Andrew Davies: Ysgrifennaf at yr Aelod am hynny.

Swyddi Gweithgynhyrchu (Tor-faen) Manufacturing Jobs (Torfaen)

Q4 Lynne Neagle: Will the Minister make a statement on Welsh Assembly Government support for manufacturing jobs in Torfaen? OAQ0583(EDT)

Andrew Davies: The Assembly Government provides an extensive range of support to assist Welsh manufacturers in all parts of Wales. Since the Assembly's inception in 1999, more than 83 manufacturing projects in Torfaen have been supported via regional selective assistance and Assembly investment grants, which account for two thirds of all grant offers in Torfaen.

Lynne Neagle: As you know, this has been a

C4 Lynne Neagle: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i swyddi gweithgynhyrchu yn Nhor-faen? OAQ0583(EDT)

Andrew Davies: Mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu amrywiaeth eang o gymorth i helpu gweithgynhyrchwyr Cymreig ym mhob rhan o Gymru. Ers sefydlu'r Cynulliad yn 1999, mae dros 83 o brosiectau gweithgynhyrchu yn Nhor-faen wedi cael cymorth rhanbarthol dewisol a grantiau buddsoddi'r Cynulliad, sy'n cyfrif am ddwy ran o dair o'r holl gynigion grant yn Nhor-faen.

Lynne Neagle: Fel y gwyddoch, mae hwn wedi

challenging period for manufacture in Torfaen, with the proposed 156 job losses at TRW, and a further 250 job losses at Trico. As manufacturing remains of fundamental importance to communities in my constituency, I welcome your swift response to the situations at Trico and TRW. As competition in the manufacturing sector from eastern Europe and China is likely to become more, not less, fierce, could the Minister outline the way in which the 'WAVE' strategy will develop Wales's response to the global economic conditions, and how it will protect and develop manufacturing opportunities in Torfaen?

Andrew Davies: Manufacturing is one of the most important sectors in the Welsh economy. Relatively, it contributes greater employment and GDP/GVA to the Welsh economy than any other part of the United Kingdom. The loss of manufacturing jobs has been lower or slower than in any other part of the United Kingdom. Manufacturing is changing from high-volume, low-value-added production to high-value-added, low-volume production. We want to work with the sector to ensure that companies in the industrial sectors have the skills and support to help them move into that high-value-added activity. To give an example, Sony closed its television manufacturing plant at Bridgend last year. As we know, televisions were retailing for hundreds of pounds. In future, it will be producing high-definition television and studio film cameras that will retail for £25,000 each. That is an example of the type of transition that we need and must make. We have been doing everything that we can to help industry and industrial sectors to make that transition.

William Graham: Minister, you will know that Torfaen lost the highest number of jobs in Wales during the term of the first Assembly. There are further difficulties with Trico and TRW. Will 'Wales: A Better Country' and supporting strategies address the alarming decline in manufacturing in Torfaen?

Andrew Davies: As I said in my response to

bod yn gyfnod anodd i'r diwydiant gweithgynhyrchu yn Nhor-faen, gyda phosibilrwydd colli 156 o swyddi yn TRW, a 250 o golledion eraill yn Trico. Gan fod y diwydiant gweithgynhyrchu'n parhau'n sylfaenol bwysig i gymunedau yn fy etholaeth, yr wyf yn croesawu eich ymateb cyflym i'r sefyllfaoedd yn Trico a TRW. Gan fod y gystadleuaeth yn y sector gweithgynhyrchu o ddwyrain Ewrop a Tsieina yn debygol o ddod yn fwy ffyrnig, nid yn llai ffyrnig, a allai'r Gweinidog amlinellu'r ffordd y bydd y strategaeth 'WAVE' yn datblygu ymateb Cymru i'r amodau economaidd byd-eang, a sut y bydd yn diogelu ac yn datblygu cyfleoedd gweithgynhyrchu yn Nhor-faen?

Andrew Davies: Gweithgynhyrchu yw un o'r sectorau pwysicaf yn economi Cymru. Yn gymharol, mae'n cyfrannu mwy o gyflogaeth a CMC/GYC i economi Cymru nag yn unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig. Mae colli swyddi gweithgynhyrchu wedi bod yn is neu'n arafach nag mewn unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig. Mae'r diwydiant gweithgynhyrchu yn newid o ddiwydiant cynhyrchiol sy'n ychwanegu gwerth bach i ddiwydiant llai cynhyrchiol sy'n ychwanegu gwerth sylweddol. Yr ydym am weithio gyda'r sector i sicrhau bod cwmnïau yn y sectorau diwydiannol yn meddu ar y sgiliau a'r cymorth i'w helpu i symud i'r gweithgaredd hwnnw sy'n ychwanegu gwerth sylweddol. Er enghraifft, penderfynodd Sony gau ei waith gweithgynhyrchu setiau teledu ym Mhen-y-bont ar Ogwr y llynedd. Fel y gwyddom, yr oedd setiau teledu yn gwerthu am gannoedd o bunnoedd. Yn y dyfodol, bydd yn cynhyrchu camerâu teledu a stiwdios ffilm a fydd yn gwerthu am £25,000 yr un. Dyna enghraifft o'r math o newid y mae ei angen arnom ac y mae'n rhaid i ni ei wneud. Yr ydym wedi gwneud popeth a allwn i helpu diwydiant a sectorau diwydiannol i gyflawni'r newid hwnnw.

William Graham: Weinidog, fel y gwyddoch, Tor-faen a gollodd y nifer mwyaf o swyddi yng Nghymru yn ystod tymor cyntaf y Cynulliad. Mae anawsterau eraill gyda Trico a TRW. A fydd 'Cymru: Gwlad Well' a strategaethau ategol yn mynd i'r afael â'r dirywiad brawychus yn y diwydiant gweithgynhyrchu yn Nhor-faen?

Andrew Davies: Fel y dywedais yn fy ymateb i

Lynne, regrettably, there have been job losses in manufacturing, which have affected some parts of Wales more adversely than others. Nevertheless, the rates of loss have been lower and the number of jobs lost is fewer than in any other part of the United Kingdom. For example, the loss of jobs in manufacturing in Scotland has been greater than in Wales. Where individual companies or industrial sectors are faced with huge challenges globally, we will work with them to get them through the situation as painlessly and smoothly as possible. If we can do that without job losses, obviously we will do so. Helping them to manage that transition is at the very heart of our economic development strategy.

Lynne, gwaetha'r modd collwyd swyddi yn y diwydiant gweithgynhyrchu sydd wedi cael effaith waeth ar rai rhannau o Gymru nag ar eraill. Er hynny, mae cyflymdra'r colledion wedi bod yn arafach a nifer y swyddi a gollwyd wedi bod yn llai nag mewn unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig. Er enghraifft, mae mwy o swyddi gweithgynhyrchu wedi'u colli yn yr Alban nag yng Nghymru. Pan fydd cwmnïau unigol neu sectorau diwydiannol yn wynebu heriau enfawr byd-eang, byddwn yn gweithio gyda hwy i'w helpu i ddod drwy'r sefyllfa mor ddiraffferth ac mor llyfn â phosibl. Os gallwn wneud hynny heb golli swyddi, byddwn yn amlwg yn gwneud hynny. Mae eu helpu i reoli'r trawsnewid hwnnw wrth wraidd ein strategaeth datblygu economaidd.

2.50 p.m.

Datblygiad Economaidd Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr The Economic Development of Carmarthen East and Dinefwr

C5 Rhodri Glyn Thomas: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygiad economaidd Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr? OAQ0609(EDT)

Q5 Rhodri Glyn Thomas: Will the Minister make a statement on economic development in Carmarthen East and Dinefwr? OAQ0609(EDT)

Andrew Davies: The Welsh Assembly Government's commitment to creating better jobs and helping more people into jobs has seen over £7.5 million invested in Carmarthen East and Dinefwr since 1999, through regional selective assistance and the Assembly investment grant scheme, creating or safeguarding almost 1,000 jobs. Unemployment in the area has fallen from 6.5 per cent in 2001 to 5.2 per cent in 2004.

Andrew Davies: Mae ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i greu gwell swyddi a helpu mwy o bobl i gael swyddi wedi golygu buddsoddi dros £7.5 miliwn yn Nwyrain Caerfyrddin a Dinefwr er 1999, drwy gymorth rhanbarthol dewisol a chynllun grantiau buddsoddi'r Cynulliad, gan greu neu ddiogelu bron 1,000 o swyddi. Mae diweithdra yn yr ardal wedi gostwng o 6.5 y cant yn 2001 i 5.2 y cant yn 2004.

Rhodri Glyn Thomas: Fel mae'r Gweinidog wedi nodi, mae rhai negeseuon o newyddion da yn natblygiad economaidd Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, ac mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymroi i gynllun mentrus i ddatblygu ac adfywio'r economi yn sir Gaerfyrddin. A wnewch dderbyn bod sir Gaerfyrddin, fel siroedd gwledig eraill, yn wynebu problemau mawr o ran cynnal a chadw ei heolydd, yn enwedig yng nghefn gwlad, a'i bontydd, rai ohonynt yn hen ac angen eu hadnewyddu, a'u lledaenu weithiau, a bod hynny yn gallu bod yn rhwystr i ddatblygu economaidd? Er nad oes cyfrifoldeb uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru am yr heolydd a phontydd hyn, a

Rhodri Glyn Thomas: As the Minister has stated, there are some good news stories in Carmarthen East and Dinefwr's economic development, and Carmarthenshire County Council has undertaken an innovative plan to regenerate the economy in Carmarthenshire. Do you accept that Carmarthenshire, like other rural authorities, is facing problems in terms of maintaining its roads, particularly in rural areas, and its bridges, some of which are old and need restoring, and widening sometimes, and that that can be a barrier to economic development? Although the Government of Wales does not have direct responsibility for these roads and bridges, will you consider having talks with the Welsh Local Government Association and

wnewch ystyried cynnal trafodaethau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chynghorau sir megis cyngor sir Gaerfyrddin i weld beth y gellid ei wneud i fynd i'r afael â'r broblem hon, efallai drwy chwilio am gyllid i sicrhau bod y gwaith pwysig hwn yn cael ei wneud?

Andrew Davies: I have a good relationship with Carmarthenshire council and with the Welsh Local Government Association on transport issues. I have regular meetings with Councillor Harry Andrews, the WLGA spokesperson on transport, and we have discussed this issue. We work closely on trunk roads. We have just restructured the trunk road agencies in Wales and reduced them from eight to three agencies. The south Wales trunk road agency will be managed by Neath Port Talbot County Borough Council, and that will include the management of local schools. We discuss these issues and the financing of road improvements regularly, as well as the issue of regular road maintenance.

Lisa Francis: Will you join me in congratulating the supermarket Morrisons, which has sourced fresh beef and lamb from at least 10 farms in the Carmarthen area, aiding the local economy? What future work do you anticipate undertaking to encourage other leading supermarkets in Wales to adopt similar policies of local sourcing?

Andrew Davies: This is not my direct responsibility; my colleague, Carwyn Jones, the Minister for Environment, Planning and Countryside, takes the lead on agri-food policies, but the whole thrust of our policies is to increase local supply. Whether in the private sector through supermarkets, or through public sector procurement policies, we are encouraging more Welsh suppliers to get a larger amount of business. It helps the local economy, but it also has environmental benefits in terms of cutting down on road traffic and lorry movements.

county councils, such as Carmarthenshire County Council, to see what can be done to get to grips with this problem, perhaps by looking for funding to ensure that this important work is done?

Andrew Davies: Mae gennyf berthynas dda gyda Chyngor Sir Caerfyrddin a chyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar faterion trafnidiaeth. Byddaf yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Cynghorydd Harry Andrews, llefarydd CLILC dros drafnidiaeth, ac yr ydym wedi trafod y mater hwn. Yr ydym yn gweithio'n agos ar gefnffyrdd. Yr ydym wedi ailstrwythuro'r asiantaethau cefnffyrdd yng Nghymru yn ddiweddar ac wedi eu lleihau o wyth asiantaeth i dair. Caiff asiantaeth cefnffyrdd de Cymru ei rheoli gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, a bydd hynny'n cynnwys rheoli ysgolion lleol. Byddwn yn trafod y materion hyn yn rheolaidd a mater ariannu gwelliannau ffyrdd, ynghyd â mater cynnal a chadw ffyrdd yn rheolaidd.

Lisa Francis: A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch yr archfarchnad Morrisons, sy'n prynu cig eidion a chig oen ffres gan o leiaf 10 fferm yn ardal Caerfyrddin, gan gynorthwyo'r economi leol? Pa waith yr ydych yn bwriadu ei wneud yn y dyfodol i annog archfarchnadoedd blaenllaw eraill yng Nghymru i fabwysiadu polisiau tebyg wrth brynu cynnyrch yn lleol?

Andrew Davies: Nid wyf yn uniongyrchol gyfrifol am hyn; fy nghyd-Aelod, Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, sy'n gyfrifol am bolisiau bwyd-amaeth, ond prif nod ein polisiau yw cynyddu cyflenwadau lleol. Boed yn y sector preifat drwy archfarchnadoedd, neu drwy bolisiau caffael y sector cyhoeddus, yr ydym yn annog mwy o gyflenwyr yng Nghymru i sicrhau mwy o fusnes. Mae'n helpu'r economi leol, ond mae iddo fuddiannau amgylcheddol hefyd wrth leihau traffig ar y ffyrdd a siwrneiau lorïau.

Dirywiad y Diwydiant Gweithgynhyrchu The Decline in Manufacturing

Q6 Peter Black: What action is the Welsh Assembly Government taking in response to the decline in manufacturing in Wales? OAQ0577(EDT)

Andrew Davies: The Assembly Government is providing an extensive range of support to assist Welsh manufacturers to face increasingly global pressures. Within the Welsh economy there are many successful manufacturing companies.

Peter Black: One of the initiatives that I understand the Assembly Government is undertaking in this regard is to try to create a knowledge-based economy. The new knowledge bank for business is one of the tools to do that. However, it appears that it is narrowly focused and only supports a small number of companies, and it is unclear what criteria have been applied in picking those companies. Will you look at those criteria to see whether they can be widened to enable more companies and businesses to access its services?

Andrew Davies: I think that there is a misunderstanding here. When I launched the knowledge bank for business last year, it was in a pilot form. There was an initial take-up of 50 companies, which had been identified either through their own efforts in coming forward or through being suggested by a range of business intermediaries in the public or private sectors. We identified an initial pilot programme for 50 companies. I am confident that that number will grow substantially as the knowledge bank grows, and that the number of companies will be in the hundreds over the coming years. As a result, the whole thrust of the knowledge bank will be strengthened. I will make the criteria by which companies are selected more widely available. I promised the committee this morning that I would make the information available to the committee clerk, but I will circulate it more widely to all Members. Basically, the criteria identify companies that share our ambition to grow the Welsh economy through growing their own business, and that have the potential to make a significant contribution, not only to

C6 Peter Black: Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i ymateb i'r dirywiad yn y diwydiant gweithgynhyrchu yng Nghymru? OAQ0577(EDT)

Andrew Davies: Mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu amrywiaeth eang o gymorth i gynorthwyo gweithgynhyrchwyr yng Nghymru i wynebu pwysau cynyddol byd-eang. Mae yna nifer o gwmnïau gweithgynhyrchu llwyddiannus yn yr economi yng Nghymru.

Peter Black: Deallaf mai un o'r mentrau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymgymryd â hi yn y cyswllt hwn yw ceisio creu economi sy'n seiliedig ar wybodaeth. Mae'r banc gwybodaeth ar gyfer busnesau yn un ffordd i wneud hynny. Fodd bynnag, ymddengys fod ei gwmpas yn gul a'i fod yn cynnal nifer fach o gwmnïau'n unig. Ac nid yw'n eglur pa feini prawf a ddefnyddiwyd wrth ddewis y cwmnïau hynny. A wnewch chi edrych ar y meini prawf hynny i weld a ellir eu hystreyn i alluogi mwy o gwmnïau a busnesau i ddefnyddio'i wasanaethau?

Andrew Davies: Credaf fod yma gamddealltwriaeth. Pan lansiais y banc gwybodaeth ar gyfer busnesau y llynedd, yr oedd ar ffurf peilot. Yn wreiddiol, cofrestrwyd 50 o gwmnïau, a oedd wedi eu nodi naill ai drwy eu hymdrechion eu hunain i gofrestru neu drwy awgrymiadau gan amrywiaeth o gyfryngwyr busnes yn y sectorau cyhoeddus neu breifat. Nodwyd rhaglen beilot gychwynnol gennym ar gyfer 50 o gwmnïau. Yr wyf yn hyderus y bydd y nifer hwnnw'n cynyddu'n sylweddol wrth i'r banc gwybodaeth dyfu, ac y bydd cannoedd o gwmnïau'n cofrestru yn y blynyddoedd i ddod. O ganlyniad, caiff holl hanfod y banc gwybodaeth ei atgyfnerthu. Byddaf yn sicrhau bod y meini prawf a ddefnyddir i ddewis cwmnïau ar gael yn fwy eang. Addewais i'r pwyllgor bore heddiw y byddwn yn darparu'r wybodaeth i glerc y pwyllgor, ond byddaf yn ei dosbarthu'n ehangach i bob Aelod. Yn eu hanfod, mae'r meini prawf yn nodi cwmnïau sydd â'r un uchelgais â ninnau i ddatblygu'r economi yng Nghymru drwy ddatblygu eu busnesau eu hunain, ac sydd â'r potensial i wneud cyfraniad sylweddol, nid yn unig i greu cyfoeth iddynt eu

their own wealth generation, but to wealth generation in Wales. I will circulate the criteria more widely.

John Griffiths: The steel industry is an important part of the manufacturing industry in Wales; it is certainly important in my constituency of Newport East. Will you continue to do all that you can to ensure that communications between the Welsh Assembly Government and the steel industry are as effective as possible, in order to deal with steel industry issues as and when they arise?

Andrew Davies: I am more than happy to give that commitment. The First Minister and I meet Corus regularly, and the First Minister met Alpha Steel last week. I visited Celsa, which occupies the former Allied Steel and Wire steel plant in Cardiff. We also meet the Steel Works Community Federal Credit Union regularly. Therefore, we have a good relationship with the industry. We see it as making a major contribution to the Welsh economy, and we think that we can do a lot by working together. I think that the industry recognises the Government's commitment to its future prosperity.

hunain, ond i gynhyrchu cyfoeth yng Nghymru. Byddaf yn dosbarthu'r meini prawf yn fwy eang.

John Griffiths: Mae'r diwydiant dur yn rhan bwysig o'r diwydiant gweithgynhyrchu yng Nghymru; yn bendant, mae'n bwysig yn fy etholaeth i yn Nwyrain Casnewydd. A wnewch chi barhau i wneud popeth a allwch i sicrhau bod cysylltiadau rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r diwydiant dur mor effeithiol â phosibl, er mwyn ymdrin â materion yn ymwneud â'r diwydiant dur pan fyddant yn codi?

Andrew Davies: Yr wyf yn fwy na pharod i wneud yr ymrwymiad hwnnw. Bydd y Prif Weinidog a minnau yn cyfarfod â Corus yn rheolaidd, a bu'r Prif Weinidog yn cyfarfod ag Alpha Steel yr wythnos diwethaf. Yr wyf wedi ymweld â Celsa, sydd ar safle hen waith dur Allied Steel and Wire yng Nghaerdydd. Byddwn hefyd yn cyfarfod ag Undeb Credyd Ffederal y Gymuned Gweithfeydd Dur yn rheolaidd. Felly, mae gennym berthynas dda â'r diwydiant. Ystyriwn ei fod yn cyfrannu'n helaeth i economi Cymru, a chredwn y gallwn wneud llawer drwy gydweithio. Credaf fod y diwydiant yn cydnabod ymrwymiad y Llywodraeth i'w ffyniant yn y dyfodol.

Dyfodol Arian Amcan 1 The Future of Objective 1 Funding

Q7 Jeff Cuthbert: What discussions has the Minister had with UK Government Ministers regarding the future of Objective 1 funding? OAQ0553(EDT)

Andrew Davies: The First Minister and I have been fully engaged in discussions with UK Government Ministers about the future of the European structural fund programmes. The outcome of the EU council's discussions is excellent news for Wales, in particular the fact that west Wales and the Valleys will receive full convergence funding, formerly Objective 1 funding, over the period 2007 to 2013.

Jeff Cuthbert: I also welcome the announcement, and look forward to the benefits that it will bring. Do you agree that over the 12 months that we have in which to plan our activities and the way in which we

C7 Jeff Cuthbert: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ynglŷn â dyfodol arian Amcan 1? OAQ0553(EDT)

Andrew Davies: Mae'r Prif Weinidog a minnau wedi cymryd rhan lawn mewn trafodaethau gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ynglŷn â dyfodol rhaglenni cronfeydd strwythurol Ewropeaidd. Mae canlyniad trafodaethau cyngor yr UE yn newyddion ardderchog i Gymru, yn enwedig y ffaith y bydd y gorllewin a'r Cymoedd yn cael arian cydgyfeirio llawn, sef arian Amcan 1 gynt, rhwng 2007 a 2013.

Jeff Cuthbert: Yr wyf fi hefyd yn croesawu'r cyhoeddiad, ac edrychaf ymlaen at y buddiannau a ddaw yn sgil hynny. A gytunwch, yn ystod y 12 mis sydd gennym i gynllunio ein gweithgareddau a'r ffordd y byddwn yn

are going to use that money, it is crucial that we take account of the strategic objectives built within the 'Wales: A Vibrant Economy' programme in order to consider issues such as the skills agenda and town-centre redevelopment for the most deprived areas, particularly west Wales and the Valleys, which desperately need to attract jobs, so that industries are attracted to those areas and stay there?

Andrew Davies: I can give that commitment. The decision on the EU budget was excellent news for Wales. We will continue until 2013 to receive virtually another round of what was Objective 1 funding, and we are likely to benefit from transitional funding thereafter for another six years. That is a huge achievement for Wales, and the Prime Minister must be congratulated on achieving a result on the EU budget.

We are in a much better position in terms of the next round of European funding than we were in terms of the previous round in 1999. The single programming document was being negotiated when this Assembly was being established. We had no policy programmes in place then; we do now. We have 'A Winning Wales' and its successor 'Wales: A Vibrant Economy', and we have the skills employment action plan, the Wales spatial plan and a range of other policy plans in place. We have a substantial foundation in policy terms, and lessons have been learned from the current round. I am delighted to tell Members today, as I announced in committee this morning, that, yet again, we have achieved the N+2 decommitment target, which was reached just before Christmas. We have a good record to build on, and the skills agenda is crucial. I will be working closely with my ministerial colleagues on that. I gave a commitment this morning in committee to bring the initial draft of the next single programming document to committee. I am sure that all Members would be interested in contributing towards that.

3.00 p.m.

Ieuan Wyn Jones: While we are pleased that Wales has secured another round of Objective 1 funding, we must remember that that is because of your failure to push up

defnyddio'r arian hwnnw, ei bod yn hanfodol inni ystyried yr amcanion strategol sydd wedi'u hymgorffori yn y rhaglen 'Cymru: Economi yn Ffyfnu' er mwyn ystyried materion fel yr agenda sgiliau ac ailddatblygu canol trefi ar gyfer yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, yn enwedig y gorllewin a'r Cymoedd, lle mae angen dybryd i ddenu swyddi, er mwyn i ddiwydiannau gael eu denu i'r ardaloedd hynny ac aros yno?

Andrew Davies: Gallaf roi'r ymrwymiad hwnnw. Roedd y penderfyniad ar gyllideb yr UE yn newyddion ardderchog i Gymru. Byddwn yn parhau tan 2013 i gael bron â bod cylch arall o'r hyn a oedd yn arian Amcan 1, ac yr ydym yn debygol o elwa o arian trosiannol wedi hynny am chwe blynedd arall. Mae hynny'n llwyddiant enfawr i Gymru, a rhaid llongyfarch Prif Weinidog y Deyrnas Unedig am gael canlyniad ar gyllideb yr UE.

Yr ydym mewn sefyllfa well o lawer o ran y cylch nesaf o arian Ewropeaidd nag yr oeddem o ran y cylch blaenorol yn 1999. Yr oedd y ddogfen raglennu sengl yn cael ei thrafod pan oedd y Cynulliad hwn yn cael ei sefydlu. Nid oedd gennym unrhyw raglenni polisi ar waith yr adeg honno; mae gennym raglenni ar waith bellach. Mae gennym 'Cymru'n Ennill' a'i olynydd 'Cymru: Economi sy'n Ffyfnu', ac mae gennym gynllun gweithredu sgiliau a chyflogaeth, cynllun gofodol Cymru ac amrywiaeth o gynlluniau polisi eraill ar waith. Mae gennym sylfaen sylweddol o ran polisiâu, ac mae gwersi wedi'u dysgu o'r cylch cyfredol. Yr wyf yn falch iawn cael dweud wrth yr Aelodau heddiw, fel y cyhoeddais yn y pwyllgor y bore yma, ein bod, unwaith eto, wedi cyrraedd y targed dadneilltuo N+2 ychydig cyn y Nadolig. Mae gennym record dda i adeiladu arni, ac mae'r agenda sgiliau yn hollbwysig. Byddaf yn gweithio'n agos ar hynny gyda fy nghyd-Weinidogion. Rhoddais ymrwymiad i'r pwyllgor bore heddiw i gyflwyno fersiwn drafft cyntaf y ddogfen raglennu sengl nesaf. Yr wyf yn siŵr y byddai pob Aelod yn dymuno cyfrannu at hynny.

Ieuan Wyn Jones: Er ein bod yn falch fod Cymru wedi sicrhau cylch pellach o arian Amcan 1, rhaid inni gofio mai'r rheswm am hynny yw eich methiant i gynyddu CMC.

GDP. It may be painful for you, Minister, and other Members, to be reminded of Objective 1 and Alun Michael, but at least he made a bid to the Treasury when he was First Minister for the match funding component of European funding. Can you tell me when you expect to make such a bid to the Treasury?

Andrew Davies: We will not have to. Your Plaid Cymru colleagues on the Economic Development and Transport Committee may not have briefed you, but, as I reported to committee this morning, the Chancellor of Exchequer has agreed to treat EU funding as a direct receipt to the Welsh Assembly Government's budget. Therefore, there will be no need to negotiate a Barnett-plus arrangement for public expenditure cover.

No part of the United Kingdom with Objective 1 status is currently provided with match funding by the Treasury. That has always been the case because, in fact, match funding is the responsibility of any project sponsor. As I reported to committee this morning, in the programmes to date, 37 per cent of the match funding of all the projects has been provided by the private sector. So, we must not confuse public expenditure cover and match funding.

Ieuan Wyn Jones: Let me just remind you of what Alun Michael did. He wrote a letter on behalf of the Welsh Assembly Government, in 2000, stating that he wanted the Treasury to provide match funding for Objective 1. You know that he did that and that he was turned down by the Treasury, but you are not even putting up a fight on behalf of the people of Wales. You are now accepting that all public sector match funding must come out of health, education, your budget and all other budgets. That is already the case. Now, your Government has had to look for Objective 1 match funding from the Assembly block. That is the case, so why will you not put up a fight for match funding for the next round? At least Alun Michael put up a fight. You are not even going to put up a fight, are you?

Andrew Davies: Once again, you have demonstrated your lack of understanding of the process. Because of the financial

Hwyrach ei bod yn boenus i chi, Weinidog, ac Aelodau eraill, gael eich atgoffa o Amcan 1 ac Alun Michael. Ond o leiaf gwnaeth ef gais i'r Trysorlys, pan oedd yn Brif Weinidog, am yr elfen arian cyfatebol yng nghyllid Ewrop. A allwch ddweud wrthyf pryd yr ydych chi yn disgwyl cyflwyno cais felly i'r Trysorlys?

Andrew Davies: Ni fydd rhaid inni wneud hynny. Efallai nad yw eich cyd-Aelodau ym Mhlaid Cymru sy'n aelodau o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth wedi rhoi gwybod i chi, ond fel y dywedais wrth y pwyllgor y bore yma, mae Canghellor y Trysorlys wedi cytuno i drin arian yr Undeb Ewropeaidd fel derbyniad uniongyrchol i gyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru. Felly, ni fydd angen trafod trefniant Barnett-a-mwy ar gyfer sicrwydd gwariant cyhoeddus.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig sydd â statws Amcan 1 yn cael arian cyfatebol gan y Trysorlys. Dyna fu'r sefyllfa erioed, oherwydd mewn gwirionedd cyfrifoldeb noddwr unrhyw brosiect yw arian cyfatebol. Fel y dywedais wrth y pwyllgor y bore yma, yn y rhaglenni hyd yn hyn, darparwyd 37 y cant o arian cyfatebol yr holl brosiectau gan y sector preifat. Felly, rhaid inni beidio â drysu rhwng sicrwydd gwariant cyhoeddus ac arian cyfatebol.

Ieuan Wyn Jones: Gadewch imi eich atgoffa o'r hyn a wnaeth Alun Michael. Ysgrifennodd lythyr ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn 2000, yn dweud ei fod am i'r Trysorlys roi arian cyfatebol ar gyfer Amcan 1. Gwyddoch iddo wneud hynny a bod y Trysorlys wedi ei wrthod, ond nid ydych hyd yn oed yn ceisio brwydro dros bobl Cymru. Yr ydych bellach yn derbyn bod yn rhaid i holl arian cyfatebol y sector cyhoeddus ddod o gyllidebau iechyd, addysg, eich cyllideb chi a phob cyllideb arall. Dyna'r sefyllfa eisoes. Yn awr, mae eich Llywodraeth wedi gorfod chwilio am arian cyfatebol Amcan 1 o floc y Cynulliad. Dyna'r sefyllfa. Felly, pam na cheisiwch frwydro i sicrhau arian cyfatebol ar gyfer y cylch nesaf? O leiaf, ceisiodd Alun Michael wneud hynny, ond nid ydych chi hyd yn oed am gynnig, ydych chi?

Andrew Davies: Unwaith eto, yr ydych wedi dangos nad ydych yn deall y broses. Oherwydd y trefniadau ariannol o dan gylch blaenorol y

arrangements under the previous structural fund round, we negotiated a Barnett-plus arrangement with the Chancellor. Record amounts of public expenditure have come into Wales, which have enabled the current round to be a success. Because of our negotiations with the Chancellor, the next round of European funding will be regarded as a direct receipt to the Assembly's budget, so there will be no need for a Barnett-plus negotiation or arrangement with the Chancellor— [*Interruption.*]

I will reiterate the point. No part of the UK which has Objective 1 or European structural fund status is allocated additional resources by the Treasury for match funding.

Ieuan Wyn Jones: You will not get away with saying that I do not understand the issues—I understand the issues perfectly well. You are trying to hide behind obfuscation, because the reality is that Alun Michael made the case not for Barnett plus, which was eventually received, but for match funding. He knew perfectly well that even if you had Barnett-plus, all match funding that would have to be provided from public funds in Wales would have to come out of the Assembly block.

Andrew Davies: No.

Ieuan Wyn Jones: Yes, of course it would. That is the only way in which you can provide match funding. It has to come out of the block, namely health, education and all the other— [*Interruption.*]

The Presiding Officer: Order. I will call the Minister to reply when the leader of the opposition has finished his question, which will be soon.

Ieuan Wyn Jones: I want the Minister to re-examine the correspondence between Alun Michael and the Treasury and he will find that I am right and that he is wrong.

Andrew Davies: You clearly do not understand, Ieuan, that, for any European project, match funding is the responsibility of the project sponsor. Thirty seven per cent of the match funding under the current programme is provided by the private sector.

gronfa strwythurol, cytunwyd ar drefniant Barnett-a-mwy gyda'r Canghellor. Mae'r symiau gwariant cyhoeddus mwyaf erioed wedi dod i Gymru, sydd wedi sicrhau llwyddiant y cylch presennol. Oherwydd ein trafodaethau gyda'r Canghellor, caiff y cylch nesaf o arian Ewropeaidd ei ystyried fel derbyniad uniongyrchol i gyllideb y Cynulliad. Felly, ni fydd angen cael trafodaethau ynghylch Barnett-a-mwy na chytuno ar drefniant gyda'r Canghellor— [*Torri ar draws.*]

Ailadroddaf y pwynt. Ni chaiff unrhyw ran o'r DU, sydd â statws Amcan 1 neu statws cronfa strwythurol Ewropeaidd, adnoddau ychwanegol gan y Trysorlys ar gyfer arian cyfatebol.

Ieuan Wyn Jones: Ni chewch ddweud nad wyf yn deall y materion—yr wyf yn eu deall yn iawn. Yr ydych yn ceisio cuddio y tu ôl i gwmwl, oherwydd y gwirionedd yw mai pledio achos arian cyfatebol a wnaeth Alun Michael, ac nid Barnett a mwy, sef yr hyn a gafwyd yn y pen draw. Yr oedd yn gwybod yn iawn, hyd yn oed petai gennych Barnett-a-mwy, y byddai'n rhaid i'r holl arian cyfatebol y byddai'n rhaid ei ddarparu o gronfeydd cyhoeddus yng Nghymru ddod allan o flocc y Cynulliad.

Andrew Davies: Na.

Ieuan Wyn Jones: Wrth gwrs y byddai'n rhaid iddo. Dyna'r unig ffordd y gallwch ddarparu arian cyfatebol. Rhaid iddo ddod allan o'r bloc, sef iechyd, addysg a'r holl— [*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn. Fe alwaf ar y Gweinidog i ymateb pan fydd arweinydd yr wrthblaid wedi gorffen ei gwestiwn, a bydd hynny'n fuan.

Ieuan Wyn Jones: Yr wyf am i'r Gweinidog ailedrych ar yr ohebiaeth rhwng Alun Michael a'r Trysorlys, ac fe wêl mai fi sy'n yn gywir a'i fod ef yn anghywir.

Andrew Davies: Mae'n amlwg nad ydych yn deall, Ieuan, mai cyfrifoldeb noddwr unrhyw brosiect Ewropeaidd yw arian cyfatebol. Darperir 37 y cant o'r arian cyfatebol o dan y rhaglen bresennol gan y sector preifat. Felly, nid yw hwnnw'n dod o'r sector cyhoeddus, heb sôn

That does not, therefore, come from the public sector, let alone out of our block grant. You clearly do not understand that match funding is a separate issue from public expenditure cover. Match funding is the funding that goes to match an individual award of European project money; it is nothing to do with public expenditure cover. I am sorry that you do not like me saying it, but you do not understand that match funding is the responsibility of the project sponsor and can come from a wide range of sources—from the public sector, the private sector or the voluntary sector.

As I have said, 37 per cent of the total match funding in the current European programme has come from the private sector. When I mentioned this figure to Manfred Beschel, a senior European Commission official, two years ago—in fact the proportion was lower at the time, and was around 30 per cent—he said that, to the best of his knowledge, that was the highest proportion of match funding from the private sector anywhere in the European Union. We have increased that proportion to 37 per cent. Match funding can come from any source: the public, private or voluntary sector. It does not relate to the block grant of the Assembly Government. Assembly Government funding can, of course, be used for match funding; I do not deny that. However, it does not have to come in its entirety from the Assembly Government.

am ddod allan o'n grant bloc. Mae'n amlwg nad ydych yn deall bod arian cyfatebol yn fater ar wahân i sicrwydd gwariant cyhoeddus. Arian cyfatebol yw'r arian a roddir i gyfateb i ddyfarniad unigol o arian prosiect Ewropeaidd; nid yw'n ymwneud o gwbl â sicrwydd gwariant cyhoeddus. Mae'n flin gennyf nad ydych yn hoffi fy nghlywed yn ei ddweud, ond nid ydych yn deall mai cyfrifoldeb noddwr y prosiect yw arian cyfatebol, a gall ddod o amrywiaeth eang o ffynonellau—o'r sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r sector gwirfoddol.

Fel y dywedais, mae 37 y cant o gyfanswm yr arian cyfatebol yn y rhaglen Ewropeaidd bresennol wedi dod o'r sector preifat. Pan soniais wrth Manfred Beschel, un o uwch swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd, am y ffigur hwn ddwy flynedd yn ôl-mewn gwirionedd yr oedd y gyfran yn is yr adeg honno, sef tua 30 y cant-dywedodd, hyd y gwyddai, mai dyna'r gyfran uchaf o arian cyfatebol o'r sector preifat mewn unrhyw ran o'r Undeb Ewropeaidd. Yr ydym wedi cynyddu'r gyfran honno i 37 y cant. Gall arian cyfatebol ddod o unrhyw ffynhonnell: y sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r sector gwirfoddol. Nid yw'n ymwneud â grant bloc Llywodraeth y Cynulliad. Wrth gwrs, gellir defnyddio arian Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer arian cyfatebol; nid wyf yn gwadu hynny. Fodd bynnag, nid oes rhaid i Lywodraeth y Cynulliad ei ddarparu i gyd.

Cwestiynau i'r Trefnydd ar ei Chyfrifoldebau Heblaw am Fusnes Questions to the Business Minister on her Responsibilities other than for Business

Polisiâu ar gyfer Plant Policy for Children

Q1 Christine Gwyther: Will the Minister indicate what action is being taken to ensure that policy for children is co-ordinated across ministerial portfolios? OAQ0153(BM)

The Business Minister (Jane Hutt): I chair the Cabinet sub-committee on children and young people which allows for joint co-ordination by Ministers of all policy affecting children with recent consideration, for example, of the food and fitness action plan

C1 Christine Gwyther: A wnaiff y Gweinidog nodi pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod polisiâu ar gyfer plant yn cael eu cydlynar draws pob portffolio gweinidogol? OAQ0153(BM)

Y Trefnydd (Jane Hutt): Fi yw cadeirydd is-bwyllgor plant a phobl ifanc y Cabinet sy'n caniatáu i Weindogion gydgyssylltu'r holl bolisiâu sy'n effeithio ar blant. Yn ddiweddar, er enghraifft, ystyriwyd cynllun gweithredu ar fwyd a ffitrwydd plant a phobl ifanc.

for children and young people.

Christine Gwyther: Two of the policies that most obviously affect our children are education and health. Will you join me in congratulating Carmarthenshire County Council on its healthy food in schools initiative? It is taking good, fresh, local produce and using it to promote healthy eating within schools across Carmarthenshire, thus ensuring that children get decent food throughout the day and that they get the start in life that they deserve.

Jane Hutt: The work of Carmarthenshire County Council has been recognised, not only in Wales, but further afield. As you said, healthy schools and healthy eating are a cornerstone of its work, and a cornerstone of its community strategy. The council has linked it to procuring local food and reducing fatty and sugary snacks, which is all part of the schools day in terms of children's food consumption.

Laura Anne Jones: Minister, what role does the Children's Commissioner for Wales play in co-ordinating policy across portfolios? What action are you taking to ensure that he is given more legal powers when faced with opposition from public bodies?

Jane Hutt: The post of children's commissioner was set up to be an independent ombudsman for children. His powers are laid down in the Children's Commissioner for Wales Act 2001. It is important that he is independent, and that he is able to comment on the work of the Welsh Assembly Government, as he does through his annual report and through reports, investigations and research.

Christine Gwyther: Dau o'r polisiau sy'n fwyaf amlwg yn effeithio ar ein plant yw addysg ac iechyd. A ymunwch â mi i longyfarch Cyngor Sir Caerfyrddin am ei fenter bwyd iach mewn ysgolion? Mae'n cymryd cynnyrch da, ffres a lleol ac yn ei ddefnyddio i hyrwyddo'r syniad o fwyta'n iach mewn ysgolion ledled y sir, gan sicrhau bod plant yn cael bwyd da drwy gydol y dydd ac yn cael y dechrau mewn bywyd y maent yn ei haeddu.

Jane Hutt: Mae gwaith Cyngor Sir Caerfyrddin wedi'i gydnabod yng Nghymru a thu hwnt hefyd. Fel yr oeddech yn dweud, mae ysgolion iach a bwyta'n iach yn un o gonglfeini ei waith ac un o gonglfeini ei strategaeth gymunedol. Mae'r cyngor wedi'i gysylltu â phrynu bwyd yn lleol a lleihau byrbrydau'n llawn braster a siwgwr, sydd i gyd yn rhan o'r diwrnod ysgol o ran y bwyd y mae plant ysgol yn ei fwyta.

Laura Anne Jones: Weinidog, pa ran sydd gan Gomisiynydd Plant Cymru yn y gwaith o gydgysylltu polisiau ar draws portffolios? Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau ei fod yn cael mwy o bwerau cyfreithiol pan fydd cyrff cyhoeddus yn ei wrthwynebu?

Jane Hutt: Sefydlwyd swydd y comisiynydd plant fel ombwdsmon annibynnol i blant. Mae ei bwerau wedi eu pennu gan Ddeddf Comisiynydd Plant Cymru 2001. Mae'n bwysig iddo fod yn annibynnol ac yn gallu rhoi sylwadau ar waith Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel y mae'n ei wneud drwy ei adroddiad blynyddol a thrwy adroddiadau, ymchwiliadau ac ymchwil.

Gwasanaethau Plant Children's Services

Q2 Val Lloyd: How is the Minister co-ordinating the Welsh Assembly Government's policies for children's services in Wales? OAQ0179(BM)

C6 Rhodri Glyn Thomas: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae'n cydlynu polisiau'r Llywodraeth ar gyfer gwasanaethau plant? OAQ0177(BM)

C2 Val Lloyd: Sut mae'r Gweinidog yn cydlynu polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru? OAQ0179(BM)

Q6 Rhodri Glyn Thomas: Will the Minister make a statement on how she is co-ordinating the Government's policies for children's services? OAQ0177(BM)

Jane Hutt: Responsibilities for children do not fall to any single Minister, and as chair of the Cabinet sub-committee I am able to perform an important co-ordinating role to ensure that policies such as the children's national service framework are joined up and consistent.

3.10 p.m.

Val Lloyd: I agree that a key area of progress is the publication of the national service framework. It identifies 203 key actions for children; work has already started, and progress is being made, in 82 of those to be implemented by March this year. Can you update me on how work is progressing at ministerial level, and with local government, to implement these 82 aims by the target date of March this year?

Jane Hutt: It is a national service framework, and it is co-ordinated and monitored nationally as well as locally. Nationally, the Welsh Assembly Government monitors quarterly returns, and we also have regular updates at the Cabinet's children and young people sub-committee. Locally, there is the web-based self-assessment audit tool—the standard assessment procedure tool—which is innovative in enabling local partnerships to determine progress in implementing the national service framework. However, I understand that the second quarter returns, leading us up to April 2006, show that 84 of the core key actions are progressing well.

Rhodri Glyn Thomas: Byddwch yn ymwybodol, Weinidog, bod y comisinydd plant, Peter Clarke, wedi bod yn hynod feirniadol o'r gwasanaethau sydd ar gael i rai plant yng Nghymru. Yn benodol, mae wedi cyfeirio at blant sydd ag anhwylder iechyd meddwl, a phlant sy'n dioddef o awtistiaeth. Mae hefyd wedi galw ar awdurdodau lleol i ddynodi swyddog ar raddfa uchel i fod yn gyfrifol am hyrwyddo gwasanaethau i blant, ac i amddiffyn a diogelu buddiannau plant. Sut y byddwch yn sicrhau bod plant yn y categorïau hyn yn cael y gwasanaethau y maent yn eu haeddu, a pha drafodaethau y

Jane Hutt: Nid un Gweinidog sy'n gyfrifol am faterion yn ymwneud â phlant, ac fel cadeirydd is-bwyllgor y Cabinet mae gennyf rôl gydgysylltu bwysig i sicrhau bod polisïau, megis y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer plant, yn cael eu cydgysylltu a'u bod yn gyson.

Val Lloyd: Cytunaf fod cyhoeddi'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol yn ddatblygiad allweddol. Mae'n nodi 203 o gamau gweithredu allweddol ar gyfer plant. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo eisoes ac mae cynnydd gydag 82 o'r rheini sydd i'w gweithredu erbyn mis Mawrth eleni. A allwch roi'r manylion diweddaraf imi ar y ffordd y mae gwaith yn mynd rhagddo ar lefel gweinidogion, a chydala llywodraeth leol, i weithredu'r 82 nod hwn erbyn y dyddiad targed o fis Mawrth eleni?

Jane Hutt: Fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ydyw, a chaiff ei gydgysylltu a'i fonitro'n genedlaethol ac yn lleol. Yn genedlaethol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn monitro ffurflenni chwarterol, a chawn y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd gan is-bwyllgor plant a phobl ifanc y Cabinet. Yn lleol, mae yna'r offeryn archwilio hunanasesu ar y we—yr offeryn asesu safonol—sy'n arloesol am ei fod yn galluogi partneriaethau lleol i benderfynu'r cynnydd wrth weithredu'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol. Fodd bynnag, deallaf fod ffurflenni'r ail chwarter, sy'n mynd â ni at fis Ebrill 2006, yn dangos bod 84 o'r camau gweithredu allweddol craidd yn mynd yn eu blaen yn dda.

Rhodri Glyn Thomas: You will be aware, Minister, that the children's commissioner, Peter Clarke, has been extremely critical of the services available to some children in Wales. He has made particular reference to children who have mental health illnesses, and children suffering from autism. He has also called on local authorities to appoint an official at a high level to be responsible for promoting children's services, and to defend and safeguard the interests of children. How will you ensure that children in these categories receive the services they deserve, and what discussions will you have with local authorities to ensure that these

byddwch yn eu cynnal ag awdurdodau lleol i sicrhau bod y personau hyn yn eu lle yn y 22 awdurdod drwy Gymru?

Jane Hutt: This goes back to legislation—the Children Act 2004—which requires local authorities to have a lead member responsible for children’s issues. Bringing together those lead members across Wales, which we are doing as a result of the Children Act 2004, gives us—and me as Minister with responsibility for children—an opportunity to ensure that we engage with them at that level so that they are champions for children in that respect. However, you are probably also referring to the importance of having complaints officers at a high level in local authorities, which came from a children’s commissioner’s report, ‘Telling Concerns’. Again, across Wales, we are now seeing complaints officers who are responsible specifically for children, not just for wider issues in terms of adults and other situations. However, we should also welcome the new children’s complaints system, which is coming in shortly, in April, which will link children’s issues across social services, education and health.

Jonathan Morgan: On access to healthcare for children, do you believe that it is appropriate for large numbers of children to have to travel from Wales to Bristol to receive kidney dialysis, with all the costs—travel expenses and overnight accommodation costs—that that incurs for parents, or do you share my belief that paediatric nephrology services should be provided here in Cardiff, so that children can get those appropriate services in the capital city?

Jane Hutt: As you know, Jonathan, an extensive review of specialist children’s services—tertiary children’s services—is under way in Wales, looking at what was most appropriate in terms of safety and clinical excellence for children with these special needs. Dialysis is ongoing—the treatment is not a one-off clinical episode, so I am aware of the concerns in terms of those services for children. However, I also recognise that networking is the way forward, and I am sure that the Minister for Health and Social Services will respond to any questions

people are in place in the 22 authorities in Wales?

Jane Hutt: Mae hyn yn gysylltiedig â deddfwriaeth-Deddf Plant 2004-sy’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol benodi aelod arwain i fod yn gyfrifol am faterion plant. Mae uno’r aelodau arwain hynny ledled Cymru, sy’n cael ei wneud gennym yn sgil Deddf Plant 2004, yn gyfle i ni-ac i mi fel Gweinidog sy’n gyfrifol am blant-sicrhau ein bod yn ymgysylltu â hwy ar y lefel honno, er mwyn iddynt weithredu fel hyrwyddwyr plant yn hynny. Fodd bynnag, mae’n debyg eich bod hefyd yn cyfeirio at bwysigrwydd penodi swyddogion cwynion ar lefel uchel mewn awdurdodau lleol, a ddeilliodd o adroddiad gan y Comisiynydd Plant, ‘Datgan Pryderon’. Unwaith eto, ledled Cymru, yr ydym yn awr yn gweld swyddogion cwynion sy’n gyfrifol am blant yn benodol, nid am faterion ehangach oedolion a sefyllfaoedd eraill yn unig. Fodd bynnag, dylem hefyd groesawu’r system newydd ar gyfer cwynion plant, a gyflwynir yn fuan ym mis Ebrill. Bydd honno’n cysylltu materion plant ar draws gwasanaethau cymdeithasol, addysg ac iechyd.

Jonathan Morgan: O ran galluogi plant i gael gofal iechyd, a ydych yn credu ei bod yn briodol fod niferoedd mawr o blant yn gorfod teithio o Gymru i Fryste i gael dialysis yr arenau, a holl gostau hynny-costau teithio a chostau llety dros nos-i rieni o orfod gwneud hynny? Neu a ydych chi, fel finnau, yn credu y dylid darparu gwasanaethau areneg plant yma yng Nghaerdydd, fel y gall plant gael y gwasanaethau priodol hynny yn y brifddinas?

Jane Hutt: Fel y gwyddoch, Jonathan, mae adolygiad helaeth o wasanaethau plant arbenigol—gwasanaethau plant trydyddol—ar waith ar hyn o bryd yng Nghymru i edrych ar yr hyn sydd fwyaf priodol o ran diogelwch a rhagoriaeth glinigol i blant sydd â’r anghenion arbennig hyn. Mae dialysis yn driniaeth barhaus—nid triniaeth unigol mohono, felly yr wyf yn ymwybodol o’r pryderon am y gwasanaethau hynny i blant. Fodd bynnag, yr wyf yn cydnabod hefyd mai rhwydweithio yw’r ffordd ymlaen, ac yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau

that you raise on this development and this issue.

William Graham: Will you specify any plans that you have to continue the campaign to stamp out bullying for children?

Jane Hutt: This is also key for the Minister for Education and Lifelong Learning. The key drive is respecting others. The guidance that came from the Minister, which is followed up in schools and with governing bodies, is crucial in terms of their taking their responsibility. I am also concerned. I met recently with a group of minority ethnic young people across Wales, who raised issues of bullying relating to possible racist bullying. This issue is high on the agenda for the Welsh Assembly Government, particularly in relation to bullying in schools.

Cymdeithasol yn ateb unrhyw gwestiynau a godwch am y datblygiad hwn a'r mater hwn.

William Graham: A rowch fanylion am unrhyw gynlluniau sydd gennych i barhau'r ymgyrch i atal bwlio plant?

Jane Hutt: Mae hwn hefyd yn fater allweddol i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Y brif neges yw parchu eraill. Mae'r canllawiau a luniwyd gan y Gweinidog, a lle mae gwaith dilynol yn digwydd mewn ysgolion a chyda chyrrff llywodraethu, yn hanfodol o ran cymryd eu cyfrifoldeb. Yr wyf fi hefyd yn pryderu. Cyfarfûm yn ddiweddar â grŵp o bobl ifanc o leiafrifoedd ethnig ledled Cymru, a chodwyd materion bwlio yn ymwneud â bwlio hiliol posibl. Mae'r mater hwn ar frig yr agenda i Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn enwedig mewn cysylltiad â bwlio mewn ysgolion.

Gwella Portffolios Improving Portfolios

Q3 Nick Bourne: Will the Minister update us on her policies for improving openness across portfolios? OAQ0160(BM)

Jane Hutt: Our code of practice applies to the whole of the Welsh Assembly Government and provides a framework for maximising openness. We are continually improving and sharing good practice by embedding lessons learnt in our procedures and developing expertise through various training and development initiatives.

Nick Bourne: I thought that you would say that, or something similar. Yesterday, in his notorious statement on arts policy, the Minister for Culture, Welsh Language and Sport referred to the culture board minutes and encouraged me to read them, saying that the minutes of the two meetings held in the last 14 months had been published. Full of expectation, and in great anticipation, I visited the website to investigate. The July minutes had been published in December, and they were two sides long; I have them here. The first side includes the names of those attending the meeting, and that is by far the most part of the minutes, and the second side is about 25 lines long; one agenda item was to discuss the fact that the minutes would

C3 Nick Bourne: A all y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am ei pholisïau i wneud portffolios yn fwy agored? OAQ0160(BM)

Jane Hutt: Mae ein cod ymarfer yn berthnasol i bob rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'n darparu fframwaith sy'n sicrhau ein bod mor agored â phosibl. Yr ydym yn gwella'n barhaus ac yn rhannu arfer da drwy gynnwys gwersi a ddysgwyd yn ein gweithdrefnau a datblygu arbenigedd drwy amrywiol fentrau hyfforddi a datblygu.

Nick Bourne: Yr oeddwn yn disgwyl ichi ddweud hynny, neu rywbeth tebyg. Ddoe, yn ei ddatganiad bondigrybwyll ar bolisi'r celfyddydau, cyfeiriodd y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon at gofnodion y bwrdd diwylliant, ac fe'm hanogodd i'w darllen, gan ddweud bod cofnodion y ddau gyfarfod a gynhaliwyd yn y 14 mis diwethaf wedi'u cyhoeddi. Yn llawn brwdfrydedd ac yn ddisgwyllgar, trois i'r wefan i archwilio. Cyhoeddwyd cofnodion mis Gorffennaf ym mis Rhagfyr ac yr oeddent yn ddwy ochr o hyd; maent gennyf yma. Mae'r ochr gyntaf yn cynnwys enwau'r rhai a oedd yn bresennol, a hynny o bell ffordd yw'r rhan fwyaf o'r cofnodion. Mae'r ail ochr tua 25 llinell o hyd. Un eitem ar yr agenda oedd trafod

be published. The second meeting took place in November, and, at the current rate of progress, we can expect those minutes to be published some time in May. Does it not indicate massive incompetence on the part of the Minister that he does not have a proper hold on what is happening in his own area, does not know that these minutes have not been properly published and does not know how flimsy they are? Furthermore, does it not show the lack of control he has over this important area of business? Will you be doing something to rap him on the knuckles and ensure that the good practice to which you just referred, and which I strongly endorse, is followed by one of your Cabinet colleagues?

Jane Hutt: The publication scheme that we launched as a Welsh Assembly Government is important and innovative. Not many Governments publish their Cabinet minutes and the minutes of all their Cabinet committees, and not all Governments publish all their decisions. The publication of decisions is again pioneering in terms of clarity and openness, and it is an important demonstration of our commitment to open government. Clearly, it is the content of the meeting, Nick, that was important with regard to the culture board, and I am sure that you will receive the full minutes in due course.

Nick Bourne: Thank you for that response, but it was a response to a question that I had not asked. I did not ask about the Cabinet minutes; I asked about this particular Minister's record in publishing minutes. Since you believe that the minutes are full of content, I encourage you to have a look at them, because, in all honesty, you will, as a fair-minded person, be as disappointed as I was with the content of these minutes, having been led to believe that they would say something constructive about arts policy. I asked you whether you were going to give him a rap on the knuckles with regard to these minutes and the November ones, as you are the Minister in charge of openness. As I said, if they are not published in the proper way, they will not appear until May if we follow the same timescale. Will you do something about it Minister?

Jane Hutt: I am sure that the partners who

y ffaith y byddai'r cofnodion yn cael eu cyhoeddi. Cynhaliwyd yr ail gyfarfod ym mis Tachwedd, ac yn ôl y cynnydd presennol gallwn ddisgwyl i'r cofnodion hynny gael eu cyhoeddi rywbryd ym mis Mai. Onid yw'n dangos anallu llwyr y Gweinidog nad oes ganddo afael iawn ar yr hyn sy'n digwydd yn ei faes ei hun, nad yw'n gwybod na chyhoeddwyd y cofnodion hyn yn briodol, ac nad yw'n ymwybodol mor ddisylwedd ydynt? At hynny, onid yw'n dangos ei ddiffyg rheolaeth ar faes busnes pwysig? A fyddwch yn gwneud rhywbeth i'w geryddu ac i sicrhau y caiff yr arfer da yr ydych newydd gyfeirio ato, ac a gefnogaf yn gryf, ei weithredu gan un o'ch cyd-Weinidogion yn y Cabinet?

Jane Hutt: Mae'r cynllun cyhoeddi a lanswyd gennym fel Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwysig ac yn arloesol. Nid oes llawer o Lywodraethau'n cyhoeddi cofnodion eu Cabinet a chofnodion holl bwyllgorau'r Cabinet, ac nid yw pob Llywodraeth yn cyhoeddi ei holl benderfyniadau. Unwaith eto, mae cyhoeddi penderfyniadau'n arloesol o ran eglurdeb a bod yn agored, ac mae'n bwysig yn dangos ein hymrwymiad i lywodraeth agored. Yn amlwg, Nick, cynnwys y cyfarfod a oedd yn bwysig o ran y bwrdd diwylliant, ac yr wyf yn siŵr y cewch y cofnodion llawn maes o law.

Nick Bourne: Diolch ichi am yr ymateb hwnnw, ond ymateb yw i gwestiwn na ofynnais. Ni ofynnais am gofnodion y Cabinet; gofynnais am record y Gweinidog penodol hwn wrth gyhoeddi cofnodion. Gan eich bod yn credu bod cofnodion yn llawn cynnwys, fe'ch anogaf i gael golwg arnynt oherwydd, a bod yn onest, fel person teg byddwch mor siomedig ag oeddwn i am gynnwys y cofnodion hyn, ar ôl imi gael fy arwain i gredu y byddent yn dweud rhywbeth adeiladol am bolisi ar y celfyddydau. Gofynnais ichi a fydddech yn ei geryddu am y cofnodion hyn a rhai mis Tachwedd, gan mai chi yw'r Gweinidog sy'n gyfrifol am fod yn agored. Fel y dywedais, os na chânt eu cyhoeddi yn y modd cywir, ni fyddant yn ymddangos tan fis Mai os dilynwn yr un amserlen. A wnewch rywbeth ynglŷn â hyn, Weinidog?

Jane Hutt: Yr wyf yn siŵr fod y partneriaid

sit on the culture board will themselves be concerned to receive the minutes within an appropriate time. I will raise this issue with the Minister for Culture, Welsh Language and Sport, but I am sure that those minutes will be on the website.

sydd ar y bwrdd diwylliant eu hunain yn awyddus i gael y cofnodion o fewn amser priodol. Byddaf yn codi'r mater gyda'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon, ond yr wyf yn siŵr y bydd y cofnodion hynny ar y wefan.

Natur Agored Llywodraeth Openness in Government

Q4 Janet Davies: Will the Minister make a statement on the implications of the Government of Wales Bill on openness in government? OAQ0173(BM)

C4 Janet Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am oblygiadau Mesur Llywodraeth Cymru ar fod yn agored mewn llywodraeth? OAQ0173(BM)

Jane Hutt: Like the 'Better Governance for Wales' White Paper, the Government of Wales Bill does not focus directly on open government issues. The freedom of information legislation will continue to apply to the Welsh Assembly Government, and our strong commitment to openness will continue.

Jane Hutt: Fel y Papur Gwyn 'Trefn Lywodraethu Well i Gymru', nid yw Mesur Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar faterion llywodraeth agored. Bydd y ddeddfwriaeth ar ryddid gwybodaeth yn parhau'n gynnwys i Lywodraeth Cynulliad Cymru, a bydd ein hymrwymiad cryf i fod yn agored yn parhau.

Janet Davies: Clause 135 gives access to the Auditor General for Wales, and there is a later reference to the Welsh public records. However, as you say, there is no direct commitment in the Bill to openness in government. Having just listened to the exchange with Nick Bourne, do you agree that there must be a commitment from the Assembly to openness in government when the Bill takes effect?

Janet Davies: Mae cymal 135 yn rhoi'r hawl i Archwilydd Cyffredinol Cymru gael mynediad, ac mae cyfeiriad yn ddiweddarach at y cofnodion cyhoeddus Cymreig. Fodd bynnag, fel y dywedwch, nid oes ymrwymiad uniongyrchol yn y Mesur i fod yn agored mewn llywodraeth. Ar ôl gwranddo ar y cyfnewid sylwadau gyda Nick Bourne, a gytunwch ei bod yn rhaid cael ymrwymiad gan y Cynulliad i fod yn agored wrth lywodraethu pan ddaw'r Mesur i rym?

Jane Hutt: That is a very important point. The Government of Wales Bill focuses mainly on changes to our constitution and the powers that will be available to us. Changes in relation to open government will be restricted to the National Assembly, so we need to address that. A new version of the code will be necessary because of the separation of powers, and taking that forward will be important.

Jane Hutt: Mae hynny'n bwynt pwysig iawn. Mae Mesur Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio'n bennaf ar newidiadau yn ein cyfansoddiad a'r pwerau a fydd ar gael inni. Bydd newidiadau o ran llywodraeth agored wedi'u cyfyngu i'r Cynulliad Cenedlaethol. Felly, mae angen inni fynd i'r afael â hynny. Bydd angen fersiwn newydd o'r cod oherwydd gwahanu pwerau, a bydd gweithredu ar hynny'n bwysig.

3.20 p.m.

Michael German: The Bill itself talks about the way in which the Secretary of State for Wales can reject an Order in Council request put forward by the National Assembly, but the Bill does not say what grounds the Secretary of State must give for rejecting

Michael German: Mae'r Mesur ei hun yn sôn am y modd y gall Ysgrifennydd Gwladol Cymru wrthod cais Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor a gyflwynir gan y Cynulliad Cenedlaethol. Ond nid yw'r Mesur yn dweud pa sail y bydd yn rhaid i'r Ysgrifennydd

such a request. Do you believe that the Bill should contain some clear and objective conditions to be laid at the desk of the Secretary of State, so that if he or she were to reject a properly decided and determined Order in Council from the National Assembly for Wales, those conditions would have to be met, rather than the whim and fancy of a Secretary of State?

Jane Hutt: You know that it will be clear which fields will be appropriate in terms of the development and proposal of Orders in Council from this institution to Westminster, and it will be important to ensure that the Secretary of State does not wish to turn down or object to Orders in Council when they appear to be outside those fields and where they are measures that would not be appropriate as they are reserved. That will be the clarity in legislation, but I am sure that we will have an opportunity in our debate next week, and in the Bill committee that will be set up, to consider these matters further.

Michael German: I wish that it were as clear as you stated, and I would be grateful if the words that you have just uttered were in the Bill, because there are no conditions that state the grounds upon which the Secretary of State can reject an Order in Council. Clause 100 of the Bill states the grounds on which he can reject a call from the National Assembly—there are clearly four grounds, two of which you have given us today. I take it, therefore, from your words today, that you would give support to those words being in the Bill, so that we could have clarity on this issue and openness for the Secretary of State for Wales, whoever that person might be in the future.

Jane Hutt: The way that we have taken this forward has all depended on partnership, clarity of partnership, and openness. This has delivered the Government of Wales Bill, which successfully received its second reading on Monday and will therefore be on the statute book. We will have the opportunity to debate and discuss these issues in our Bill committee, but it is vitally important that we recognise that this is going to be a framework for us, in terms of the areas that are devolved and not reserved, in order for us to take forward this new

Gwladol ei rhoi dros wrthod cais felly. A ydych yn credu y dylai'r Mesur gynnwys rhai amodau clir a gwrthrychol i'w rhoi ar ddesg yr Ysgrifennydd Gwladol, fel y byddai'n rhaid bodloni'r amodau hynny, yn hytrach na mympwy a blys Ysgrifennydd Gwladol, pe bai ef neu hi yn gwrthod Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor wedi ei benderfynu a'i bennu'n gywir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru?

Jane Hutt: Fe wyddoch y bydd yn glir pa feysydd a fydd yn briodol o ran datblygu a chynnig Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor o'r sefydliad hwn i San Steffan. A bydd yn bwysig sicrhau na fydd yr Ysgrifennydd Gwladol am wrthod neu wrthwynebu unrhyw Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor pan fydd yn ymddangos eu bod y tu allan i'r meysydd hynny, a phan fyddant yn fesurau na fyddent yn addas am eu bod wedi'u cadw'n ôl. Dyna fydd yr eglurder yn y ddeddfwriaeth, ond yr wyf yn siŵr y cawn gyfle yn ein dadl yr wythnos nesaf, ac yn y pwyllgor Mesur a gaiff ei sefydlu, i ystyried y materion hyn ymhellach.

Michael German: Byddai'n dda gennyf pe bai mor glir ag y dywedwch, a byddwn yn ddiolchgar pe bai'r geiriau yr ydych newydd eu llefaru yn y Mesur, oherwydd nid oes unrhyw amodau sy'n dweud ar ba sail y gall yr Ysgrifennydd Gwladol wrthod Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Mae cymal 100 o'r Mesur yn datgan ar ba seiliau y gall wrthod mesur gan y Cynulliad Cenedlaethol—mae pedair sail yn amlwg, ac yr ydych wedi rhoi dwy ohonynt inni heddiw. Tybiaf, felly, o'ch geiriau heddiw, y byddech yn cefnogi rhoi'r geiriau hynny yn y Mesur, fel y gallem gael eglurder ar y mater hwn a natur agored i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, pwy bynnag fyddai'r hwnnw yn y dyfodol.

Jane Hutt: Mae'r modd yr ydym wedi gweithredu hyn wedi dibynnu i gyd ar bartneriaeth, eglurder partneriaeth a bod yn agored. Mae hyn wedi arwain at Fesur Llywodraeth Cymru, a aeth drwy ei ail ddarlleniad yn llwyddiannus ddydd Llun ac a fydd, felly, yn gyfraith gwlad. Cawn gyfle i drin a thrafod y materion hyn yn ein pwyllgor ar y Mesur. Ond mae'n hanfodol bwysig inni gydnabod y bydd hyn yn fframwaith inni, o ran y meysydd sydd wedi'u datganoli a heb eu cadw yn ôl, er mwyn inni weithredu'r cyfle deddfwriaethol newydd hwn. Dyna y dylem ei

legislative opportunity. That is what we should be embracing today.

Polisi Cydraddoldeb Equality Policy

Q5 Helen Mary Jones: Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's policy on equality? OAQ0163(BM)

C5 Helen Mary Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi cydraddoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ0163(BM)

Q12 Lisa Francis: Would the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's priorities for equal opportunities? OAQ0161(BM)

C12 Lisa Francis: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cyfle cyfartal? OAQ0161(BM)

Jane Hutt: The Welsh Assembly Government's policy is to mainstream equality to ensure that equality of opportunity principles and approaches are integrated and embedded into the everyday work of the Assembly.

Jane Hutt: Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yw prif-ffrydio cydraddoldeb er mwyn sicrhau bod egwyddorion ac ymagweddau cyfle cyfartal yn dod yn rhan o waith beunyddiol y Cynulliad.

Helen Mary Jones: I am sure that you would agree that the provision of effective advocacy services can be an important tool in ensuring that people can get access to equality of opportunity. Can you tell us what steps you are taking with colleagues across portfolios to ensure that independent, properly funded and long-term-funded advocacy services are available to those using the full range of public services in Wales, including people with learning disabilities and children using health services?

Helen Mary Jones: Yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno y gall darparu gwasanaethau eiriolaeth effeithiol fod yn fodd pwysig i sicrhau bod pobl yn cael cyfle cyfartal. A allwch ddweud wrthym pa gamau yr ydych yn eu cymryd gyda chyd-weinidogion ar draws y portffolios i sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth annibynnol, sy'n cael eu hariannu'n briodol a thros gyfnod hir, ar gael i bobl sy'n defnyddio'r holl ystod o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys pobl ag anawsterau dysgu a phlant sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd?

Jane Hutt: Advocacy services go across a whole age range, from adults to children. It is key that we have that approach in terms of promoting and maintaining our statutory obligations on equality of opportunity. That applies across the field in terms of disability, particularly in relation to learning disability, and applies to access to the gender equality duty that we are now discussing and to the race equality scheme. I will look at this further.

Jane Hutt: Mae gwasanaethau eiriolaeth yn cwmpasu ystod oedran lawn, o oedolion i blant. Mae'n allweddol inni ddefnyddio'r dull hwn i hyrwyddo a chynnal ein rhwymedigaethau statudol ar gyfle cyfartal. Mae hynny'n berthnasol drwy'r maes i gyd o ran anabledd, yn arbennig mewn perthynas ag anabledd dysgu. Mae hefyd yn berthnasol i'r ddyletswydd cydraddoldeb rhyw yr ydym yn ei thrafod ar hyn o bryd ac i'r cynllun cydraddoldeb hiliol. Byddaf yn edrych ar hyn ymhellach.

Lisa Francis: You will be aware of Chwarae Teg's Ready SET Go project, which was launched just last year. What do you anticipate will happen to funding of that project, now that ELWa is going to be brought into the Government?

Lisa Francis: Byddwch yn ymwybodol o'r prosiect Ready SET Go gan Chwarae Teg a lanswyd y llynedd. Beth yr ydych yn rhagweld fydd yn digwydd i gyllid y prosiect hwnnw gan fod ELWa bellach yn mynd i ddod yn rhan o'r Llywodraeth?

Jane Hutt: I foresee that some of the best initiatives, such as that project—Chwarae Teg is also engaged with a number of projects like the small and medium-sized enterprises equality project, which is supported by the Welsh Development Agency—will go from strength to strength as a result of the merger and of the funding base that will be secured.

Mark Isherwood: Yesterday, we heard about the problems faced by the people of Wales in accessing NHS dental services. What action do you propose to take to address the inequalities identified by the National Autistic Society that arise when young people with special needs try to access NHS dentistry so that the particular barriers that they encounter when trying to access treatment may be overcome?

Jane Hutt: These issues are important and they will emerge through the autistic strategy that is being developed. Full consultation is now being undertaken on that strategy, and I am delighted that Autism Cymru has taken a lead on it. I am interested in Autism Cymru's development of the emergency services ASD attention card. That is important for young people with autistic spectrum disorders who may have social communication impairments when they might have to interact with the criminal justice system. We need to look at that kind of development in relation to access to other public services.

Jenny Randerson: I am sure that you will agree that social justice and equal opportunities are mutually dependent concepts. Therefore, do you share my concern at the serious criticism of Labour Assembly Government economic policy in the newly published Bevan Foundation report on social justice in the economy?

Do you agree with the Bevan Foundation when it laments that even the most general of references to social justice are almost entirely absent from economic development policy documents? Do you agree with the Bevan

Jane Hutt: Rhagwelaf y bydd rhai o'r mentrau gorau, megis y prosiect hwnnw—mae Chwarae Teg hefyd yn ymgymryd â nifer o brosiectau megis prosiect cydraddoldeb busnesau bach a chanolig, a gefnogir gan Awdurdod Datblygu Cymru—yn mynd o nerth i nerth oherwydd uno'r ddau a'r sail ariannu a gaiff ei diogelu.

Mark Isherwood: Ddoe, clywsom am y problemau sy'n wynebu pobl Cymru wrth gael gwasanaethau deintyddol y GIG. Pa gamau yr ydych yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a nodwyd gan y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth, problemau sy'n codi pan fydd pobl ifanc ag anghenion arbennig yn ceisio cael gwasanaeth deintyddol y GIG, fel y gellir goresgyn yr anawsterau a wynebant wrth geisio cael triniaeth?

Jane Hutt: Mae'r materion hyn yn bwysig a byddant yn dod yn amlwg drwy'r strategaeth awtistiaeth sy'n cael ei datblygu. Mae ymgynghori llawn ar y strategaeth hon ar hyn o bryd, ac yr wyf wrth fy modd fod Awtistiaeth Cymru yn cymryd yr awenau yn hyn. Mae gennyf ddiddordeb yn y ffordd y mae Awtistiaeth Cymru yn datblygu cerdyn sylw anhwylderau sbectrwm awtistiaeth y gwasanaethau brys. Mae'n bwysig i bobl ifanc sydd ag anhwylderau yn y sbectrwm awtistig ac a all fod â namau cyfathrebu cymdeithasol pan fydd yn rhaid iddynt efallai ddod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Mae angen inni edrych ar y math hwnnw o ddatblygiad o ran gallu cael gwasanaethau cyhoeddus eraill.

Jenny Randerson: Yr wyf yn siŵr y byddwch yn cytuno bod cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal yn gysyniadau sy'n ddibynnol ar ei gilydd. Felly, a ydych chi, fel finnu, yn pryderu ynglŷn â'r feirmiadaeth hallt ar bolisi economaidd Llywodraeth Lafur y Cynulliad yn adroddiad Sefydliad Bevan, sydd newydd ei gyhoeddi, ar gyfiawnder cymdeithasol yn yr economi?

A gytunwch â Sefydliad Bevan pan fydd yn gresynu bod hyd yn oed y cyfeiriadau mwyaf cyffredinol at gyfiawnder cymdeithasol bron yn gwbl absennol mewn dogfennau polisi datblygu economaidd? A gytunwch â Sefydliad Bevan

Foundation when it criticises these documents for having remarkably anodyne proposals to remove barriers to work, such as childcare? If you agree, what conversations and discussions are you planning to have with the Minister for Economic Development and Transport in order to improve your economic development policy in terms of equal opportunities?

Jane Hutt: That is key to the constructive criticism and challenge that we would expect from organisations such as the Bevan Foundation. It is influential in terms of Wales's wider policy-making body. It produced an excellent report on the challenges of childcare last year, which links to economic development. These are key issues and they are dealt with by the Cabinet sub-committee on children and young people, which I chair and of which the Minister for Economic Development and Transport is a member.

pan fydd yn beirniadu'r dogfennau hyn am gynnwys cynigion arbennig o annadleuol i ddileu rhwystrau i waith, megis gofal plant? Os cytunwch, pa sgysiau a thrafodaethau yr ydych yn bwriadu eu cael gyda'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i wella'ch polisi datblygu economaidd o ran cyfle cyfartal?

Jane Hutt: Mae hynny'n allweddol i'r feirniadaeth adeiladol a'r her y byddem yn disgwyl eu cael gan sefydliadau megis Sefydliad Bevan. Mae'n ddylanwadol fel corff llunio polisi ehangach Cymru. Lluniodd adroddiad ardderchog ar her gofal plant y llynedd, sy'n gysylltiedig â datblygu economaidd. Mae'r rhain yn faterion allweddol yr ymdrinnir â hwy gan is-bwyllgor y Cabinet ar blant a phobl ifanc. Fi yw ei gadeirydd, ac y mae'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth yn aelod ohono.

Cydraddoldeb Pobl Hŷn Equality of Older People

Q7 Catherine Thomas: Will the Minister make a statement on equality issues concerning older people in Wales? OAQ0172(BM)

Jane Hutt: Our groundbreaking strategy for older people challenges ageism and discrimination against older people. The commissioner for older people in Wales will have an important part to play in tackling age discrimination.

Catherine Thomas: As you rightly say, ageism and discrimination exist in our society. This concern has been raised with me by a number of older people organisations in Llanelli, including the Llanelli reminiscence group, and I was delighted that it recently invited me to be its president. Minister, will you meet this group when it visits the Assembly shortly and give its members an opportunity to discuss with you directly their concerns in relation to discrimination and other issues that affect them?

Jane Hutt: I would be happy to meet the Llanelli group when it comes to the Assembly. This is precisely how we can promote positive images of ageing and give

C7 Catherine Thomas: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am faterion cydraddoldeb sy'n ymwneud â phobl hŷn yng Nghymru? OAQ0172(BM)

Jane Hutt: Mae ein strategaeth arloesol ar gyfer pobl hŷn yn herio rhagfarn ar sail oedran a gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn. Bydd gan y comisiynydd ar gyfer pobl hŷn ran bwysig i'w chwarae i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran.

Catherine Thomas: Fel y dywedwch yn gwbl gywir, mae yna ragfarn ar sail oedran a gwahaniaethu yn ein cymdeithas. Codwyd y pryder hwn gan nifer o sefydliadau i bobl hŷn yn Llanelli, gan gynnwys grŵp atgof Llanelli. Yr oeddwn wrth fy modd cael ngwahodd yn ddiweddar i fod yn llywydd arno. Weinidog, a wnewch chi gwrdd â'r grŵp hwn pan fydd yn ymweld â'r Cynulliad yn fuan, a rhoi cyfle i'w aelodau drafod gyda chi'n bersonol eu pryderon am wahaniaethau a materion eraill sy'n effeithio arnynt?

Jane Hutt: Byddwn yn falch o gwrdd â grŵp Llanelli pan ddaw i'r Cynulliad. Dyma'n union sut y gallwn hyrwyddo delweddau cadarnhaol o heneiddio a rhoi llais cryfach i bobl hŷn mewn

older people a stronger voice in society. It is key to the strategy for older people and the fora that are being developed across Wales.

cymdeithas. Mae'n allweddol i'r strategaeth ar gyfer pobl hŷn a'r fforymau sy'n cael eu datblygu ledled Cymru.

Hawliau Plant Children's Rights

Q8 David Melding: What action is the Minister taking to co-ordinate Welsh Assembly Government policies that promote children's rights? OAQ0164(BM)

C8 David Melding: Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i gydlynu polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n hyrwyddo hawliau plant? OAQ0164(BM)

Jane Hutt: All our policies for children in Wales are developed in line with our seven core aims for children and young people, based on the United Nations Convention on the Rights of the Child. Cross-cutting policies are considered by the Cabinet sub-committee on children and young people, which I chair.

Jane Hutt: Mae ein holl bolisiau ar gyfer plant yng Nghymru wedi eu datblygu'n unol â'n saith nod craidd ar gyfer plant a phobl ifanc, sy'n seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Ystyrir polisiau trawsbynciol gan is-bwyllgor y Cabinet ar blant a phobl ifanc, a fi yw ei gadeirydd.

David Melding: As you said, the concept of children's rights—in the modern era, anyway—is based on the UN Convention on the Rights of the Child. One of the three major strategic aims is to promote participation. Will you review how young people participate, across the board, in Assembly policies?

David Melding: Fel yr oeddech yn dweud, mae'r cysyniad o hawliau plant—yn y cyfnod modern, beth bynnag—yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Un o'r tri phrif nod strategol yw hyrwyddo cyfranogiad. A wnewch chi adolygu'r ffordd y mae pobl ifanc yn cyfranogi, yn gyffredinol, ym mhollisiau'r Cynulliad?

Jane Hutt: Yes; that is article 12 of the UN Convention on the Rights of the Child. The groundbreaking work that we have done through Funky Dragon is important and involves young people and children in decision making in a shadow version of the Assembly.

Jane Hutt: Gwnaf; dyna yw erthygl 12 yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r gwaith arloesol a wnaed gennym drwy'r Ddraig Ffyni yn bwysig, ac mae'n cynnwys pobl ifanc a phlant yn y broses o wneud penderfyniadau mewn rhith Gynulliad.

3.30 p.m.

Now that we have the regulations and guidance for developing schools councils and local fora, we are developing participation on all fronts. That is certainly a big issue for the Cabinet sub-committee on children. We are also looking beyond this to the particular needs of disabled young people, for example, and minority ethnic young people, whom I mentioned in my answer to William Graham's question. We must ensure that we reach out to them as well as to those who already wish to come forward and who are ready to participate.

Gan fod gennym yn awr y rheoliadau a'r canllawiau ar gyfer datblygu cyngorau ysgol a ffora lleol, yr ydym yn datblygu cyfranogiad ar bob llaw. Mae hynny'n sicr yn fater pwysig i is-bwyllgor y Cabinet ar blant. Yr ydym hefyd yn edrych y tu hwnt i hyn ar anghenion penodol pobl ifanc anabl, er enghraifft, a phobl ifanc o leiafrifoedd ethnig. Soniais am y rheini wrth ymateb i gwestiwn William Graham. Rhaid inni sicrhau ein bod yn eu cyrraedd hwy yn ogystal â'r rheini sydd eisoes yn awyddus i ddod ymlaen ac sy'n barod i gymryd rhan.

**Blaenoriaethau'r Gweinidog o ran Plant
The Minister's Priorities for Children**

Q9 Christine Gwyther: Will the Minister outline her substantive priorities for her work as Minister for children over the next 12 months? OAQ0154(BM)

Jane Hutt: My priorities include the preparation of Wales's contribution to the UK Government's report on the UN convention on the rights of the child, the needs and entitlements of looked-after children, the implementation of the Children Act 2004, and ensuring the proper co-ordination of Assembly Government policy for children.

Christine Gwyther: I know that the Assembly is developing proposals for children's centres across Wales. I draw your attention to two family centres in Carmarthen, both of which are active and successful. One is called Tŷ Ni, which was 10 years old just before Christmas, and the other is Tŷ Hapus. They are both run with the assistance of public money, but they both deliver quite different programmes and services, because they are delivering for different sorts of communities. How will you bring forward the children's service model in the understanding that no one size will fit all when it comes to that sort of service delivery?

Jane Hutt: That is right, and that is fundamental to the Flying Start early years initiative, which is undergoing consultation at present and which will build on valuable work done under the Sure Start theme of the Cymorth grant scheme. The £46 million for Flying Start in the draft budget for the next two years will result in the kind of tailoring to the communities that you outlined, comparing Tŷ Ni and Tŷ Hapus, which serve different communities. There is also recognition that Cymorth, family support, parenting skills, health promotion, play, leisure and enrichment all come into building childcare provision that is appropriate for communities.

Y Llywydd: Trosglwyddwyd cwestiwn 10, OAQ0159(BM), i'w ateb yn ysgrifenedig.

C9 Christine Gwyther: A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau sylweddol ar gyfer ei gwaith fel Gweinidog dros blant yn y 12 mis nesaf? OAQ0154(BM)

Jane Hutt: Mae fy mlaenoriaethau yn cynnwys paratoi cyfraniad Cymru i adroddiad Llywodraeth y DU ar gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn, anghenion a hawliau plant sy'n cael gofal, gweithredu Deddf Plant 2004, a sicrhau bod polisi Llywodraeth y Cynulliad o ran plant yn cael ei gydlynu'n briodol.

Christine Gwyther: Gwn fod y Cynulliad yn datblygu cynigion ar gyfer canolfannau plant ledled Cymru. Hoffwn dynnu eich sylw at ddwy ganolfan i deuluoedd yng Nghaerfyrddin, y ddwy'n gweithio ac yn llwyddiannus. Enw'r naill yw Tŷ Ni, a ddathlodd ei dengmlwyddiant ychydig cyn y Nadolig, ac enw'r llall yw Tŷ Hapus. Caiff y ddwy ganolfan eu rhedeg gyda chymorth arian cyhoeddus, ond mae'r naill a'r llall yn darparu rhaglenni a gwasanaethau cwbl wahanol, gan eu bod yn darparu ar gyfer gwahanol fathau o gymunedau. Sut y byddwch yn cyflwyno'r model gwasanaeth plant yn unol â'r ddealltwriaeth na fydd un ateb yn addas i bawb pan ddaw'n fater o ddarparu'r math hwnnw o wasanaeth?

Jane Hutt: Yr ydych yn llygad eich lle, ac mae hynny'n hanfodol i'r fenter blynyddoedd cynnar Dechrau'n Deg. Mae ymgynghori arni ar hyn o bryd, a bydd yn adeiladu ar waith gwerthfawr a wnaed o dan y thema Cychwyn Cadarn yn y cynllun grant Cymorth. Bydd y £46 miliwn ar gyfer Dechrau'n Deg yn y gyllideb ddrafft ar gyfer y ddwy flynedd nesaf yn arwain at y math o deilwra yn ôl y cymunedau a amlinellwyd gennych, wrth gymharu Tŷ Ni a Thŷ Hapus, sy'n gwasanaethu gwahanol gymunedau. Mae cydnabyddiaeth hefyd fod Cymorth, cymorth teuluol, sgiliau rhianta, hybu iechyd, chwarae, hamdden a chyfoethogi i gyd yn rhan o'r ddarpariaeth gofal plant sy'n briodol i gymunedau.

The Presiding Officer: Question 10, OAQ0159(BM), is transferred for written answer.

Costau Hysbysebu Advertising Expenses

Q11 Jonathan Morgan: What steps is the Minister taking to ensure that advertising expenses incurred by the Welsh Assembly Government are proportionate and reasonable? OAQ0169(BM)

Jane Hutt: Press advertisements are placed through a contract to ensure that we target audiences effectively and that they achieve best value for money. All media advertising is purchased according to procurement procedures of fair and open competition to ensure best value for money while meeting business objectives.

Jonathan Morgan: With regard to how that contract is managed, how is it reviewed by the Assembly Government to ensure that advertising costs are kept to a minimum, bearing in mind that the advertising costs in 1999 were £263,000 but that they have now risen to £2.86 million in the last financial year? That is a substantial increase in the amount of money being spent by the Assembly Government on advertising, and the Assembly and the people of Wales need assurances that we are getting value for money.

Jane Hutt: That is our complete aim and intention. However, since 2002, the expenditure increase has been only marginal, at 3.4 per cent, because there has been a change in the way in which we spend money. In the management of campaigns against smoking and drink-driving, for example, they were not managed at the centre, but they have now been brought into the centre in terms of budgetary responsibilities. However, in terms of our spending in this area, that is also a response to the development of the Welsh Assembly Government as a whole, not only in terms of recruitment and ensuring that we abide by equality of opportunity, but also working towards keeping down recruitment advertising, which, in the last year, has fallen by approximately 14 per cent as a result of alternative methods of recruitment, such as using job centres and websites.

C11 Jonathan Morgan: Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod costau hysbysebu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn gymesur ac yn rhesymol? OAQ0169(BM)

Jane Hutt: Gosodir hysbysebion yn y wasg drwy gcontract er mwyn sicrhau ein bod yn targedu cynulleidfaoedd yn effeithiol a'u bod yn rhoi'r gwerth gorau am yr arian. Caiff pob hysbyseb ar y cyfryngau ei phrynu yn unol â gweithdrefnau caffael cystadleuaeth deg ac agored, er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian a chyflawni amcanion busnes.

Jonathan Morgan: O ran y ffordd y caiff y contract hwnnw ei reoli, sut y caiff ei adolygu gan Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau cadw costau hysbysebu i isafswm, o gofio mai £263,000 oedd y costau hysbysebu yn 1999 ond eu bod bellach wedi cynyddu i £2.86 miliwn yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf? Mae hynny'n gynydd sylweddol yn yr arian a werir gan Lywodraeth y Cynulliad ar hysbysebu, ac mae angen sicrwydd ar y Cynulliad ac ar bobl Cymru ein bod yn cael gwerth yr arian.

Jane Hutt: Dyna yw ein nod a'n bwriad yn llwyr. Fodd bynnag, er 2002, dim ond cynnydd bach o 3.4 y cant a fu mewn gwariant, gan inni newid ein ffordd o wario arian. Wrth reoli ymgyrchoedd yn erbyn ysmegu ac yfed a gyrru, er enghraifft, ni chawsant eu rheoli yn y canol, ond maent bellach eu dwyn i'r canol o ran cyfrifoldebau cyllidebol. Fodd bynnag, o ran ein gwariant yn y maes hwn, mae hynny hefyd yn ymateb i'r broses o ddatblygu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyffredinol, nid yn unig o ran recriwtio a sicrhau ein bod yn cydymffurfio ag egwyddorion cyfle cyfartal, ond hefyd o ran gweithio tuag at ostwng nifer yr hysbysebion recriwtio. Mae'r nifer wedi gostwng, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, tua 14 y cant o ganlyniad i dulliau gwahanol o recriwtio, megis defnyddio canolfannau gwaith a gwefannau.

Datganiad Busnes Diwygiedig Revised Business Statement

The Business Minister (Jane Hutt): I present a revised business statement in accordance with Standing Orders Nos. 5.4 and 5.5. The draft statement can be found on the Chamberweb under 'supporting documents'.

Y Llywydd: A oes unrhyw wrthwynebiadau i'r datganiad busnes diwygiedig? Gwelaf nad oes. Yr wyf yn gwahodd sylwadau ar y datganiad busnes diwygiedig.

Lisa Francis: The Conservative group welcomes your redrafted business statement, Minister, and we are happy to support it. We look forward to a debate on arts policy in the next three weeks.

Rhodri Glyn Thomas: Yr ydym yn gwerthfawrogi eich bod wedi ystyried y sylwadau a wnaethpwyd gan y gwrthbleidiau, a'ch bod wedi cytuno i'r ddadl hon am ddyfodol cyngor y celfyddydau. Mae'n ddadl bwysig, ac yr ydym yn falch bod cyfle i'w chynnal a hefyd i bleidleisio ar y mater.

Kirsty Williams: Thank you for your attitude and for listening to the comments made by the opposition parties about accommodating the arts debate in your statement.

The Business Minister (Jane Hutt): The Minister for Culture, Welsh Language and Sport is looking forward to the Government debate on the arts policy on 1 February.

*Derbyniwyd y datganiad busnes diwygiedig.
Revised business statement adopted.*

Datganiad am Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad yr Arolwg o Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol—Safon 2: Cyfranogiad y Defnyddwyr a'r Gofalwyr Statement on the Welsh Assembly Government's Response to the Health and Social Services Committee's Report Review of the National Service Framework for Mental Health—Standard 2: User and Carer Participation

The Minister for Health and Social Services (Brian Gibbons): In October 2005, the Health and Social Services Committee

Y Trefnydd (Jane Hutt): Cyflwynaf ddatganiad busnes diwygiedig yn unol â Rheolau Sefydlog Rhifau 5.4 a 5.5. Ceir copi o'r datganiad drafft ar we'r Siambr o dan 'dogfennau ategol'.

The Presiding Officer: Are there any objections to the revised business statement? I see that there are not. I invite comments on the revised business statement.

Lisa Francis: Mae'r grŵp Ceidwadol yn croesawu eich datganiad busnes ar ei newydd wedd, Weinidog, ac yr ydym yn fwy na pharod i'w gefnogi. Edrychwn ymlaen at ddadl ar bolisi'r celfyddydau yn ystod y tair wythnos nesaf.

Rhodri Glyn Thomas: We appreciate that you have given consideration to the comments by the opposition parties, and that you have agreed to the debate on the future of the arts council. It is an important debate, and we are pleased that there will be an opportunity to hold it and also to vote on the issue.

Kirsty Williams: Diolch ichi am eich agwedd ac am wrando ar sylwadau'r gwrthbleidiau ynghylch cynnwys y ddadl ar y celfyddydau yn eich datganiad.

Y Trefnydd (Jane Hutt): Mae'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon yn edrych ymlaen at ddadl y Llywodraeth ar bolisi'r celfyddydau ar 1 Chwefror.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons): Ym mis Hydref 2005, cyhoeddodd y Pwyllgor Iechyd a

published its review of the mental health national service framework standard 2, which relates to service user and carer participation in planning and delivering mental health services.

As part of the review, the committee consulted with mental health service users and carers as well as with service providers and commissioners. It particularly wanted to receive evidence on what 'full' and 'genuine' participation means to people and to organisations, and it asked what barriers there are and how these barriers can be overcome.

The committee has made 12 recommendations, all of which I have accepted in full or in part, and my detailed response to each of these recommendations was given in a written statement, which I made to Assembly Members on 6 December 2005.

I thank the Health and Social Services Committee for highlighting the important issue of how best to ensure that people who use our mental health services are fully involved in how those services are planned and delivered, and have a genuine voice in shaping and improving services across Wales.

The report highlights many excellent examples of good practice that are already taking place throughout Wales, and I will ensure that these are widely promoted across services. During the committee's public consultation on user and carer involvement, the Assembly Government published 'Stronger in Partnership'. This sets out to provide advice and information on how effectively to involve people who use mental health services and their carers in the design, planning, delivery and evaluation of these services. The guidance states clearly our view that service user and carer involvement is not a one-off intervention or a discrete piece of work, but a far broader and more empowering way of working, which should be an integral part of every aspect of mental health design, commissioning and provision.

Gwasanaethau Cymdeithasol ei arolwg o'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer iechyd meddwl safon 2, sy'n ymwneud â chyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn y gwaith o gynllunio a chyflwyno gwasanaethau iechyd meddwl.

Fel rhan o'r arolwg, ymgynghorodd y pwyllgor â defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl a gofalwyr yn ogystal â darparwyr a chomisiynwyr gwasanaethau. Yr oedd yn arbennig o awyddus i gael tystiolaeth ar yr hyn y mae cyfranogiad 'llawn' a 'dilys' yn ei olygu i bobl ac i sefydliadau, a gofynnodd pa rwystrau sydd yna a sut y gellir goresgyn y rhwystrau hyn.

Gwnaeth y pwyllgor 12 o argymhellion ac yr wyf wedi derbyn pob un yn llwyr neu'n rhannol. Rhoddais fy ymateb manwl i bob un o'r argymhellion hyn mewn datganiad ysgrifenedig a wneuthum i Aelodau'r Cynulliad ar 6 Rhagfyr 2005.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am dynnu sylw at fater pwysig, sef sut orau i sicrhau y caiff pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau iechyd meddwl eu cynnwys yn llawn yn y broses o gynllunio a chyflwyno'r gwasanaethau hynny, a sut y gallant gael llais gwirioneddol yn y broses o lunio a gwella gwasanaethau ledled Cymru.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at lawer enghraifft ardderchog o arfer da sydd eisoes ar waith ledled Cymru, a bydaf yn sicrhau y caiff yr enghreifftiau hyn eu hyrwyddo'n eang ar draws y gwasanaethau. Yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus y pwyllgor ar gyfranogiad defnyddwyr a gofalwyr, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad 'Nerth mewn Partneriaeth'. Nod y ddogfen hon yw rhoi cyngor a gwybodaeth ar y modd i gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl a'u gofalwyr yn effeithiol wrth ddylunio, cynllunio, cyflwyno a gwerthuso'r gwasanaethau hyn. Mae'r canllawiau'n datgan yn glir ein barn nad ymyriad unigol na darn o waith penodol yw'r broses o gynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, ond ffordd lawer ehangach a phwerus o weithio, a ddylai fod yn rhan annatod o bob agwedd ar y broses o ddylunio, comisiynu a darparu gwasanaethau iechyd meddwl.

I am pleased that the committee has commended 'Stronger in Partnership' as a comprehensive and practical tool for service providers, users and carers, and it has taken the view that the implementation of the guidance will enhance the health and quality of care for both service users and carers.

The committee made recommendations about improving training for statutory services, the appointment of user involvement development officers, improvements to care planning arrangements and ensuring that children and young people are treated in an appropriate environment, all of which I fully support. I have fully accepted 10 of the committee's recommendations and accepted two in part, both of which I believe require further work by Assembly Government officials.

Recommendation 10 is that service users should be involved in the recruitment of staff at all levels. I accept the principle of this recommendation and will give it further detailed consideration.

A successful pilot project was carried out across north Glamorgan and Pontypridd and Rhondda NHS trusts to develop service user involvement in the recruitment of mental health nurses. We need to have further discussions with human resource specialists and to have wider consultation before considering whether to make this a mandatory requirement.

Recommendation 12 is about an award scheme to be considered, which would celebrate and publicise cases in which people have successfully overcome mental illness. I have asked the Assembly's public health improvement division to consider this idea in detail as part of its wider mental health promotion action plan, which is being developed.

3.40 p.m.

For too long, mental health services throughout Wales have not received the attention that they deserve. In October last year, three separate mental health reports

Yr wyf yn falch fod y pwyllgor wedi cymeradwyo 'Nerth mewn Partneriaeth' fel dogfen gynhwysfawr ac ymarferol i ddarparwyr gwasanaethau, defnyddwyr a gofalywyr. Y mae o'r farn y bydd y broses o weithredu'r canllawiau yn gwella iechyd ac ansawdd y gofal a gaiff defnyddwyr gwasanaethau a gofalywyr fel ei gilydd.

Gwnaeth y pwyllgor argymhellion ynghylch gwella hyfforddiant ar gyfer gwasanaethau statudol, penodi swyddogion datblygu cyfranogiad defnyddwyr, gwelliannau mewn trefniadau cynllunio gofal, a sicrhau y caiff plant a phobl ifanc eu trin mewn amgylchedd priodol. Yr wyf finnau'n gadarn o blaid yr holl argymhellion hyn. Yr wyf wedi derbyn 10 o argymhellion y pwyllgor yn llawn ac wedi derbyn dau yn rhannol. Yn fy marn i, mae angen i swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wneud gwaith pellach ar y ddau hynny.

Argymhelliad 10 yw y dylid cynnwys defnyddwyr gwasanaethau wrth recriwtio staff ar bob lefel. Yr wyf yn derbyn egwyddor yr argymhelliad hwn, a byddaf yn ei ystyried ymhellach yn fanwl.

Cynhaliwyd prosiect peilot llwyddiannus gan ymddiriedolaeth GIG gogledd Morgannwg ac ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a Rhondda i ddatblygu proses o gynnwys defnyddwyr gwasanaethau wrth recriwtio nyrsys iechyd meddwl. Mae angen inni gael trafodaethau pellach gydag arbenigwyr adnoddau dynol ac ymgynghori'n ehangach cyn ystyried a ddylid gwneud hyn yn ofyniad gorfodol.

Mae argymhelliad 12 yn ymwneud â chynllun gwobrwyo i'w ystyried, a fyddai'n dathlu achosion lle mae pobl wedi llwyddo i drechu salwch meddwl ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r achosion hynny. Yr wyf wedi gofyn i isadran y Cynulliad ar wella iechyd y cyhoedd ystyried y syniad hwn yn fanwl fel rhan o'i chynllun gweithredu ehangach ar hybu iechyd meddwl sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Ers yn rhy hir, nid ywd gwasanaethau iechyd meddwl ledled Cymru wedi cael y sylw y maent yn ei haeddu. Ym mis Hydref y llynedd, cyhoeddwyd tri adroddiad iechyd meddwl ar

commissioned by the Assembly Government were published, highlighting the fact that there is still much work to be done to improve mental health services across Wales. We have taken on board the issues raised in these reports in the revised mental health national service framework and action plan that we published on World Mental Health Day in October.

The Wales Audit Office's detailed and comprehensive baseline review found that in many parts of Wales there has been positive progress in encouraging genuine service user and carer participation. However, it also pointed out that the picture across Wales is variable and that good practice needs to be more widely spread. We will ensure that this happens.

Service users are experts in their own experience, and they have a good knowledge of mental health services and of living with a mental health condition. No matter how well trained or well qualified someone else is, they cannot have the same experience of the onset of mental illness and the same journey through the mental health system. Service user and carer groups have a unique body of knowledge, and it is important that service providers and commissioners use this knowledge and work with users and carers to develop and improve services.

The committee's report makes an important contribution to our plans to raise the standards of mental health services and to give people with mental health problems the service to which they are entitled.

Helen Mary Jones: I thank you for your positive response to the committee's recommendations, Minister. I am sure that that is something that we all welcome. However, I am sure that you will also understand that, among service users and their carers, there is a certain amount of scepticism, because we have heard these very positive words before, and the Minister himself acknowledged in his statement that not enough action has been taken.

wahân wedi eu comisiynu gan Lywodraeth y Cynulliad. Yr oeddent yn tynnu sylw at y ffaith bod llawer o waith i'w wneud eto i wella gwasanaethau iechyd meddwl ledled Cymru. Yr ydym wedi ystyried y materion a godwyd yn yr adroddiadau hyn yn y fframwaith gwasanaeth a'r cynllun gweithredu cenedlaethol diwygiedig ar gyfer iechyd meddwl a gyhoeddwyd gennym ar Ddiwrnod Iechyd Meddwl y Byd ym mis Hydref.

Yr oedd adolygiad sylfaenol manwl a chynhwysfawr Swyddfa Archwilio Cymru yn gweld bod cynnydd cadarnhaol mewn llawer rhan o Gymru wrth annog cyfranogiad dilys gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Fodd bynnag, yr oedd hefyd yn dangos bod y darlun ledled Cymru yn amrywio a bod angen lledaenu arfer da yn ehangach. Byddwn yn sicrhau y caiff hyn yn digwydd.

Mae defnyddwyr gwasanaethau yn arbenigwyr yn rhinwedd eu profiad eu hunain, ac mae ganddynt wybodaeth fanwl am wasanaethau iechyd meddwl ac am fyw gyda chyflwr iechyd meddwl. Waeth faint o hyfforddiant neu gymwysterau sydd gan rywun arall, ni all fod gan hwnnw neu honno yr un profiad o ddechrau salwch meddwl a'r un daith drwy'r system iechyd meddwl. Mae grwpiau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn meddu ar gorff unigryw o wybodaeth, ac mae'n bwysig i ddarparwyr a chomisiynwyr gwasanaethau ddefnyddio'r wybodaeth honno a gweithio gyda defnyddwyr a gofalwyr i ddatblygu a gwella gwasanaethau.

Mae adroddiad y pwyllgor yn gwneud cyfraniad pwysig i'n cynlluniau i godi safonau gwasanaethau iechyd meddwl, ac i roi i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl y gwasanaeth y mae ganddynt hawl iddo.

Helen Mary Jones: Diolch ichi am eich ymateb cadarnhaol i argymhellion y pwyllgor, Weinidog. Yr wyf yn siŵr ein bod i gyd yn croesawu hynny. Fodd bynnag, yr wyf yn siŵr y byddwch hefyd yn deall bod rhai amheuan ymhlith defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr, gan ein bod wedi clywed y geiriau cadarnhaol iawn hyn o'r blaen, ac yr oedd y Gweinidog ei hun yn cydnabod yn ei ddatganiad nad oes digon wedi ei wneud.

I have some specific questions about the implementation of the recommendations. With regard to implementing recommendation 1 on training, will you ensure that the training is mandatory across public services, and that it is delivered by accredited disability equality trainers? We are all aware that there is a variable market in training, and we must ensure that if the training is to be mandatory it is of the highest possible quality.

What will you do with the Minister for Economic Development and Transport and the Minister for Education and Lifelong Learning to ensure that people who have suffered from mental health problems in the past get the support that they need to return to employment, and that they receive support so that they are able to keep their jobs once they return to work?

With regard to tackling stigma, will you consider asking the Minister for Education and Lifelong Learning to build into the personal and social education training for young people comprehensive disability equality training, so that we can begin to tackle prejudice and stigma before they become entrenched?

On recommendation 10, I understand your somewhat cautious approach. However, I urge you to implement it fully eventually. Indeed, I would go further and say that service users should have a role not only in recruiting staff, but in managing them and ensuring that their performance is appropriate. I realise that this presents challenges, but it can have enormous benefits, as the pilot project that you mentioned has demonstrated. As well as having further discussions with human resources specialists, who may have one perspective on this, I urge you to have further discussions with groups representing users and carers which may be able to balance the perspective that you get from the HR specialists.

Finally, will you give us an assurance that all the actions that you have committed yourself to undertaking as a result of the report will be adequately resourced, and that it will be a priority to drive them forward across the

Mae gennyf rai cwestiynau penodol ynglŷn â gweithredu'r argymhellion hyn. O ran gweithredu argymhelliad 1 ar hyfforddiant, a fyddwch yn sicrhau bod yr hyfforddiant yn orfodol ar draws pob gwasanaeth cyhoeddus, ac y caiff ei ddarparu gan hyfforddwyr achrededig ym maes cydraddoldeb i bobl anabl? Yr ydym oll yn ymwybodol fod y farchnad hyfforddiant yn amrywio, a rhaid inni sicrhau, os yw'r hyfforddiant yn orfodol, ei fod o'r safon orau sy'n bosibl.

Beth fyddwch chi'n ei wneud gyda'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth a'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes i sicrhau y bydd pobl sydd wedi dioddef problemau iechyd meddwl yn y gorffennol yn cael y gefnogaeth y mae arnynt ei hangen er mwyn dychwelyd i waith, ac y cânt gefnogaeth er mwyn iddynt allu cadw eu swyddi ar ôl dychwelyd i gwaith?

O ran mynd i'r afael â stigma, a ystyriwch ofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes gynnwys hyfforddiant cynhwysfawr ym maes cydraddoldeb i bobl anabl fel rhan o'r hyfforddiant addysg bersonol a chymdeithasol i bobl ifanc, er mwyn inni allu dechrau mynd i'r afael â rhagfarn a stigma cyn iddynt ymsefydlu?

O ran argymhelliad 10, gallaf ddeall eich ymagwedd ofalus. Fodd bynnag, fe'ch anogaf i'w weithredu yn llawn yn y pen draw. Yn wir, awn ymhellach a dweud y dylai fod gan ddefnyddwyr gwasanaethau ran i'w chwarae nid yn unig wrth recriwtio staff, ond hefyd wrth eu rheoli a sicrhau bod eu perfformiad yn briodol. Sylweddolaf fod hyn yn her, ond gall olygu buddiannau enfawr, fel y gwelwyd yn y prosiect peilot yr oeddech yn sôn amdano. Yn ogystal â chael trafodaethau pellach gydag arbenigwyr adnoddau dynol, a allai gyflwyno un safbwynt ar hyn, fe'ch anogaf i gael trafodaethau pellach gyda grwpiau sy'n cynrychioli defnyddwyr a gofawyr. Efallai y gallant hwy gydbwyso'r safbwynt a gewch gan yr arbenigwyr adnoddau dynol.

Yn olaf, a roddwch sicrwydd inni y bydd digon o adnoddau ar gael ar gyfer yr holl gamau gweithredu yr ydych wedi ymrwymo i'w cyflawni o ganlyniad i'r adroddiad, ac y rhoddir blaenoriaeth i'r gwaith o'u cyflwyno ar draws y

sector? You have acknowledged that that has not been done in the past, and we need to ensure that, more than warm words, we get concrete action.

Brian Gibbons: Thank you for those generally supportive comments. You are right. One of the big developments in the health service over recent years, and certainly since the last national service framework was published, has been the development of a greater level of critical self-awareness in the national health service in Wales, and a greater willingness to look at its performance. My predecessor established the National Leadership and Innovation Agency for Healthcare precisely to disseminate best practice, to look at where best practice exists in and outside Wales, and to bring this to the attention of service providers.

One of the most heartening meetings that I have been to took place four or five months ago in Cardiff, when mental health nurses put on a display of the innovative work that they are doing. It surprised me that there were tens of submissions from across virtually every trust in Wales, showing the type of creative and imaginative work that mental health nurses are doing in delivering improved services. They are very much a key part of the team of deliverers and give good, professional leadership. There is a new culture, we have new structures, the professionals want to learn and are interested in disseminating good practice and the only challenge for us as an Assembly is to facilitate that. The impetus is there.

You are right about ensuring that people using mental health services are able to engage in society as full citizens. One of the things that the previous national service framework did was to move mental health services away from the narrow, strictly medical model towards a much wider social model. We have been pretty successful in creating the culture to deliver that. This is evidenced, for example, by the Objective 1 project, Want2Work. If you familiarise yourself with the Want2Work scheme, you will see that particular emphasis is placed on engaging with mental health patients. That is important because it is not just about the rights of people who suffer from mental

sector? Yr ydych wedi cydnabod na wnaed hynny yn y gorffennol, ac mae angen inni sicrhau y gwelwn gamau gweithredu pendant yn hytrach na geiriau cysurlon.

Brian Gibbons: Diolch am y sylwadau cyffredinol gefnogol. Yr ydych yn iawn. Un o'r datblygiadau mawr yn y gwasanaeth iechyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac yn sicr ers cyhoeddi'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol diwethaf, fu'r ymdrech i ddatblygu lefel uwch o hunan-ymwybyddiaeth feirniadol yn y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru, a mwy o barodrwydd i edrych ar ei berfformiad. Sefydlodd fy rhagflaenydd yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd gyda'r union fwriad o ledaenu arfer da, o edrych y manau lle mae arfer gorau yng Nghymru a thu hwnt, ac o ddod â hyn i sylw darparwyr gwasanaethau.

Cafwyd un o'r cyfarfodydd mwyaf calonogol imi fod ynddo ryw bedwar neu bum mis yn ôl yng Nghaerdydd, pan gafwyd arddangosfa gan nyrsys iechyd meddwl o'r gwaith arloesol y maent yn ei wneud. Synnais weld degau o gyflwyniadau o bob ymddiriedolaeth yng Nghymru bron, yn dangos y math o waith creadigol a llawn dychymyg a wneir gan nyrsys iechyd meddwl wrth ddarparu gwasanaethau gwell. Maent yn rhan allweddol iawn o'r tîm o bobl sy'n darparu'r gwasanaethau hyn, ac y maent yn rhoi arweiniad proffesiynol da. Mae yma ddiwylliant newydd, mae gennym strwythurau newydd, mae'r gweithwyr proffesiynol am ddysgu, ac maent yn awyddus i rannu arfer da. Yr unig her inni fel Cynulliad yw hwyluso hynny. Mae'r ysgogiad yno.

Yr ydych yn llygad eich lle ynghylch sicrhau bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl yn gallu ymgysylltu â chymdeithas fel dinasyddion llawn. Un o'r pethau a wnaeth y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol blaenorol oedd symud gwasanaethau iechyd meddwl oddi wrth y model meddygol, cul tuag at fodol cymdeithasol llawer ehangach. Buom yn ddigon llwyddiannus yn creu'r diwylliant i sicrhau hynny. Ceir tystiolaeth o hyn, er enghraifft, yn y prosiect Amcan 1, Yn Awyddus i Weithio. Os ydych yn gyfarwydd â'r cynllun Yn Awyddus i Weithio, fe welwch y bod pwyslais arbennig ar ymgysylltu â chleifion iechyd meddwl. Mae hynny'n bwysig, oherwydd yn ogystal â'r ffaith ei fod yn ymwneud â hawliau pobl sydd â

illnesses as citizens, it is also about therapeutically being able to engage with the world of work. Being able to engage in learning and training is good for all of us as citizens but it is particularly therapeutic for people who are suffering from mental illness. It is a win for everybody. Even in the wider economic context, being able to use the skills and knowledge of people with mental illness will contribute to the national wealth of Wales.

Assembly officials are developing an action plan on dealing with stigma. I do not know whether the personal and social development part of the curriculum in schools includes reference to that, but it is a good suggestion and I will take it away. I am not sure that children necessarily have entrenched prejudicial views; I am sure that they learn them from others. Challenging the learning that gives them these misconceived ideas is also an important point to consider.

I am glad that you recognise that there are some practical difficulties in including service users in the appointment process, but we would like to see this developed more fully. On service users being engaged in management, the reviews that took place last year on mental health services acknowledged that service users were fairly well involved in policy development, but there was criticism of delivery at local level. That was one of the messages that came from the reviews that took place and we have to address it.

On the resources, we have committed an extra £5 million to further develop the revised national service framework and the action plan. If you look at several of the reviews that inspired us to re-examine the national service framework and to find extra resources, one of the challenges that they mentioned was that it is not just a case of resources; it is a case of looking at existing practice and at the existing balance of service provision. If we can rise to that challenge, not just in terms of resources, but in terms of looking at the way we deliver services, the quality of services will improve.

salwch meddwl fel dinasyddion, mae hefyd yn ymwneud â gallu ymgysylltu â byd gwaith drwy gyfrwng therapi. Mae gallu ymgysylltu â dysgu a hyfforddiant yn dda i bob un ohonom fel dinasyddion, ond mae'n arbennig o therapiwtig i bobl sydd â salwch meddwl. Mae pawb ar ei ennill. Hyd yn oed yn y cyd-destun economaidd ehangach, bydd gallu defnyddio sgiliau a gwybodaeth pobl sydd â salwch meddwl yn cyfrannu at gyfoeth cenedlaethol Cymru.

Mae swyddogion y Cynulliad yn datblygu cynllun gweithredu ar fynd i'r afael â stigma. Ni wn a yw'r rhan honno o'r cwricwlwm sy'n ymwneud â datblygiad personol a chymdeithasol mewn ysgolion yn cynnwys cyfeiriadau at hynny, ond mae'n awgrym da a byddaf yn ei ystyried. Nid wyf yn siŵr a oes gan blant, o reidrwydd, safbwyntiau sylfaenol ragfarnllyd; yr wyf yn siŵr eu bod yn eu dysgu gan eraill. Mae herio'r dysgu sy'n trosglwyddo'r syniadau anghywir hyn iddynt hefyd yn bwynt pwysig i'w ystyried.

Yr wyf yn falch eich bod yn cydnabod bod rhai anawsterau ymarferol wrth gynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn y broses benodi, ond byddem yn dymuno gweld yr elfen hon yn cael ei datblygu'n llawnach. O ran cynnwys defnyddwyr gwasanaethau ym maes rheoli, cydnabu'r adolygiadau a wnaed y llynedd o wasanaethau iechyd meddwl fod defnyddwyr gwasanaethau wedi'u cynnwys yn gymharol dda ym maes datblygu polisi. Ond yr oedd beirmiadaeth o'r darparu ar lefel leol. Dyna oedd un o'r negeseuon a ddeilliodd o'r adolygiadau a wnaed, a rhaid inni fynd i'r afael â hynny.

O ran yr adnoddau, yr ydym wedi ymrwymo £5 miliwn ychwanegol i ddatblygu ymhellach y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol diwygiedig a'r cynllun gweithredu. Os edrychwech ar nifer o'r adolygiadau a'n hysgogodd i ailedrych ar y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ac i ddod o hyd i adnoddau ychwanegol, un her a grybwyllwyd ganddynt oedd y ffaith nad mater o adnoddau ychwanegol yn unig ydoedd; mater ydyw o edrych ar arferion cyfredol a'r cydbwysedd presennol o ran darparu gwasanaethau. Os gallwn ymateb i'r her honno, nid yn unig o ran adnoddau, ond o ran edrych ar y modd yr ydym yn darparu gwasanaethau, bydd ansawdd y gwasanaethau'n gwella.

Jonathan Morgan: I start by welcoming the statement and thanking you for accepting the recommendations. When you undertake a review of this nature, it is always refreshing when Ministers are willing to not only engage in the review but accept what the committee has recommended, and I think that we can all sign up to this.

3.50 p.m.

In terms of implementating the recommendations, particularly referring, as Helen Mary Jones did, to recommendations 10 and 12, I am pleased that you wish to take this work further. On recommendation 12, the important point is that it is important that we get over this hurdle and recognise that people who have experienced problems with mental illness are simply people who have suffered a particularly difficult period in their lives. Many such people are fully capable of being engaged in the sorts of appointment processes that we will now be considering. We have to get across to NHS trusts and local health boards the message that we dealing with groups of people many of whom are capable of engaging in this sort of process. They are merely people who have gone through a difficult period, which has led to a particular illness. I look forward to that work being developed.

Also on recommendation 12, in terms of people who have overcome a particular illness, and are therefore congratulated on and recognised for that achievement, we must accept that stigma exists. The more that we can highlight those who have overcome their particular difficulties and use them as best practice examples, the more we will help those further down the line who have yet to overcome their particular mental illnesses. I look forward to seeing a timetable, if possible, in which you set out when you hope to be able to introduce a scheme, as suggested by the committee.

I wish to raise one concern with you, namely the difference between policy and practice. There is much good intention in this committee report, but sometimes the practice is different. A particular problem regarding the employment opportunities centre at Whitchurch Hospital was brought to my

Jonathan Morgan: Dechreuaf drwy goesawu'r datganiad a diolch ichi am dderbyn yr argymhellion. Wrth ymgymryd ag adolygiad o'r math hwn, mae hi bob amser yn galonogol pan fydd Gweinidogion nid yn unig yn barod i ymgysylltu â'r adolygiad, ond hefyd yn barod i dderbyn yr hyn ar argymhellwyd gan y pwyllgor, a chredaf y gallwn oll goleddu hyn.

O ran gweithredu'r argymhellion, gan gyfeirio'n benodol, fel y gwnaeth Helen Mary Jones, at argymhellion 10 a 12, yr wyf yn falch eich bod yn dymuno datblygu'r gwaith hwn. Ynglŷn ag argymhelliad 12, y pwynt pwysig yw ei bod yn bwysig inni oresgyn y rhwystr hwn a chydabod mai pobl sydd wedi dioddef cyfnod arbennig o anodd yn eu bywydau, yn syml, yw pobl sydd wedi cael problemau salwch meddwl. Mae nifer ohonynt yn ddigon abl i fod ymwneud â'r mathau o brosesau penodi y byddwn yn awr yn eu hystyried. Rhaid inni gyfleu'r neges wrth ymddiriedolaethau GIG a byrddau iechyd lleol ein bod yn ymdrin â grwpiau o bobl a nifer ohonynt yn ddigon abl i ymwneud â'r math hwn o broses. Pobl ydynt sydd wedi cael cyfnod anodd sydd wedi arwain at salwch penodol. Edrychaf ymlaen at weld y gwaith yn cael ei ddatblygu.

Hefyd o ran argymhelliad 12, yng nghyd-destun pobl sydd wedi goresgyn salwch penodol, ac sy'n cael eu llongyfarch a'u cydnabod am y llwyddiant hwnnw, rhaid inni dderbyn bod yna stigma. Po fwyaf y gallwn ddwyn sylw at y rheini sydd wedi goresgyn eu hanawsterau penodol a'u defnyddio fel enghreifftiau o arfer gorau, y mwyaf y byddwn yn helpu'r rheini nad ydynt eto wedi goresgyn eu salwch meddwl penodol hwy. Edrychaf ymlaen at weld amserlen, os yw'n bosibl, lle byddwch yn nodi pryd yr ydych yn gobeithio gallu cyflwyno cynllun, fel yr awgrymwyd gan y pwyllgor.

Dymunaf fynegi un pryder i chi, sef y gwahaniaeth rhwng polisi ac arfer. Mae llawer o fwriad da yn yr adroddiad pwyllgor hwn, ond weithiau mae'r arfer yn wahanol. Tynnwyd fy sylw yr wythnos hon at broblem benodol yn ymwneud â'r ganolfan cyfleoedd cyflogaeth yn Ysbyty'r Eglwys Newydd. Mae'r ganolfan yn

attention this week. The centre provides opportunities for patients to undertake particular items of work. I understand that it is due to close in March, and I have been told that this has not been subject to consultation. Patients have not been consulted about it, and apparently neither have staff and carers. I raise this as a particular example—I am not asking you to intervene at this point—because, on page 11 of the report, we talk about the involvement in this process of NHS trusts, and, in particular, providing training for users and carers on consultation, and about early consultation on proposed changes. NHS trusts and LHBs have to be aware of this, because, otherwise, changes such as that which I have outlined will take place without the necessary consultation. How will you ensure that this policy is put into practice? What levers will you use and what directions can you give to ensure that trusts and LHBs adhere to what you are signing up to in this particular report?

On funding, more detailed analysis of the funding that is needed is necessary. I accept that you have provided additional funding of £5 million. Will you indicate how that is being allocated to NHS trusts and LHBs? How will that resource be used to strengthen the work of community mental health teams? Many practitioners in those teams believe that they are part of a cinderella service. As you know from the evidence that we heard in committee, many carers and service users felt that those assigned to look after patients were too busy with caseload management. It is difficult for professionals to spend long periods of time working with carers and users, simply because their caseloads are so enormous. There are practical considerations regarding how we get over that hurdle in order to ensure that caseworkers have appropriate amounts of time in which to look after people with mental illnesses and give them due consideration. Otherwise, we will continue to see those who work in CMHTs being bogged down with casework. That has a huge budgetary consequence, and I do not necessarily think that the £5 million that you have allocated will cover that.

cynnig cyfleoedd i gleifion ymgymryd â thasgau gwaith penodol. Deallaf y bwriedir ei chau ym mis Mawrth, ac yr wyf ar ddeall na fu ymgynghori am y mater. Nid ymgynghorwyd â'r cleifion, ac yn ôl pob tebyg nid ymgynghorwyd ychwaith â staff a gofalwyr. Yr wyf yn codi hyn fel enghraifft benodol—nid wyf yn gofyn ichi ymyrryd ar hyn o bryd—oherwydd, ar dudalen 11 yn yr adroddiad, yr ydym yn sôn am gynnwys ymddiriedolaethau'r GIG yn y broses hon, ac yn arbennig am ddarparu hyfforddiant i ddefnyddwyr a gofalwyr ar ymgynghori, ac am ymgynghori cynnar ar newidiadau a gynigir. Rhaid i ymddiriedolaethau'r GIG a BIL fod yn ymwybodol o hyn, oherwydd bydd newidiadau tebyg i'r rhai a amlinellwyd gennyf yn digwydd heb yr ymgynghori angenrheidiol. Sut byddwch yn sicrhau gweithredu'r polisi hwn? Pa dulliau y byddwch yn eu defnyddio, a pha gyfarwyddiadau y gallwch eu rhoi i sicrhau y bydd ymddiriedolaethau a BIL yn glynu at yr hyn yr ydych yn ei arddel yn yr adroddiad penodol hwn?

O ran ariannu, mae angen dadansoddiad manylach o'r ariannu angenrheidiol. Derbyniaf eich bod wedi darparu arian ychwanegol o £5 miliwn. A ddywedwch sut y caiff yr arian hwnnw ei ddyrannu i ymddiriedolaethau GIG a BIL? Sut y caiff yr adnodd hwnnw ei ddefnyddio i gryfhau gwaith y timau iechyd meddwl cymunedol? Mae nifer yr ymarferwyr yn y timau hynny o'r farn eu bod yn rhan o wasanaeth sinderela. Fel y gwyddoch o'r dystiolaeth a glywsom yn y pwyllgor, yr oedd nifer o ofalwyr a defnyddwyr gwasanaethau o'r farn fod y rheini a benodwyd i ofalu am gleifion yn rhy brysur gyda'r gwaith o reoli llwyth achosion. Mae'n anodd i weithwyr proffesiynol dreulio cyfnodau hir yn gweithio gyda gofalwyr a defnyddwyr, am y rheswm syml bod eu llwythi gwaith yn aruthrol. Mae yna ystyriaethau ymarferol sut yr ydym yn goresgyn y rhwystr hwnnw er mwyn sicrhau y caiff gweithwyr achos amser priodol i ofalu am bobl sydd â salwch meddwl, ac i roi'r ystyriaeth briodol iddynt. Fel arall, byddwn yn dal i weld y rheini sy'n gweithio mewn timau iechyd meddwl cymunedol yn cael eu llethu gan waith achosion. Mae i hynny ganlyniadau cyllidebol aruthrol, ac nid wyf o reidrwydd yn credu y bydd y £5 miliwn a ddyrannwyd gennych yn talu am hynny.

I look forward to monitoring progress in this area. The Assembly has not given this issue a huge amount of political consideration in recent years, but as an Assembly and as Members we could have quite a positive impact on this.

Brian Gibbons: You are quite right that stigma is one of the big bugbears for those who suffer from mental illness in attempting to get back to some sort of normal life. When I read the recommendation that referred to the award scheme, the first thing that occurred to me was that, potentially, a quarter of the population are candidates. That is the proportion of people who suffer from some form of mental illness. At one level, we are all potentially in this position; a quarter of the people sitting in the Chamber are potential candidates for that award. The logistics of how to do this was what worried me, rather than the idea in principle. We have a fairly dynamic voluntary sector and service user sector in Wales, so a possible way to move this forward is to negotiate with that sector to see whether it is practicably possible to do this. However, the big question that occurs to me is on how you draw the limits in terms of who will be eligible. It is a pragmatic issue, rather than one of principle.

Your point on Whitchurch hospital surprises me and I will make inquiries about that, notwithstanding the fact that you are not necessarily asking me to do so at this stage. I visited the new Llanfair unit in Llandough, and the services provided there to engage people in the unit in the world of work and lifelong learning were very much welcomed. If that service is to be withdrawn in the way that you suggest, then clearly that is removing an important therapeutic option and citizens' rights from people with mental illnesses. I will take that away and get some further information on it.

The money will be allocated on the basis of trust bids. In other words, the trusts that will develop proposals in line with the enhanced NSF, or the reviewed NSF for adult mental health services, will make bids against the £5 million to ensure that the money will be focused on delivering the revised NSF. That is how the money will be allocated. However, we need to remember that the proportion of

Edrychaf ymlaen at fonitro cynnydd yn y maes hwn. Nid yw'r Cynulliad wedi rhoi llawer iawn o ystyriaeth wleidyddol i'r pwnc hwn yn y blynyddoedd diwethaf. Ond fel Cynulliad ac fel Aelodau, gallem ddylanwadu arno mewn modd digon cadarnhaol.

Brian Gibbons: Yr ydych yn llygad eich lle i ddweud mai stigma yw un o gasbethau'r rheini sydd â salwch meddwl wrth iddynt geisio ailafael mewn bywyd normal. Wrth imi ddarllen yr argymhelliad a oedd yn cyfeirio at y cynllun gwobrwyo, y peth cyntaf a'm trawodd oedd fod chwarter y boblogaeth, hwyrach, yn ymgeiswyr. Dyna gyfran y bobl sydd â rhyw fath o salwch meddwl. Ar un lefel, gallem i gyd fod yn y sefyllfa hon; gallai chwarter y bobl sy'n eistedd yn y Siambr fod yn ddarpar ymgeiswyr ar gyfer y wobr honno. Yr hyn a oedd yn fy mhryderu oedd logisteg y broses, yn hytrach nag egwyddor y syniad. Mae gennym sector gwirfoddol a sector defnyddwyr gwasanaethau eithaf deinamig yng Nghymru, felly, dull posibl o symud hwn ymlaen yw trafod gyda'r sector hwnnw i weld a yw'n ymarferol bosibl gwneud hyn. Fodd bynnag, y cwestiwn mawr sy'n codi yw sut yr ydych yn gosod y terfynau o ran pwy fydd yn gymwys. Mater ymarferol ydyw, yn hytrach na mater o egwyddor.

Mae eich pwynt ynglŷn ag ysbyty'r Eglwys Newydd yn fy synnu a byddaf yn gwneud ymholiadau yn ei gylch er nad ydych, o reidrwydd, yn gofyn imi wneud hynny ar hyn o bryd. Ymwelais ag uned newydd Llanfair yn Llandochoau, ac yr oedd croeso mawr i'r gwasanaethau a ddarperir yno i gynnwys pobl yn yr uned ym myd gwaith ac addysg gydol oes. Pe byddai'r gwasanaeth hwnnw'n cael ei ddileu fel yr awgrymwch, yna mae hynny'n amlwg yn dileu dewis therapiwtig pwysig a hawliau dinasyddion pobl sydd â salwch meddwl. Byddaf yn ystyried hynny ac yn gofyn am wybodaeth bellach amdano.

Caiff yr arian ei ddyrannu ar sail ceisiadau gan ymddiriedolaethau. Mewn geiriau eraill, bydd yr ymddiriedolaethau a fydd yn datblygu cynigion yn unol â'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol newydd neu'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol diwygiedig ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl oedolion, yn gwneud cynigion yn erbyn y £5 miliwn i sicrhau y caiff yr arian ei ddefnyddio i gyflawni'r

spend on mental health services is higher in Wales than in England, so clearly one of the challenges for us is not just the amount of money spent or available, but, as I said to Helen Mary, how we spend it.

The time spent with patients is very important. One of the visits I made a few months ago, on the back of the mental health nurses' presentation, was to the unit in Carmarthen hospital. I had to leave the unit at one point because a certain period of the day was allocated to a quiet time, when the people working in the unit could concentrate on engaging in one-to-one conversations with the patients in the unit; everything else stopped. That was a good example of good practice.

In the next round of service and financial framework targets for the service, we are looking at the possibility of developing targets in relation to psychology services in primary care, because we know the importance of psychology services in treating more serious illness. However, there is a great deal of unhappiness and misery in a primary care setting and if psychology services can be made available more effectively at a primary care level and patients can talk to trained professionals at that early stage in their mental illness, then a great deal of further misery and unhappiness could be prevented. So, hopefully, we will be able to include something like that in next year's SAFF target, and that should be very much in line with what you suggest.

4.00 p.m.

Jenny Randerson: While I welcome the fact that you have accepted most of these recommendations, I take you back to the written statement that you referred to with a view to examining the financial position, because my view, when I read the written statement, was that the tendency was for you to have accepted the recommendations of the report without really taking the issues on board; you accepted the recommendations without accepting the financial responsibility

fframwaith gwasanaeth cenedlaethol diwygiedig. Dyna sut y caiff yr arian ei ddyrannu. Fodd bynnag, mae angen inni gofio bod cyfran yr arian a gaiff ei wario ar wasanaethau iechyd meddwl yn uwch yng Nghymru nag yn Lloegr. Felly, un her i ni, yn amlwg, fel y dywedais wrth Helen Mary, yw nid yn unig yr arian a gaiff ei wario neu'r swm sydd ar gael, ond sut yr ydym yn ei wario.

Mae'r amser sy'n cael ei dreulio gyda chleifion yn bwysig iawn. Un o'r ymweliadau a wneuthum ychydig fisoedd yn ôl, yn sgil cyflwyniad y nyrsys iechyd meddwl, oedd â'r uned yn ysbyty Caerfyrddin. Bu'n rhaid imi adael yr uned ar un adeg oherwydd bod cyfnod penodol yn y dydd yn cael ei neilltuo fel amser tawel, pan allai'r bobl sy'n gweithio yn yr uned ganolbwyntio ar ymgysylltu mewn sgysiau wyneb yn wyneb â chleifion yn yr uned; câi popeth arall aros. Yr oedd hynny'n enghraifft dda o arfer da.

Yn y cylch nesaf o dargedau fframwaith gwasanaeth a fframwaith ariannol ar gyfer y gwasanaeth, yr ydym yn edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu targedau yng nghydestun gwasanaeth seicoleg ym maes gofal sylfaenol, oherwydd gwyddom mor bwysig yw gwasanaethau seicoleg wrth drin salwch mwy difrifol. Fodd bynnag, mae cryn anhapusrwydd a diflastod ym maes gofal sylfaenol, ac os gellir darparu gwasanaethau seicoleg yn fwy effeithiol ar lefel gofal sylfaenol, ac os gall cleifion siarad â gweithwyr proffesiynol wedi eu hyfforddi yn gynnar yn ystod eu salwch meddwl, yna gellid osgoi llawer iawn o ddiflastod ac anhapusrwydd pellach. Felly, gobeithio y gallwn gynnwys rhywbeth tebyg i hynny yn nharged fframwaith gwasanaeth a chyllid y flwyddyn nesaf, a dylai hynny fod yn gydnaws â'r hyn a awgrymwyd.

Jenny Randerson: Er fy mod yn croesawu'r ffaith eich bod wedi derbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion hyn, af â chi'n ôl at y datganiad ysgrifenedig y cyfeirich ato, gyda'r bwriad o edrych ar y sefyllfa ariannol. Oherwydd fy marn i wrth imi ddarllen y datganiad ysgrifenedig oedd bod tuedd ichi fod wedi derbyn argymhellion yr adroddiad heb roi ystyriaeth wirioneddol i'r materion; yr oeddech yn derbyn yr argymhellion heb dderbyn y cyfrifoldeb ariannol drostynt. Mewn gormod o

for them. In too many cases there was simply the phrase ‘trusts and local health boards will have to manage this within their own resources’. You simply announced another £0.5 million for the user involvement development officers, which was a figure was for the whole of Wales. I will question you on the additional £5 million and the extent to which the recommendations in this report will feature in your requirements when trusts and LHBs bid for this money. Will there be general bids for services? How important are these recommendations as criteria to decide whether the LHBs get the money?

My second point relates to the timescale. I fully understand your reasons for needing to consider a couple of the recommendations at greater length, but one of the concerns that I have about health issues in general relates to the number of announcements that are followed by a year or 18 months—several years in some cases—before any real action is taken. This has been the historical pattern. You are building upon three Government reports which were released last October. You are building upon so many things in terms of mental health services. When do you anticipate that you will have done the work in order to be able to make a decision on the outstanding issues from this report?

On the final page of today’s announcement, Minister, it says that the report:

‘also pointed out that the picture across Wales is variable and that the good practice needs to be more widely spread. We will ensure this happens.’

How do you intend to ensure that this happens? Are you considering a move to an all-Wales commissioning strategy, and an all-Wales commissioning authority for mental health services, as has been suggested in some quarters? If you are considering this, perhaps you can inform us when you expect to have made up your mind, when you will make an announcement, and whether you will consult on that proposal.

I will finish by referring to the point made by

achosion dywedwyd yn syml ‘bydd yn rhaid i ymddiriedolaethau a byrddau iechyd lleol reoli hyn o fewn eu hadnoddau eu hunain.’ Y cyfan a wnaethoch oedd cyhoeddi £0.5 miliwn arall ar gyfer y swyddogion datblygu cynnwys defnyddwyr, ac yr oedd hwnnw’n ffigur ar gyfer Cymru gyfan. Fe’ch holaf am y £5 miliwn ychwanegol, ac i ba raddau y bydd yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yn cael eu cynnwys yn eich gofynion pan fydd ymddiriedolaethau a BILlau yn gwneud cais am yr arian hwn. A fydd ceisiadau cyffredinol ar gyfer gwasanaethau? Pa mor bwysig yw’r argymhellion hyn fel meini prawf i benderfynu a fydd y BILl yn cael yr arian?

Mae fy ail bwynt yn ymwneud â’r amserlen. Yr wyf yn deallaf yn iawn eich rhesymau dros yr angen i ystyried rhai o’r argymhellion yn fanylach. Ond mae un o’r pryderon sydd gennyf ynglŷn â materion iechyd yn gyffredinol yn ymwneud â nifer y cyhoeddiadau lle mae blwyddyn neu 18 mis wedi mynd heibio—blynyddoedd lawer mewn rhai achosion—cyn y bydd unrhyw gamau gweithredu go iawn. Dyma fu’r patrwm hanesyddol. Yr ydych yn adeiladu ar dri adroddiad gan y Llywodraeth a ryddhawyd fis Hydref diwethaf. Yr ydych yn adeiladu ar gynifer o bethau o ran gwasanaethau iechyd meddwl. Pryd yr ydych yn rhag-weld y byddwch wedi gwneud y gwaith er mwyn ichi allu gwneud penderfyniad ar y materion yn yr adroddiad hwn nad aethpwyd i’r afael â hwy?

Ar dudalen olaf y cyhoeddiad heddiw, Weinidog, dywedir bod yr adroddiad:

hefyd yn nodi bod y darlun ledled Cymru yn amrywio a bod angen i’r arfer da gael ei ledaenu’n ehangach. Byddwn yn sicrhau bod hyn yn digwydd.

Sut yr ydych yn bwriadu sicrhau bod hyn yn digwydd? A ydych yn ystyried symud tuag at strategaeth gomisiynu i Gymru gyfan, ac awdurdod comisiynu i Gymru gyfan ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, fel yr awgrymwyd gan rai carfanau? Os ydych yn ystyried hyn, efallai y gallwch ddweud wrthym pryd yr ydych yn disgwyl y byddwch wedi dod i benderfyniad, pryd y byddwch yn gwneud cyhoeddiad, ac a fyddwch yn ymgynghori ar y cynnig hwnnw.

Deuaf i ben drwy gyfeirio at y pwynt a wnaed

my colleagues: this report relates to a difficult but important issue for the health services in Wales. The biggest portion of the health budget goes to mental health services. That is widely overlooked and unknown, and reports and opportunities like this are important in enabling us to emphasise to the public, and to each other, the importance of the services provided; they are all too often provided in very difficult circumstances and within stringent financial regimes. That takes me back to the beginning—I fear that many of our mental health services are so greatly overstretched that they will not be able to provide the additional measures encouraged by this report.

Brian Gibbons: On the last points that you raised, it is true that, in many instances, the services are overstretched and, indeed, some of the units that I have visited in the last few months have occupation rates in excess of 100 per cent. However, if you look at the reviews that were undertaken, the conclusion was not that we should necessarily build more units. They pointed out that the reason for the 100 per cent occupation was the lack of a proper supportive structure in terms of community facilities. That is another reason why we are placing particular emphasis in the service and financial framework targets and the priorities for the service over the next 12 and 18 months, for example, on the development of crisis resolution teams in all communities across Wales. We will expect the service to provide that through the reconfiguration of services.

On the £5 million, one benchmark against which that money will be spent is how far it will be a lever or a catalyst to deliver that change. Again, one message that we have had is that people want to change but they do not have the necessary resources to pump-prime change. One purpose of that £5 million is to give that little bit of headroom to pump prime or be a catalyst for change so that the necessary reconfiguration can take place; if that reconfiguration takes place, efficiencies will follow from that.

The fact that we have also announced £75 million as part of the capital budget provides unique opportunities for mental health

gan fy nghyd-Aelodau: mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â mater anodd ond pwysig i'r gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Aiff y gyfran fwyaf o'r gyllideb iechyd i wasanaethau iechyd meddwl. Mae pobl yn anwybyddu hynny'n helaeth ac nid ydynt yn ymwybodol ohono, ac mae adroddiadau a chyfleoedd fel hyn yn bwysig i'n galluogi i bwysleisio wrth y cyhoedd, ac wrthym ni ein gilydd, bwysigrwydd y gwasanaethau a ddarperir; fe'u darperir yn rhy aml mewn amgylchiadau anodd iawn ac o fewn cyfundrefnau ariannol llym. Mae hyn yn mynd â mi yn ôl i'r cychwyn—ofnaf fod llawer o'n gwasanaethau iechyd meddwl yn cael eu gorymestyn gymaint fel na fyddant yn gallu darparu'r mesurau ychwanegol a anogir gan yr adroddiad hwn.

Brian Gibbons: O ran y pwyntiau olaf a godwyd gennych, mae'n wir, mewn llawer achos, fod y gwasanaethau'n cael eu gorymestyn, ac yn wir mae gan rai o'r unedau yr ymwelais â hwy yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf gyfraddau llenwi gwelyau dros 100 y cant. Fodd bynnag, os edrychwch ar yr adolygiadau a wnaed, ni ddaethpwyd i'r casgliad y dylem adeiladu mwy o unedau o reidrwydd. Nodwyd mai'r rheswm dros y gyfradd o 100 y cant oedd diffyg strwythur cynhaliol priodol o ran cyfleusterau cymunedol. Mae hynny'n rheswm arall pam yr ydym yn rhoi pwyslais arbennig yn nhargedau'r fframwaith gwasanaeth a chyllid a'r blaenoriaethau ar gyfer y gwasanaeth dros y 12 a'r 18 mis nesaf, er enghraifft, ar ddatblygu timau datrys argyfwng ym mhob cymuned ledled Cymru. Disgwyliwn i'r gwasanaeth ddarparu hynny drwy ailgyflunio gwasanaethau.

O ran y £5 miliwn, un meincnod a fydd yn pennu sut y caiff yr arian hwnnw ei wario yw'r graddau y bydd yn ysgogydd neu'n gatalydd i gyflawni'r newid hwnnw. Unwaith eto, un neges a gawsom yw'r ffaith bod pobl am weld newid ond nad oes ganddynt yr adnoddau angenrheidiol i ysgogi newid. Un o ddibenion y £5 miliwn hwnnw yw rhoi ychydig gyfle i fod yn ysgogyddneu'n gatalydd ar gyfer newid fel y gellir cyflawni'r ailgyflunio angenrheidiol; os digwydd yr ailgyflunio hwnnw, bydd effeithlonrwydd yn deillio o hynny.

Mae'r ffaith ein bod hefyd wedi cyhoeddi £75 miliwn fel rhan o'r gyllideb cyfalaf yn rhoi cyfleoedd unigryw i wasanaethau iechyd

services to apply for money, because that is an indicative capital allocation for mental health services alone. Therefore, the challenge to the mental health communities across Wales will not be just to put in bids against the £5 million, but also to put in creative and imaginative bids against the £75 million in terms of capital expenditure.

Therefore, I am not at all complacent on the timescale for delivery and how that will be delivered. I know that health professionals have a role, for example, and I mentioned the role that community mental health nurses were playing in terms of service improvement and development. Equally, there is an important improvement network action in mental health, which brings key players in mental health service delivery together on a network basis, so that they can learn from each other. As I mentioned in response to Jonathan, the National Leadership and Innovation Agency for Healthcare has a crucial role in this, and I place great importance on its role in service delivery. It has a key role in terms of innovation, but also in ensuring that routine quality improvement in terms of professional standards and so on takes place. We have performance management, and so on, but, for basic core professional development and leadership, NLIAH is a special organisation being set up precisely to deliver that across the health service in Wales.

Karen Sinclair: I am pleased that you have accepted recommendation 10. At its behest, I went to see a superb facility in my constituency last week, called Advance Brighter Futures. Unfortunately, this fantastic scheme, which we had as an example of good practice in our report, is coming to the end of its lottery funding. It applied for the Community Fund, and expected that not to be accepted, and hoped that 50 per cent of its funding would come from the local authority and the local health board. Unfortunately, because it says that it cannot afford to do its work, there is real worry and indecision about the future of what is a fantastic out-of-hours drop-in facility for people with mental health problems in Wrexham and Clwyd South.

How will you be able to ensure that the local

meddwl wneud cais am arian, am fod hynny'n ddyraniad cyfalaf dangosol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn unig. Felly, nid cyflwyno ceisiadau yn erbyn y £5 miliwn fydd yr unig her i gymunedau iechyd meddwl ledled Cymru, ond cyflwyno ceisiadau creadigol a dychmygus hefyd yn erbyn y £75 miliwn o ran gwariant cyfalaf.

Felly, nid wyf yn hunanfodlon o gwbl am yr amserlen ar gyfer cyflawni a sut y caiff hynny ei gyflawni. Gwn fod gan weithwyr iechyd proffesiynol rôl i'w chwarae, er enghraifft, a chrybwyllais rôl nyrsys iechyd meddwl cymunedol wrth wella gwasanaethau a'u datblygu. Yn yr un modd, mae yna rwydwaith gwella pwysig ym maes iechyd meddwl, sy'n dod ag aelodau allweddol ym maes darparu gwasanaethau iechyd meddwl at ei gilydd ar ffurf rhwydwaith, fel y gallant ddysgu oddi wrth ei gilydd. Fel y soniais yn fy ymateb i Jonathan, mae gan yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd rôl hanfodol yn hyn, a rhoddaf bwys mawr ar ei rôl wrth ddarparu gwasanaethau. Mae gan yr Asiantaeth rôl allweddol wrth arloesi, ond hefyd wrth sicrhau gwelliannau ansawdd rheolaidd o ran safonau proffesiynol, ac ati. Mae gennym ddull i reoli perfformiad, ac ati, ond ar gyfer datblygiad proffesiynol ac arweinyddiaeth graidd sylfaenol, mae'r asiantaeth honno'n sefydliad arbennig sy'n cael ei sefydlu'n benodol i ddarparu hynny ar draws y sector iechyd yng Nghymru.

Karen Sinclair: Yr wyf yn falch eich bod wedi derbyn argymhelliad 10. Ar ei gais, euthum i weld cyfleuster arbennig yn fy etholaeth yr wythnos diwethaf a elwir yn Advance Brighter Futures. Yn anffodus, mae'r cynllun rhagorol hwn, a nodwyd gennym fel enghraifft o arfer da yn ein hadroddiad, bron wedi defnyddio'r holl arian loteri a oedd ganddo. Gwnaeth gais am y Gronfa Gymunedol, gan ddisgwyl na fyddai'r cais hwnnw'n cael ei dderbyn, a gobeithiai y byddai 50 y cant o'i arian yn dod o'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol. Yn anffodus, oherwydd y mae'n dweud na all fforddio gwneud ei waith, mae yna bryder a phetruster gwirioneddol am ddyfodol yr hyn sy'n gyfleuster galw heibio gwych y tu allan i oriau ar gyfer pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn Wrecsam a De Clwyd.

Sut y byddwch yn gallu sicrhau y bydd y bwrdd

health board and the trust fulfil their obligation to these people? The day centre at the mental health unit, situated on the hospital site, was closed on the grounds that people preferred to go to this drop-in centre. Therefore, that was the facility that was left for these people, and they are nervous as to what will happen to what is a fantastic facility—and I cannot stress that enough—for these people in my area.

Brian Gibbons: I visited the mental health unit on the Wrexham Maelor site a few months ago, and met several of the staff. However, this issue was not raised with me, so I cannot say that I am familiar with it. However, your point is relevant to Jenny's point to which I did not respond, on the commissioning mechanism for mental health services.

4.10 p.m.

Again, a number of the reports pointed out that purely individual local health board commissioning was not sufficiently resilient and that individual local health boards did not have enough expertise to move the agenda forward. In recognition of that, mental health commissioning networks are now being developed, and clearly, if this service is an important part of the overall configuration, the mental health commissioning networks should be approached to see where it fits in to the broader scheme of things. You may wish to write to me, and I may be able to obtain further information, seeing as I did not pick this up at first hand when I was visiting mental health colleagues in Wrexham. However, the commissioning process is very important in this. It is not just health service commissioning—it must also be across social care. Janet and Helen Mary mentioned job opportunities, training and so on, so it is a very challenging commissioning agenda, but it is also a wide one. We need to have a commissioning process that is sufficiently resilient to meet that breadth and depth of challenge.

Y Llywydd: Ac yn olaf, galwaf gadeirydd emeritws y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, David Melding.

David Melding: I thank the Presiding Officer

iechyd lleol a'r ymddiriedolaeth yn cyflawni eu rhwymedigaeth i'r bobl hyn? Caewyd y ganolfan ddydd yn yr uned iechyd meddwl, sydd ar dir yr ysbyty, ar y sail ei bod yn well gan bobl fynd i'r ganolfan galw heibio hon. Felly, dyna'r cyfleuster a oedd ar ôl ar gyfer y bobl hyn, ac maent yn pryderu am yr hyn a fydd yn digwydd i gyfleuster rhagorol—ac ni allaf orbwysleisio hynny—ar gyfer y bobl hyn yn fy ardal.

Brian Gibbons: Ymwelais â'r uned iechyd meddwl ar safle Maelor Wrecsam ychydig fisoedd yn ôl, a chyfarfûm â nifer o'r staff. Fodd bynnag, ni chodwyd y mater hwn gyda mi, felly, ni allaf ddweud fy mod yn gyfarwydd ag ef. Fodd bynnag, mae eich pwynt yn berthnasol i bwynt Jenny nad ymatebais iddo, am y mecanwaith comisiynu ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl.

Unwaith eto, yr oedd nifer o'r adroddiadau'n nodi nad oedd comisiynu gan fyrddau iechyd lleol unigol yn ddigon cadarn, ac nad oedd gan fyrddau iechyd lleol unigol ddigon o arbenigedd i weithredu'r agenda. Gan gydnabod hynny, caiff rhwydweithiau comisiynu iechyd meddwl eu datblygu yn awr, ac yn amlwg, os yw'r gwasanaeth hwn yn rhan bwysig o'r cyfluniad cyffredinol, dylid cysylltu â'r rhwydweithiau comisiynu iechyd meddwl i weld pa ran sydd iddo yn y darlun ehangach. Hwyrach yr hoffech ysgrifennu ataf, ac efallai y gallaf gael gwybodaeth bellach, o ystyried na chefais wybod am hyn yn uniongyrchol pan oeddwn yn ymweld â chydweithwyr iechyd meddwl yn Wrecsam. Fodd bynnag, mae'r broses gomisiynu yn bwysig iawn yn hyn. Nid dim ond comisiynu gwasanaethau iechyd sydd dan sylw—rhaid i'r broses gomisiynu gwmpasu gofal iechyd hefyd. Soniodd Janet a Helen Mary am gyfleoedd swyddi, hyfforddiant ac ati, felly mae'n agenda gomisiynu heriol iawn. Ond mae hefyd yn agenda eang. Mae angen inni gael proses gomisiynu sy'n ddigon cadarn i ateb yr her eang honno.

The Presiding Officer: And finally, I call the emeritus chair of the Health and Social Services Committee, David Melding.

David Melding: Diolch i'r Llywydd am y teitl

for that grand title. As the Chair of the committee when this report was published, I was pleased to hear the Government's positive response in accepting 10 of the 12 recommendations outright, and, I think it is fair to say, accepting the other two in spirit. I will be very interested to see what it proposes.

Mae'r amser ar gyfer y ddadl hon yn brin, felly, byddwch yn falch gwybod nad wyf yn bwriadu trafod yr holl welliannau yr ydym yn ceisio'u gwneud yn y Mesur fesul llinell. Fodd bynnag, yr wyf am roi rhai o'r rhesymau dros y gwelliannau. Wrth archwilio'r Mesur, teimlid nad oedd mecanweithiau ar waith i gynnwys safbwynt Cymru yn unrhyw rai o'r newidiadau a gynigid. Ystyriem hefyd nad oedd tystiolaeth fod rôl y Gymraeg yn y gwaith o weinyddu etholiadau yng Nghymru wedi cael ei chydabod. Mae nifer o gymalau yn y Mesur yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Materion Cyfansoddiadol wneud penderfyniadau ar bethau megis sefydlu system gofrestru genedlaethol newydd, a elwir yn

registration, known as the co-ordinated on-line register of electors system, covering England and Wales, the introduction of personal identifiers for registration and voting, and the setting of performance indicators for local authority electoral services. There is currently no mention in the Bill of the need for the registration system in Wales to be bilingual nor is there any acknowledgement of any bilingual issues that could occur in the implementation of the measures in the Bill.

We have called, therefore, for provisions to be made in the Bill for the National Assembly for Wales to be consulted before any CORE scheme that covers Wales is proposed or amended and for the National Assembly to have to approve any Order made to implement or change the scheme in Wales.

4.20 p.m.

We have also called for provisions to be made for the Assembly to be consulted on the implementation of personal identifiers in Wales and for any performance indicators for local authorities in Wales to be established in conjunction with the National Assembly. On the performance indicators, our reasons for this are to provide stringent and comprehensive measures to ensure that the highest standards apply in Wales or, simply put, so that Wales will be an exemplar in the field of electoral administration.

Another major concern, and one that was raised in evidence given to us on the Bill, was that of provision within the electoral system for people with a disability. We have called for several amendments to the Bill that should help those with a disability to register and cast their vote more easily. Evidence received from Scope Cymru suggests that, at the last Assembly elections, around 77 per cent of polling stations in Wales were not fully accessible. We have called for statutory access standards to be produced for polling stations in England and Wales and for accessibility to the registration process to be improved.

Two amendments that do not fall into the categories above, but are strongly evidence

system gydlynol cofrestru etholwyr ar-lein, sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr, cyflwyno dulliau adnabod personol ar gyfer cofrestru a phleidleisio, a gosod dangosyddion perfformiad ar gyfer gwasanaethau etholiadol awdurdodau lleol. Ar hyn o bryd, nid oes sôn yn y Mesur fod angen i'r system gofrestru yng Nghymru fod yn ddwyieithog, ac ni chydabyddir ychwaith unrhyw faterion dwyieithog a allai godi wrth weithredu'r mesurau yn y Mesur.

Yr ydym wedi galw, felly, am gynnwys darpariaethau yn y Mesur ar gyfer ymgynghori â Chynulliad Cenedlaethol Cymru cyn cynnig neu wella unrhyw gynllun CRAIDD sy'n cwmpasu Cymru, ac ar gyfer sicrhau bod yn rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gymeradwyo unrhyw Orchymyn a wneir i weithredu neu newid y cynllun yng Nghymru.

Yr ydym wedi galw hefyd am gynnwys darpariaethau i ymgynghori â'r Cynulliad ar weithredu dulliau adnabod personol yng Nghymru, ac i unrhyw ddangosyddion perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru gael eu sefydlu ar y cyd â'r Cynulliad Cenedlaethol. O ran y dangosyddion perfformiad, ein rhesymau dros hyn yw darparu mesurau llym a chynhwysfawr i sicrhau bod y safonau uchaf yn gymwys yng Nghymru, neu, yn syml, er mwyn i Gymru fod yn batrwm ym maes gweinyddiaeth etholiadol.

Pryder mawr arall, ac un a godwyd mewn tystiolaeth a roddwyd inni ar y Mesur, oedd y ddarpariaeth yn y system etholiadol ar gyfer pobl ag anabledd. Yr ydym wedi galw am nifer o welliannau yn y Mesur a ddylai helpu pobl sydd ag anabledd i gofrestru a phleidleisio'n haws. Awgryma tystiolaeth a roddwyd gan Scope Cymru, ar adeg etholiadau diwethaf y Cynulliad, nad oedd tua 77 y cant o orsafoedd pleidleisio yng Nghymru yn hollol hwylus. Yr ydym wedi galw am gynhyrchu safonau mynediad statudol ar gyfer gorsafoedd pleidleisio yng Nghymru a Lloegr, ac i hwylustod ar gyfer y broses gofrestru gael ei wella.

Dau welliant nad ydynt yn rhan o'r categorïau uchod, ond sy'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn,

based, are those that call for the removal of the duty on electoral registration officers to call more than once at any household that has not registered, and call for all polling station presiding officers to produce a report to the appropriate returning officer on any issues that arise during a poll. The first is subject to an amendment, therefore, I will return to that later. The amendment that asks for a report to be produced is based on evidence that the committee received in the Netherlands, where the system is used successfully to highlight any problems such as accessibility and registration that arise during a poll. The system ensures that the problems are addressed. The committee felt that we needed to look at that, and we can all cite instances when people have visited a polling station, have been denied a vote, and have then gone away because nothing is done. We feel that the system used in the Netherlands should be implemented so that presiding officers have to document why people are turned away and prove that they are going to do something about it so that people are not denied their vote.

I briefly turn to the two amendments to the motion. The Local Government and Public Services Committee's amendment 4 was based on evidence received from the Association of Electoral Administrators and the Welsh Local Government Association. They considered that imposing a duty on electoral registration officers to call more than once at each household where a registration form had not been returned, or where there was a query about the registration at that address that was not being answered, was not the most effective way of increasing voter registration. They told us that, on average, this method currently only results in a 1 per cent or 2 per cent increase in voter registration. They indicated that other methods, such as postal and e-mail inquiries, were much more cost effective. While I accept that imposing a duty on electoral registration officers to visit a property more than once, after all other methods of inquiry have been exhausted, may be effective in encouraging some additional registrations, the committee felt that we could now look at the Minister's amendment 1, which allows for all avenues to be explored fully. We are

yw'r rheini sy'n galw am ddiddymu'r ddyletswydd ar swyddogion cofrestru etholiadol i alw fwy nag unwaith mewn unrhyw gartref nad ydyw wedi cofrestru, ac sy'n galw ar swyddog llywyddu pob gorsaf bleidleisio i baratoi adroddiad ar gyfer y swyddog canlyniadau priodol ar unrhyw faterion sy'n codi yn ystod etholiad. Mae'r cyntaf yn destun gwelliant, felly, trof at hwnnw yn ddiweddarach. Mae'r gwelliant sy'n gofyn am lunio adroddiad yn seiliedig ar dystiolaeth a gafodd y pwyllgor yn yr Iseldiroedd, lle defnyddir y system yn llwyddiannus i dynnu sylw at unrhyw broblemau megis hwylustod a chofrestru sy'n codi yn ystod etholiad. Mae'r system yn sicrhau yr eir i'r afael â'r problemau. Teimlai'r pwyllgor fod angen inni edrych ar hynny, a gallwn oll nodi enghreifftiau o bobl yn ymweld â gorsaf bleidleisio, pan wrthodwyd yr hawl iddynt bleidleisio a hwythau wedyn yn mynd ymaith am nad oes dim yn cael ei wneud. Teimlwn y dylid gweithredu'r system a ddefnyddir yn yr Iseldiroedd, fel ei bod yn rhaid i swyddogion llywyddu ddogfennu pam mae pobl yn cael eu gwrthod, a phrofi eu bod am wneud rhywbeth yn ei gylch fel na wrthodir yr hawl i bobl bleidleisio.

Trof yn gyflym at y ddau welliant i'r cynnig. Yr oedd gwelliant 4 gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn seiliedig ar dystiolaeth a roddwyd gan Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Yn eu barn hwy, nid gosod dyletswydd ar swyddogion cofrestru etholiadol i alw fwy nag unwaith mewn cartref lle na ddychwelwyd ffurflen gofrestru, neu lle yr oedd ymholiad ynglŷn â'r cofrestru yn y cyfeiriad hwnnw nad oedd yn cael ei ateb, oedd y ffordd fwyaf effeithiol i gael mwy o bleidleiswyr i gofrestru. Dywedwyd wrthym, ar gyfartaledd, mai cynnydd o 1 neu 2 y cant yn unig yn nifer y pleidleisiwyr sy'n cofrestru sy'n deillio o'r dull hwn ar hyn o bryd. Dywedwyd bod dulliau eraill, megis ymholiadau drwy'r post neu'r e-bost lawer yn fwy effeithiol o ran cost. Er fy mod yn derbyn efallai fod gosod dyletswydd ar swyddogion cofrestru etholiadol i ymweld ag eiddo fwy nag unwaith, ar ôl rhoi cynnig ar bob dull arall o ymholi, yn effeithiol o ran annog rhai cofrestruadau ychwanegol, teimlai'r pwyllgor y gallem yn awr edrych ar welliant 1 gan y Gweinidog, sy'n golygu y gellir archwilio pob trywydd yn llawn. Yr ydym yn fodlon na fydd gwelliant 1 yn amharu ar brif

content that amendment 1 will not detract from the committee's main aim of seeing maximum registration arising.

The Local Government and Public Services Committee's amendment 15 was proposed to ensure that the Welsh dimension was acknowledged in the setting of performance indicators for local authorities. As I stated earlier, the committee wished to see Wales become an exemplar in the field of electoral registration. It was never our intention to diminish the level of performance required by Welsh local authorities or to seek to have lower standards than those required in England. I hope that we can assure the Minister that we will not allow standards to be inferior, but that we merely wish to see that the Assembly has the right to ensure that the requirements of electoral administration in Wales are fit for the purpose of delivering it. I propose the motion on this historic day.

The Finance Minister (Sue Essex): I propose the following amendments in the name of Jane Hutt. Amendment 1: amend 'Amendment 4' as follows:

Effect: delete 'removes' in line 1 and insert 'makes' and add at end after 'Act' 'conditional on the failure of other enquiries'.

I propose amendment 2. Amend 'Amendment 15' as follows:

Effect: after 'Wales' at end add 'subject to the proviso that such performance indicators shall not be of a lesser standard than those applying in England.'

I would like to congratulate the Local Government and Public Services Committee and the secretariat on the detailed way in which they have got to grips with a large piece of parliamentary legislation in a short time. Although I have not played a personal role in the special committee meetings arranged to scrutinise this Bill, it is clear that the committee received good advice and has organised the work most efficiently. Some of the sponsors of the motion are no longer members of the committee, and I thank them publicly for their work on this and on other

nod y pwyllgor o weld y nifer mwyaf posibl o bobl yn cofrestru.

Cynigiwyd gwelliant 15 gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau bod safbwynt Cymru'n cael ei gydnabod wrth bennu dangosyddion perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol. Fel y dywedais yn gynharach, dymuniad y pwyllgor oedd gweld Cymru'n yn batrwm ym maes cofrestru etholiadol. Nid lleihau lefel y perfformiad sy'n ofynnol gan awdurdodau lleol yng Nghymru na cheisio cael safonau is na'r rheini sy'n ofynnol yn Lloegr oedd ein bwriad erioed. Gobeithio y gallwn roi tawelwch meddwl i'r Gweinidog na fyddwn yn caniatáu i safonau fod yn is, ac mai'r cyfan yr ydym am ei weld yw bod gan y Cynulliad yr hawl i sicrhau bod gofynion gweinyddiaeth etholiadol yng Nghymru yn addas at y diben o'i darparu. Cynigiaf y cynnig ar y diwrnod hanesyddol hwn.

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Cynigiaf y gwelliannau canlynol yn enw Jane Hutt. Gwelliant 1: newid 'Gwelliant 4' fel a ganlyn:

Effaith: dileu 'diddymu'r' yn llinell 1 a chynnwys 'gwneud y' ac ychwanegu ar y diwedd ar ôl 'Deddf 1983' 'yn amodol ar fethiant ymholiadau eraill'.

Cynigiaf welliant 2. Newid 'Gwelliant 15' fel a ganlyn:

Effaith: ar ôl 'Cymru' ar y diwedd ychwanegu 'ar yr amod nad yw dangosyddion perfformiad o'r fath o safon is na'r rheiny sy'n berthnasol yn Lloegr.'

Hoffwn longyfarch y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r ysgrifenyddiaeth am y ffordd fanwl y mae wedi mynd i'r afael â darn mawr o ddeddfwriaeth seneddol o fewn cyfnod byr. Er nad fu gennyf ran yn bersonol yng nghyfarfodydd arbennig y pwyllgor a drefnwyd i graffu ar y Mesur hwn, mae'n amlwg fod y pwyllgor wedi cael cyngor da a'i fod wedi trefnu'r gwaith yn hynod effeithlon. Mae rhai o noddwyr y cynnig heb fod yn aelodau o'r pwyllgor mwyach, a diolchaf iddynt hwy yn gyhoeddus am eu gwaith ar hyn ac ar faterion eraill. Mae'r grŵp wedi

matters. It has been a hard-working group whose members have largely put aside party rivalries to look at the issues that affect Wales.

We all have a vested interest in improving the way in which elections are conducted so that they are fair, secure and easy to participate in and understand. I know from my work with the committee on wider electoral matters that there is a view that the UK Government has missed an opportunity here to take a more fundamental look and take fundamental steps to improve electoral methods, for instance by introducing electronic counting or voting, which we looked at in other countries. Nevertheless, we must deal with the Bill as it is, and there are many welcome provisions concerning electoral registration, with anti-fraud and the lowering of candidacy age among them. I welcome the general aim of this motion, which, in the main, is intended to ensure that we are consulted on matters that affect Wales, and that particular Welsh interests, such as the need to have all documents and records produced bilingually, is taken heed of.

Clause 9 of the Bill proposes to amend the Representation of the People Act 1983—the base legislation for all elections in the UK—in such a way as to place new duties on registration officers. Electoral registration officers already have a duty to maintain the register of electors and to take reasonable steps to keep it comprehensive and up to date. The new clause proposes a list of steps that registration officers must take to identify eligible voters. The motion proposes to remove from those steps a duty to make, on more than one occasion, house-to-house enquiries. I know that the Association of Electoral Administrators feels that this duty could impose unreasonable burdens upon administrators, and I accept that house-to-house visits might not always be necessary, but I think there are circumstances, such as in those areas where there is a high turnover of occupants—and I have represented such areas, so I feel strongly about this—when door-knocking is the only realistic way of getting the information required. Part of the problem is the way in which the clause has been drafted, which can be interpreted to mean that electoral registration officers must

gweithio'n galed, ac i raddau helaeth mae ei aelodau wedi anwybyddu cystadleuaeth bleidiol er mwyn ystyried y materion sy'n effeithio ar Gymru.

Mae gennym i gyd ddi-ddordeb personol i wella'r ffordd y cynhelir etholiadau er mwyn iddynt fod yn deg, yn ddiogel ac yn hawdd cyfranogi ynddynt a'u deall. Gwn o'm gwaith gyda'r pwyllgor ar faterion etholiadol ehangach y credir bod Llywodraeth y DU wedi colli cyfle yma i edrych yn fwy sylfaenol a chymryd camau sylfaenol i wella dulliau etholiadol, er enghraifft, drwy gyflwyno dulliau cyfrif neu bleidleisio electronig. Buom yn edrych ar hynny mewn gwledydd eraill. Er hyn, rhaid inni ymdrin â'r Mesur fel y mae, ac mae nifer o ddarpariaethau i'w croesawu o ran cofrestru etholiadol, ac mae atal twyll a gostwng oedran ymgeiswyr yn eu plith. Croesawaf nod cyffredinol y cynnig hwn sydd â'r bwriad pennaf o sicrhau y ymgynghori â ni ynghylch materion sy'n effeithio ar Gymru, ac yr ystyrir buddiannau penodol Cymru, megis yr angen i gynhyrchu pob dogfen a chofnod yn ddwyieithog.

Mae Cymal 9 yn y Mesur yn cynnig diwygio Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983—y ddeddfwriaeth sylfaenol ar gyfer pob etholiad yn y DU—yn y fath fodd fel y bydd dyletswyddau newydd ar swyddogion cofrestru. Mae'n ddyletswydd ar swyddogion cofrestru etholiadol eisoes i gynnal y gofrestr etholwyr a chymryd camau rhesymol i'w chadw'n gynhwysfawr ac yn gyfredol. Mae'r cymal newydd yn cynnig rhestru camau y mae'n rhaid i swyddogion cofrestru eu cymryd i nodi pleidleiswyr cymwys. Mae'r cynnig yn cynnig diddymu o'r camau hynny ddyletswydd i wneud ymholiadau o dŷ i dŷ fwy nag unwaith. Gwn fod Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol o'r farn y gallai'r ddyletswydd hon osod beichiau afresymol ar weinyddwyr, a derbynaf na fydd angen ymweliadau o dŷ i dŷ bob amser. Ond credaf fod amgylchiadau, megis yn yr ardaloedd hynny lle mae trosiant uchel o breswylwyr—ac yr wyf wedi cynrychioli ardaloedd o'r fath, felly teimlaf yn gryf iawn ynglŷn â hyn—lle mai cnocio ar y drws yw'r unig ffordd realistig o gael y wybodaeth angenrheidiol. Rhan o'r broblem yw'r modd y paratowyd y cymal: gellir ei ddehongli i olygu bod yn rhaid i swyddogion cofrestru etholiadol gymryd yr holl gamau a

carry out all the steps included in the list. The effect of the amendment that I am proposing would be to keep house-to-house enquiries as a step that EROs should take, but would make its use compulsory only if other enquiries, such as by post, for instance, or inspecting records, have failed to produce a satisfactory result.

I know that we are all united in the desire to maximise registration on the basis, in which we all believe, that participation in representative democracy is a high priority. In the light of what Ann has said in proposing the motion, I am content to withdraw amendment 2 because I feel reassured that everyone's intention is to look for the highest performance standards in Wales. Subject to proposing amendment 1—and I thank you for your remarks as chair, Ann, and I thank other members of the committee—I withdraw amendment 2.

David Lloyd: As we have heard, the Local Government and Public Services Committee scrutinised the Electoral Administration Bill in November 2005, taking oral and written evidence from many sources, as well as building on the committee's own review of electoral arrangements, which received a wealth of evidence over many months and encompassed the fact-finding mission to scrutinise voting arrangements in Denmark, Belgium and the Netherlands. All of that has been brought together in the detailed amendments that Ann Jones outlined and which are before the Assembly. These are the committee's amendments, which were agreed on an all-party basis. I commend the lead shown in all of this by the Chair, Ann Jones, and congratulate the clerk, Virginia Hawkins, and officials on all their hard work on this innovative approach to addressing a Westminster Bill by an Assembly committee.

4.30 p.m.

As the Minister said, there is no doubt that the Electoral Administration Bill is disappointing and limited in many ways. It represents a missed opportunity in tackling the big issues regarding voter participation, such as proportional representation, the single transferable vote, electronic voting, automatic individual electoral registration and the

gynhwysir yn y rhestr. Effaith y gwelliant a gynigaf fyddai cadw ymholiadau o dŷ i dŷ fel cam y dylai swyddogion cofrestru etholiadol ei gymryd, ond y byddai hynny'n orfodol dim os bydd ymholiadau eraill, megis drwy'r post, er enghraifft, neu arolygu cofnodion, wedi methu cael canlyniad boddhaol.

Gwn ein bod i gyd yn unedig yn ein hawydd i sicrhau'r nifer mwyaf o gofrestrïadau ar y sail yr ydym oll yn gytûn arni, sef bod cyfranogiad mewn democratiaeth gynrychioliadol yn flaenoriaeth uchel. Yng ngoleuni'r hyn a ddywedodd Ann wrth wneud y cynnig, yr wyf yn fodlon tynnu gwelliant 2 yn ôl, oherwydd teimlaf yn sicr mai bwriad pawb yw edrych am y safonau perfformiad uchaf yng Nghymru. Yn amodol ar gynnig gwelliant 1—a diolch i chi am eich sylwadau fel cadeirydd, Ann, ac yr wyf yn diolch i aelodau eraill y pwyllgor—yr wyf yn tynnu gwelliant 2 yn ôl.

David Lloyd: Fel y clywsom, bu i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus graffu ar y Mesur Gweinyddiaeth Etholiadol ym mis Tachwedd 2005, gan gymryd tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig o nifer o ffynonellau, yn ogystal ag adeiladu ar adolygiad y pwyllgor ei hun o drefniadau etholiadol, a gafodd doreth o dystiolaeth dros fisoedd lawer a chwmpasu'r genhadaeth canfod ffeithiau o graffu ar drefniadau pleidleisio yn Nenmarc, Gwlad Belg a'r Iseldiroedd. Mae'r holl waith hwnnw wedi ei ddwyn ynghyd yn y gwelliannau manwl a amlinellodd Ann Jones ac sydd gerbron y Cynulliad. Gwelliannau'r pwyllgor yw'r rhain, a chytunwyd arnynt gan yr holl bleidiau. Canmolaf yr arweiniad Cadeirydd, Ann Jones, yn hyn i gyd, a hoffwn longyfarch y cler, Virginia Hawkins, a'r swyddogion am eu holl waith caled ar yr dull arloesol hwn o fynd i'r afael â Mesur San Steffan gan un o bwyllgorau'r Cynulliad.

Fel y dywedodd y Gweinidog, nid oes amheuaeth nad yw'r Mesur Gweinyddiaeth Etholiadol yn siomedig ac yn gyfyngedig mewn llawer ffordd. Mae'n gyfle a gollwyd i fynd i'r afael â'r materion pwysig sy'n ymwneud â chyfranogiad pleidleiswyr, megis cynrychiolaeth gyfrannol, y bleidlais sengl drosglwyddadwy, pleidleisio electronig,

misgivings about all-postal voting. Be that as it may, every member of the committee has compromised to come to an agreement on the amendments. As a party, Plaid Cymru will make separate direct representations at the Westminster level on the Bill. However, as a committee, we will also go to the House of Lords next Monday to present the amendments.

I am conscious of the time, and so I will end by saying that Plaid Cymru will support the motion and will abstain on the Government's one remaining amendment.

Gwenda Thomas: As a member of the Local Government and Public Services Committee, I am pleased to support the motion and the remaining amendment.

I wish to comment on a general point that arose during the committee's consideration of the Bill. The Department for Constitutional Affairs published a regulatory impact assessment as part of the Bill on 11 October. Paragraph 67 of that assessment mentions additional costs to local authorities, and suggests that these will be largely administrative. It goes on to say that the estimated additional costs for local authorities in England and Wales for 2006-07 and 2007-08 are £15.2 million to £15.8 million. During one of the committee's evidence-taking sessions, Kay Jenkins of the Electoral Commission said, in answer to my question, that she did not think that the requirements of bilingualism were mentioned in the regulatory appraisal at all.

Does the Assembly agree that a strong point should be made through the parliamentary processes to seek to ensure that, in future, regulatory impact assessments recognise that Wales is a bilingual country?

David Melding: I commend the work of the previous committee in preparing the report and the motion before us. I particularly commend my colleague, Glyn Davies, who was the previous spokesman on local government and public services for the Conservative group. I look forward to the work that I will now have in a new area—I come to it somewhat inexperienced, because Glyn had a wide record of achievement in

cofrestru etholiadol unigol awtomatig a'r ansicrwydd ynghylch pleidleisio drwy'r post yn unig. Er hynny, mae pob aelod o'r pwyllgor wedi cyfaddawdu i ddod i gytundeb ar y gwelliannau. Fel plaid, bydd Plaid Cymru yn cyflwyno sylwadau uniongyrchol ar wahân i San Steffan ar y Mesur. Fodd bynnag, fel pwyllgor, awn ninnau i Dŷ'r Arglwyddi ddydd Llun nesaf i gyflwyno'r gwelliannau.

Yr wyf yn ymwybodol o'r amser, felly, dof i ben drwy ddatgan y bydd Plaid Cymru yn cefnogi'r cynnig ac yn ymatal ar yr un cynnig sy'n weddill gan y Llywodraeth.

Gwenda Thomas: Fel aelod o'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, yr wyf yn falch o gefnogi'r cynnig a'r gwelliant sy'n weddill.

Hoffwn wneud sylw ar bwynt cyffredin a gododd wrth i'r pwyllgor ystyried y Mesur. Cyhoeddodd yr Adran Materion Cyfansoddiadol asesiad effaith reoleiddiol fel rhan o'r Mesur ar 11 Hydref. Mae paragraff 67 o'r asesiad hwnnw yn sôn am y costau ychwanegol ar awdurdodau lleol, ac yn awgrymu mai costau gweinyddol fydd y rhain yn bennaf. Aiff ymlaen i ddweud mai £15.2 miliwn i £15.8 miliwn yw'r amcangyfrif o'r costau ychwanegol ar awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr ar gyfer 2006-07 a 2007-08. Yn ystod un o sesiynau pwyllgor i wrando tystiolaeth, dywedodd Kay Jenkins o'r Comisiwn Etholiadol, wrth ymateb i'm cwestiwn i, nad oedd yn credu bod yr arfarniad rheoliadol yn sôn am ofynion dwyieithrwydd o gwbl.

A yw'r Cynulliad yn cytuno y dylid cyflwyno dadl gref drwy'r prosesau seneddol i geisio sicrhau bod asesiadau effaith reoleiddiol yn y dyfodol yn cydnabod bod Cymru yn wlad ddwyieithog?

David Melding: Cymeradwyaf waith y pwyllgor blaenorol wrth baratoi'r adroddiad a'r cynnig sydd o'n blaenau. Cymeradwyaf yn arbennig fy nghyd-Aelod, Glyn Davies, y siaradwr blaenorol ar lywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus ar ran grŵp y Ceidwadwyr. Edrychaf ymlaen at y gwaith a fydd gennyf yn awr mewn maes newydd—yr wyf yn ymgymryd â hyn yn gymharol ddibrofiad, oherwydd yr oedd gan Glyn brofiad

local government. I am pleased that I will still be able to draw on this deep pool of expertise. [*Interruption.*] I just like being kind to people, that is all, and recognising their achievements. I look forward to working with the Minister, the Chair and the other committee members.

We are happy to support the Minister's remaining amendment, and we thank her for withdrawing the other amendment. There is clear support across the Chamber to improve voter registration and turnout, and we would all agree with Gwenda that bilingualism and bilingual voting is essential in this dimension. It is something that is so easily overlooked by Westminster, which is why it is important that we have the chance to put that right. In terms of the changes that will come in the Government of Wales Bill, it is also important that the Welsh dimension in the legislation more generally is recognised, so that elements, such as the bilingual nature of Wales, are not overlooked, and the fact that we have two official languages in which all of life should be conducted. Therefore, we are pleased to support these measures, and we will support the remaining amendment.

Michael German: It has taken six and a half years for this particular form of pressing the powers of the National Assembly to be used for the first time. I commend the Chair of the committee for taking this bold step in making devolution work even better than it has done in the past. This is a historic day, because it is the first time that the National Assembly has taken this route towards primary legislation. The level of detail that has been provided for us is exemplary. A large number of amendments has been put forward by the committee with all-party consensus in a way that strengthens the Welsh Assembly Government's hand in demanding these changes from the UK Government. If the motion is passed by the National Assembly today, as I hope it will be, it will settle the matter and will add strength to the arguments that we are putting forward.

The Minister was absolutely right to say that there are perhaps some lost opportunities. She outlined some of them, as did Dai Lloyd. Some opportunities have been lost in the Bill,

helaeth o lwyddo ym maes llywodraeth leol. Yr wyf yn falch y byddaf yn gallu parhau i fanteisio ar yr arbenigedd eang hwn. [*Torri ar draws.*] Yr wyf yn hoffi bod yn garedig wrth bobl, dyna i gyd, a chydabod yr hyn y maent yn ei gyflawni. Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r Gweinidog, y Cadeirydd ac aelodau eraill y pwyllgor.

Yr ydym yn falch o gefnogi'r gwelliant sy'n weddill gan y Gweinidog, a diolchwn iddi am dynnu'r gwelliant arall yn ôl. Mae cefnogaeth amlwg yn y Siambr i wella nifer y pleidleiswyr sy'n cofrestru ac yn pleidleisio, a byddai pawb yn cytuno â Gwenda fod dwyieithrwydd a phleidleisio dwyieithog yn hanfodol yn y dimensiwn hwn. Mae'n rhywbeth a gaiff ei anwybyddu mor hawdd gan San Steffan, a dyna pam y mae'n bwysig inni gael y cyfle i unioni hynny. O ran y newidiadau a gyflwynir ym Mesur Llywodraeth Cymru, mae hefyd yn bwysig i'r dimensiwn Cymreig yn y ddeddfwriaeth gael ei gydnabod yn fwy cyffredinol, fel na chaiff elfennau megis natur ddwyieithog Cymru eu hanwybyddu, a'r ffaith fod gennym ddwy iaith swyddogol y dylid eu defnyddio i gynnal pob agwedd ar fywyd. Felly, yr ydym yn falch o gefnogi'r mesurau hyn, a byddwn yn cefnogi'r gwelliant sy'n weddill.

Michael German: Mae wedi cymryd chwe blynedd a hanner i ddefnyddio pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol fel hyn am y tro cyntaf. Cymeradwyaf Gadeirydd y pwyllgor am gymryd y cam dewr hwn i wneud i ddatganoli weithio hyd yn oed yn well nag yn y gorffennol. Mae heddiw yn ddiwrnod hanesyddol gan mai dyma'r tro cyntaf i'r Cynulliad Cenedlaethol ddefnyddio'r llwybr hwn tuag at ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r manylion a ddarparwyd ar ein cyfer yn rhagorol. Cyflwynwyd nifer fawr o welliannau gan y pwyllgor, gyda chytundeb yr holl bleidiau mewn ffordd sy'n atgyfnerthu grym Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth fynnu'r newidiadau hyn gan Lywodraeth y DU. Os caiff y cynnig ei basio gan y Cynulliad Cenedlaethol heddiw, fel y caiff, gobeithio, daw â'r mater i ben a bydd yn atgyfnerthu'r dadleuon yr ydym yn eu cyflwyno.

Yr oedd y Gweinidog yn hollol iawn i ddweud bod rhai cyfleoedd, efallai, wedi eu colli. Amlinellodd rai ohonynt, fel y gwnaeth Dai Lloyd. Mae rhai cyfleoedd wedi eu colli yn y

and I hope that we can return to those at a later stage. The committee is looking at one extra matter, which is participation, particularly in relation to the school curriculum. I know that the committee will return to that in its later deliberations. It will give us a real opportunity to make a difference in this electoral matter. The committee is unanimous in the view that the way in which democracy is taught and developed in the school environment is crucial to how successfully we engage with young people and ensure that that process moves forward.

There are many things to welcome in the Bill. The big difference between committee members in party terms is seen on the issue of registration. The Westminster Government is still interested in household registration, whereas many others, including the electoral administration and the Liberal Democrats are interested in individual registration. It would cut out some of the opportunities for fraud, which some of us are very concerned about.

There is an inevitable tension between the integrity of the electoral register on one hand, and the wish for as many voters to be included as possible on the other. We need three things from a voting system: as comprehensive a register as is possible; as many as possible of those who are registered to vote to be encouraged to exercise their right to vote; and those who wish to abuse their vote to be deterred effectively from doing so. Each of those three components is absolutely essential, and a solution that addresses only one issue will not be effective. I do not think that we see any problem with experiments to improve voter registration or voter turnout, but those cannot be at the expense of the integrity of the registration system.

There are some things that it is important for the Minister to take on board for the future. Regulations arising from Bill that impact on our National Assembly elections next year should be made quickly, because everyone involved, including the electoral registration officers, returning officers, staff, political parties and, of course, all candidates need to know as soon as possible the rules under which they are expected to run our elections

Mesur, a gobeithio y gallwn ddychwelyd atynt yn y dyfodol. Mae'r pwyllgor yn edrych ar un mater ychwanegol, sef cyfranogiad, yn arbennig o ran y cwricwlwm ysgolion. Gwn y bydd y pwyllgor yn dychwelyd at hynny yn ei drafodaethau diweddarach. Bydd yn gyfle gwirioneddol inni wneud gwahaniaeth yn y mater etholiadol hwn. Cred y pwyllgor yn unfrydol fod y modd y caiff democratiaeth ei haddysgu a'i datblygu yn amgylchedd yr ysgol yn hanfodol i'n llwyddiant i ymgysylltu â phobl ifanc ac i sicrhau bod y broses honno'n datblygu.

Mae nifer o bethau i'w croesawu yn y Mesur. Gwelir y gwahaniaeth mawr rhwng aelodau'r pwyllgor o ran y pleidiau ar fater cofrestru. Mae Llywodraeth San Steffan yn parhau i ddangos diddordeb mewn cofrestru cartrefi, lle mae gan eraill, gan gynnwys y weinyddiaeth etholiadol a'r Democratiaid Rhyddfrydol, ddiddordeb mewn cofrestru unigol. Byddai hynny'n dileu rhai o'r cyfleoedd i dwyllo, sy'n achosi pryder mawr i rai ohonom.

Mae yna densiwn anochel rhwng cywirdeb y gofrestr etholiadol ar y naill law, a'r dymuniad ar y llaw arall i gynnwys cynifer â phosibl o bleidleiswyr. Mae angen tri pheth arnom mewn system bleidleisio: cofrestr mor gynhwysfawr â phosibl; annog cynifer â phosibl o bobl sydd wedi cofrestru i bleidleisio er mwyn defnyddio'u hawl i bleidleisio; ac i'r rheini sydd am gamddefnyddio'u pleidlais gael eu hatal i bob pwrpas rhag gwneud hynny. Mae'r tair elfen hyn yn hollol hanfodol, ac ni fydd ateb sy'n mynd i'r afael ag un mater yn unig yn effeithiol. Ni chredaf ein bod yn rhag-weld unrhyw broblem gydag arbrofion i wella'r gwaith o gofrestru pleidleiswyr neu nifer y bobl sy'n pleidleisio, ond ni ellir gwella hynny ar draul cywirdeb y system gofrestru.

Mae rhai pethau y mae'n bwysig i'r Gweinidog eu hystyried ar gyfer y dyfodol. Dylid gwneud rheoliadau sy'n deillio o'r Mesur ac sy'n effeithio ar etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol y flwyddyn nesaf yn fuan, gan fod angen i bawb sy'n rhan o'r broses, gan gynnwys y swyddogion cofrestru etholiadol, swyddogion canlyniadau, staff, pleidiau gwleidyddol, a'r holl ymgeiswyr, wrth gwrs, fod yn ymwybodol mor fuan â phosibl o'r rheolau ar gyfer cynnal

next year.

I ask the Minister to consider at some stage whether the money that comes from the Department for Constitutional Affairs to pay for the costs of implementing the Bill—such as the storage of ballot papers—is sufficient to carry out the new functions and responsibilities. We certainly do not want it to be the case, as we saw in the debate earlier on policing, that we are expected to carry out unfunded obligations. I am sure that the Minister will take that on board.

We are happy to accept amendment 1 tabled by the Minister, and I am pleased to see that she seeks to withdraw amendment 2, because we are not seeking to have lower standards from our colleagues in England; we will have different standards. We have our own performance measurement framework in Wales, and that means that we will do things differently. We will certainly want to ensure that we have a robust and equally effective standard in Wales as that in England.

In conclusion, I welcome the motion and its amendments to the Bill, and I commend it to the National Assembly. This is a historic occasion, as we are taking a decision to move amendments to a Bill that is before Parliament. I look forward to a time when perhaps we can do all these things ourselves.

4.40 p.m.

Ann Jones: As Chair of the committee, I thank Members for their comments. David, we are looking forward to your joining us. I have thanked Glyn and Brynle for their sterling work on the committee. We look forward to David joining us. It is encouraging that we have seen cross-party support and that we have been able to move away, as Dai said, from the party-political side and come to a compromise on a committee report as well as in committee, knowing that there are other areas to which we can take the political message.

The point that Gwenda made about additional funding is crucial and any regulatory inspection or assessment impact should, in future, recognise that Wales is a bilingual

ein hetholiadau flwyddyn nesaf.

Gofynnaf i'r Gweinidog ystyried rywbryd a yw'r arian a ddaw o'r Adran Materion Cyfansoddiadol i dalu am gostau gweithredu'r Mesur—megis storio papurau pleidleisio—yn ddigonol i gyflawni'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau newydd. Yn sicr, nid ydym am weld achos, fel y gwelwyd yn y ddadl yn gynharach am blismona, lle mae disgwyl inni gyflawni rhwymedigaethau heb eu hariannu. Yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn ystyried hynny.

Yr ydym yn fodlon derbyn gwelliant 1 a gyflwynwyd gan y Gweinidog, ac yr wyf yn falch o weld ei bod am dynnu gwelliant 2 yn ôl, gan nad ydym am gael safonau is na'n cyd-aelodau yn Lloegr; bydd gennym safonau gwahanol. Mae gennym ein fframwaith mesur perfformiad ein hunain yng Nghymru, a golyga hynny y byddwn yn gwneud pethau'n wahanol. Byddwn yn bendant am sicrhau fod gennym safon yng Nghymru sydd mor gadarn ac effeithiol â honno yn Lloegr.

I gloi, croesawaf y cynnig a'i welliannau yn y Mesur, ac fe'i cymeradwyaf i'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae hwn yn achlysur hanesyddol, gan ein bod yn gwneud penderfyniad i gynnig gwelliannau mewn Mesur sydd gerbron y Senedd. Edrychaf ymlaen at amser pan fyddwn, efallai, yn gallu gwneud yr holl bethau hyn ein hunain.

Ann Jones: Fel Cadeirydd y pwyllgor, diolchaf i'r Aelodau am eu sylwadau. David, yr ydym yn edrych ymlaen at eich cael i ymuno â ni. Yr wyf wedi diolch i Glyn a Brynle am eu gwaith rhagorol ar y pwyllgor. Edrychwn ymlaen at weld David yn ymuno â ni. Mae'n galonogol ein bod wedi cael cefnogaeth ar draws y pleidiau ac wedi gallu symud, fel y dywedodd Dai, oddi wrth y dull pleidiol a dod i gyfaddawd ar adroddiad pwyllgor yn ogystal ag yn y pwyllgor, gan wybod bod meysydd eraill y gallwn gynnwys y neges wleidyddol ynddynt.

Mae'r pwynt a wnaeth Gwenda ynglŷn ag arian ychwanegol yn un hanfodol, a dylai unrhyw archwiliad rheoleiddiol neu asesiad effaith reoleiddiol yn y dyfodol gydnabod bod Cymru

country. I am sure that we will do all that we can on the Local Government and Public Services Committee to ensure that that is the case.

Mike made the point about the school curriculum. We will return to that, Mike. It is ongoing work in terms of the project on electoral arrangements. We have found it difficult at times not to confuse what was in the Electoral Administration Bill with our desires to see better electoral arrangements for Wales.

I thank the Minister for her readiness to work with the committee and to listen to its views on the amendments and to withdraw her amendment 2. That shows a great commitment from you that you can trust your committee, and that you know that it will work with you and assist you in every way that it can to ensure that we get the best electoral arrangements for Wales. That is all that we seek in asking the Assembly to approve this motion.

yn wlad ddwyieithog. Yr wyf yn siŵr y gwnawn bopeth o fewn ein gallu ar y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau bod hynny'n digwydd.

Gwnaeth Mike y pwynt am y cwricwlwm ysgolion. Byddwn yn dychwelyd at hynny, Mike. Mae'n waith parhaus o'r prosiect sy'n ymwneud â threfniadau etholiadol. Yr oedd yn anodd inni weithiau beidio â drysu rhwng yr hyn a oedd yn y Mesur Gweinyddiaeth Etholiadol a'n hawydd i weld trefniadau etholiadol gwell i Gymru.

Diolch i'r Gweinidog am ei pharodrwydd i weithio gyda'r pwyllgor ac i wrando ar ei farn am y gwelliannau ac i dynnu ei gwelliant 2 yn ôl. Dengys hynny ymrwymiad mawr gennych fod gennych ffydd yn eich pwyllgor, a'ch bod yn gwybod y bydd yn gweithio gyda chi ac yn eich cynorthwyo ym mhob ffordd bosibl i sicrhau y cawn y trefniadau etholiadol gorau i Gymru. Dyna'r cyfan a geisiwn wrth ofyn i'r Cynulliad gymeradwyo'r cynnig hwn.

*Gwelliant 1: O blaid 44, Ymatal 5, Yn erbyn 0.
Amendment 1: For 44, Abstain 5, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Glyn
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
Isherwood, Mark
James, Irene
Jones, Ann

Jones, Carwyn
 Jones, Laura Anne
 Lewis, Huw
 Lloyd, Val
 Melding, David
 Mewies, Sandy
 Morgan, Jonathan
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Randerson, Jenny
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda
 Williams, Brynle

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
 The following Members abstained:

Davies, Janet
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Helen Mary
 Lloyd, David
 Thomas, Rhodri Glyn

*Derbyniwyd y gwelliant.
 Amendment carried.*

The Deputy Presiding Officer: Does the Member who proposed amendment 2 wish it to be withdrawn?

Y Dirprwy Lywydd: A yw'r Aelod a gynigiodd gwelliant 2 am iddo gael ei dynnu yn ôl?

The Finance Minister (Sue Essex): Yes.

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Ydwyf.

Tynnwyd gwelliant 2 yn ôl.
 Amendment 2 withdrawn.

Cynnig NDM2757 fel y'i diwygiwyd:
 Motion NDM2757 as amended:

the National Assembly for Wales:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. considers the Local Government and Public Services Committee's report—Local Government and Public Services Committee Scrutiny of the Electoral Administration Bill 2005—final report sent to the Table Office and Members on 4 January 2006 and;

1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus—Prosiect Craffu'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar Fesur Gweinyddiaeth Etholiadol 2005—anfonwyd yr adroddiad terfynol i'r Swyddfa Gyflwyno ac at Aelodau ar 4 Ionawr 2006 a;

2. calls on the UK Government to bring forward the following amendments to the Electoral Administration Bill.

2. yn galw ar Lywodraeth y DU i gyflwyno'r gwelliannau canlynol i'r Mesur Gweinyddiaeth Etholiadol.

Amendments

Gwelliannau

Part 1—Co-ordinated on-line record of electors

Rhan 1—Cofnod cyd-drefnus ar-lein o etholwyr

Part 1 of the Bill proposes the establishment

Mae Rhan 1 y Mesur yn cynnig sefydlu un neu

<i>of one or more co-ordinated on-line record of electors (CORE) schemes.</i>	<i>ragor o gynlluniau cofnod cyd-drefnus ar-lein o etholwyr (CORE).</i>
<i>Amendment 1 Clause 1</i>	<i>Gwelliant 1 Cymal 1</i>
<i>Purpose: It is essential that both the Welsh and English languages are treated equally in any CORE scheme that relates to Wales.</i>	<i>Diben: Mae'n hanfodol bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gydradd mewn unrhyw system CORE sy'n berthnasol i Gymru.</i>
<i>Effect: We call for an amendment to the Bill to ensure that any CORE scheme that covers all or part of Wales is bilingual.</i>	<i>Effaith: Yr ydym yn galw am welliant i'r Mesur i sicrhau bod unrhyw gynllun CORE sy'n cwmpasu Cymru gyfan, neu ran ohoni, yn ddwyieithog.</i>
<i>Amendment 2 Clause 1</i>	<i>Gwelliant 2 Cymal 1</i>
<i>Purpose: The National Assembly for Wales should have the opportunity to state its wishes as to the form and content of any CORE scheme relating to Wales.</i>	<i>Diben: Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru gael cyfle i ddatgan ei ddymuniad o ran ffurf a chynnwys unrhyw gynllun CORE sy'n berthnasol i Gymru.</i>
<i>Effect: We call for an amendment to the Bill to ensure that the National Assembly for Wales is consulted before a CORE scheme that covers all or part of Wales is established, altered or terminated.</i>	<i>Effaith: Yr ydym yn galw am welliant i'r Mesur i sicrhau bod yn rhaid ymgynghori â Chynulliad Cenedlaethol Cymru cyn sefydlu, newid neu derfynu cynllun CORE sy'n cwmpasu Cymru gyfan, neu ran ohoni.</i>
<i>Amendment 3 Clause 6</i>	<i>Gwelliant 3 Cymal 6</i>
<i>Purpose: The National Assembly for Wales should have the opportunity to give its approval to the form and content of any CORE scheme relating to Wales.</i>	<i>Diben: Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru gael y cyfle i gymeradwyo ffurf a chynnwys unrhyw gynllun CORE sy'n berthnasol i Gymru.</i>
<i>Effect: We call for an amendment to the Bill, which calls for the National Assembly for Wales to approve any order made under clause 1.</i>	<i>Effaith: Yr ydym yn galw am welliant i'r Mesur sy'n galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gymeradwyo unrhyw orchymyn a wneir o dan gymal 1.</i>
<i>Part 2—Registration of electors</i>	<i>Rhan 2—Cofrestru etholwyr</i>
<i>Amendment 4 Clause 9</i>	<i>Gwelliant 4 Cymal 9</i>
<i>Purpose: To ensure that the registration of electors is made as cost effective as possible.</i>	<i>Diben: Sicrhau bod y broses o gofrestru etholwyr mor gost-effeithiol â phosibl.</i>
<i>Effect: We call for an amendment to the Bill which makes the duty placed upon Electoral Registration Officers under the proposed section 9A(2)(b) of the Representation of the People Act 1983 ('the 1983 Act') to make</i>	<i>Effaith: Yr ydym yn galw am welliant i'r Mesur sy'n gwneud y ddyletswydd ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol o dan adran 9A(2)(b) arfaethedig Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ('Deddf 1983'), i wneud ymholiadau o dŷ i dŷ o</i>

house-to-house inquiries on more than one occasion under section 10(5) of the 1983 Act conditional on the failure of their inquiries.

dan adran 10(5) Deddf 1983, yn amodol ar fethiant ymholiadau eraill.

*Amendment 5
Clause 9*

*Gwelliant 5
Cymal 9*

Purpose: To ensure that persons with a disability are not discriminated against in the registration of electors.

Diben: Sicrhau nad yw'r broses o gofrestru etholwyr yn gwahaniaethu yn erbyn pobl ag anabledd.

Effect: We call for an amendment requiring that, where a person with a disability has indicated, in relation to the maintenance of registers, that they wish to be communicated with in a particular format, then the Electoral Registration Officer should communicate with them in that format in so far as it is practicable.

Effaith: Yr ydym yn galw am welliant i beri iddi fod yn ofynnol, os yw pobl ag anabledd wedi dweud, mewn perthynas â chadw cofrestrau, yr hoffent i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gyfathrebu â hwy mewn dull penodol, i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gyfathrebu â hwy yn y dull hwnnw cyhyd ag y bo'n ymarferol.

Part 3—Anti-fraud measures

Rhan 3—Camau gwrth dwyll

Part 3 proposes the use of personal identifiers (e.g. name, date of birth and signature) to be provided by all electors to help to prevent fraudulent voting. It provides for pilot schemes for personal identifiers to be established.

Mae Rhan 3 yn cynnig bod pob etholwr yn darparu dynodwyr personol (e.e. enw, dyddiad geni a llofnod) i helpu i atal twyll o ran pleidleisio. Mae'n darparu ar gyfer sefydlu cynlluniau peilot i dreialu dynodwyr personol.

*Amendment 6
Clause 13*

*Gwelliant 6
Cymal 13*

Purpose: To ensure that the National Assembly for Wales has the opportunity to state its wishes in relation to the use of personal identifiers in Wales.

Diben: Sicrhau bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael y cyfle i ddatgan ei ddymuniaid o ran defnyddio dynodwyr personol yng Nghymru.

Effect: We call for an amendment requiring the National Assembly for Wales to be consulted before the Secretary of State makes any regulations under the proposed section 10(4C) of the 1983 Act to dispense with the requirement for personal identifiers for any election which covers all or part of Wales.

Effaith: Yr ydym yn galw am welliant i beri iddi fod yn ofynnol ymgynghori â Chynulliad Cenedlaethol Cymru cyn i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud unrhyw reoliadau o dan adran 10(4C) arfaethedig Deddf 1983 i hepgor y gofyniad i ddefnyddio dynodwyr personol ar gyfer unrhyw etholiad sy'n cwmpasu Cymru gyfan, neu ran ohoni.

*Amendment 7
Clause 15*

*Gwelliant 7
Cymal 15*

Purpose: To ensure that the National Assembly for Wales has the opportunity to state its wishes in relation to the use of personal identifiers in Wales.

Diben: Sicrhau bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael y cyfle i ddatgan ei ddymuniaid o ran defnyddio dynodwyr personol yng Nghymru.

Effect: We call for an amendment requiring

Effaith: Yr ydym yn galw am welliant i beri iddi

the National Assembly for Wales to be consulted before the Secretary of State makes any pilot order under clause 15(2) in relation to all or part of Wales.

fod yn ofynnol ymgynghori â Chynulliad Cenedlaethol Cymru cyn i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud unrhyw orchymyn peilot o dan gymal 15(2) mewn perthynas â Chymru gyfan, neu ran ohoni.

*Amendment 8
Clause 16*

*Gwelliant 8
Cymal 16*

Purpose: To ensure that the National Assembly for Wales is kept informed of the operation of any pilot order in Wales.

Diben: Sicrhau bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael gwybod am weithrediad unrhyw orchymyn peilot yng Nghymru.

Effect: We call for an amendment requiring the Secretary of State to direct the Electoral Commission to report to the National Assembly for Wales on the operation of any pilot order relating to all or part of Wales.

Effaith: Yr ydym yn galw am welliant i beri iddi fod yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo'r Comisiwn Etholiadol i adrodd wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar weithrediad gorchymyn peilot sy'n berthnasol i Gymru gyfan, neu ran ohoni.

Part 4—Review of polling places

Rhan 4—Adolygu manau pleidleisio

Amendment 9

Gwelliant 9

Purpose: To produce a formalised scheme for highlighting and addressing issues arising at polling stations on the day of polling. To ensure that persons with disabilities are not discriminated against when casting their vote.

Diben: Paratoi cynllun ffurfiol ar gyfer nodi unrhyw faterion sy'n codi mewn gorsafoedd pleidleisio ar ddiwrnod etholiad a mynd i'r afael â'r materion hynny. Sicrhau nad yw'r broses o fwrw pleidlais yn gwahaniaethu yn erbyn pobl ag anabledd.

Effect: We call for an amendment requiring all polling station presiding officers to produce a report to the appropriate returning officer at the end of each poll outlining any issues (e.g. access, registration) that have occurred during the poll. The appropriate returning officer should subsequently be responsible for dealing with the issues raised.

Effaith: Yr ydym yn galw am welliant i beri iddi fod yn ofynnol i swyddogion llywyddu pob gorsaf bleidleisio baratoi adroddiad ar gyfer y swyddog canlyniadau priodol ar ddiwedd pob etholiad yn amlinellu unrhyw faterion (e.e. mynediad, cofrestru) sydd wedi codi yn ystod yr etholiad. Dylai'r swyddog canlyniadau priodol fod yn gyfrifol wedyn am ymdrin â'r materion a godwyd.

Amendment 10

Gwelliant 10

Purpose: To ensure that persons with a disability are not discriminated against when casting their vote. To ensure that the access requirements of the Disability Discrimination Act 1995 are met.

Diben: Sicrhau nad yw'r broses o fwrw pleidlais yn gwahaniaethu yn erbyn pobl ag anabledd. Sicrhau y caiff gofynion Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 o ran mynediad eu bodloni.

Effect: We call for an amendment requiring statutory standards for accessibility to polling stations to be prepared and implemented.

Effaith: Yr ydym yn galw am welliant i beri iddi fod yn ofynnol paratoi a gweithredu safonau statudol ar gyfer mynediad i orsafoedd pleidleisio.

Part 5—Standing for election

Rhan 5—Sefyll etholiad

Amendment 11
Clause 23(2)

Purpose: To ensure that no gender-specific language is used in describing a Welsh independent candidate ('annibynnwr' is the masculine form of the adjective).

Effect: We call for an amendment to the proposed rule 6B(2)(b) in Schedule 21 to the 1983 Act changing the word to be used to describe an independent candidate in Wales from 'annibynnwr' to 'annibynnol'.

Part 6—Conduct of Elections

Amendment 12
Clause 33

Purpose: To ensure that the National Assembly for Wales has the opportunity to state its wishes in relation to any code of practice for the attendance of observers at elections in Wales.

Effect: We call for an amendment to ensure that the National Assembly for Wales is consulted before the Electoral Commission prepares a code of practice on the attendance of observers at elections under the proposed section 6E of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000 (the '2000 Act') in so far as it relates to all or part of Wales.

Amendment 13
Clause 36

Purpose: To ensure that documents in Welsh are included in the documents to be translated into other languages at the discretion of the Returning Officer.

Effect: We call for an amendment to the proposed section 199B(2)(b) of the 1983 Act to include documents produced in Welsh to be translated into other languages at the discretion of the Returning Officer.

Part 7—Regulation of parties

Amendment 14
Clause 49

Gwelliant 11
Cymal 23(2)

Diben: Sicrhau na chaiff iaith rhyw benodol ei defnyddio wrth ddisgrifio ymgeisydd annibynnol yn Gymraeg ('annibynnwr' yw ffurf wrywaidd yr ansoddair).

Effaith: Yr ydym yn galw am welliant i reol 6B(2)(b) arfaethedig yn Atodlen 21 i Ddeddf 1983 i newid y gair a ddefnyddir i ddisgrifio ymgeisydd annibynnol yng Nghymru o 'annibynnwr' i 'annibynnol'.

Rhan 6—Gweithredu etholiadau

Gwelliant 12
Cymal 33

Diben: Sicrhau bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael y cyfle i ddatgan ei ddymuniaid o ran unrhyw god ymarfer ar bresenoldeb sylwedyddion mewn etholiadau yng Nghymru.

Effaith: Yr ydym yn galw am welliant i sicrhau bod yn rhaid ymgynghori â Chynulliad Cenedlaethol Cymru cyn i'r Comisiwn Etholiadol baratoi cod ymarfer ar bresenoldeb sylwedyddion mewn etholiadau o dan adran 6E arfaethedig Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ('Deddf 2000') i'r graddau y mae'n berthnasol i Gymru gyfan, neu ran ohoni.

Gwelliant 13
Cymal 36

Diben: Sicrhau bod dogfennau Cymraeg yn cael eu cynnwys gyda'r dogfennau y dylid eu cyfieithu i ieithoedd eraill yn ôl disgrisiwn y Swyddog Canlyniadau.

Effaith: Yr ydym yn galw am welliant i adran 199B(2)(b) arfaethedig Deddf 1983 i gynnwys cyfieithu dogfennau a baratoir yn Gymraeg i ieithoedd eraill yn ôl disgrisiwn y Swyddog Canlyniadau.

Rhan 7—Rheoli pleidiau

Gwelliant 14
Cymal 49

Purpose: To ensure that the correct equivalent Welsh words are prohibited for use on a candidate registration form.

Diben: Sicrhau y caiff y geiriau Cymraeg cyfatebol cywir eu gwahardd rhag cael eu defnyddio ar ffurflen gofrestru ymgeisydd.

Effect: We call for an amendment to ensure that the National Assembly for Wales is consulted if the Secretary of State proposes to make an order under the proposed section 28A(2)(g) of the 2000 Act prohibiting a word to be used on a candidate registration form or change the number of words permitted in the party description for an election in all or part of Wales.

Effaith: Yr ydym yn galw am welliant i sicrhau bod yn rhaid ymgynghori â Chynulliad Cenedlaethol Cymru os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn cynnig gwneud gorchymyn o dan adran 28A(2)(g) arfaethedig Deddf 2000 sy'n gwahardd defnyddio gair ar ffurflen gofrestru ymgeisydd neu sy'n newid nifer y geiriau y caniateir eu defnyddio mewn disgrifiad o blaid ar gyfer etholiad sy'n cwmpasu Cymru gyfan, neu ran ohoni.

Part 8—Miscellaneous

Rhan 8—Amrywiol

Part 8 provides for the Electoral Commission to set performance indicators for local authorities in Wales.

Mae Rhan 8 yn darparu i'r Comisiwn Etholiadol bennu cyfres o ddangosyddion perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru.

Amendment 15 Clause 63

Gwelliant 15 Cymal 63

Purpose: To ensure that any differences between the way in which electoral services operate in England and Wales in terms of the role of the Electoral Registration Officer and Returning Officer are taken into account in the establishment of performance indicators in Wales. To ensure that any performance indicators for local authorities in Wales are produced in line with the National Assembly for Wales's revised performance measurement framework.

Diben: Sicrhau bod unrhyw wahaniaethau rhwng y ffordd y mae gwasanaethau etholiadol yn gweithredu yng Nghymru a Lloegr, o ran rôl Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau, yn cael eu hystyried wrth bennu dangosyddion perfformiad yng Nghymru. Sicrhau bod unrhyw ddangosyddion perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru yn cael eu paratoi yn unol â fframwaith mesur perfformiad diwygiedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Effect: We call for an amendment to ensure that there is a separate set of performance indicators produced for Wales.

Effaith: Yr ydym yn galw am welliant i sicrhau bod cyfres ar wahân o ddangosyddion perfformiad yn cael eu paratoi ar gyfer Cymru.

Amendment 16 Clause 63

Gwelliant 16 Cymal 63

Purpose: To ensure that the National Assembly for Wales has the opportunity to state its wishes in relation to the establishment of performance indicators for local authorities in Wales. To ensure that any performance indicators for local authorities in Wales are produced in line with the National Assembly for Wales's revised performance measurement framework.

Diben: Sicrhau bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael y cyfle i ddatgan ei ddymuniad o ran pennu dangosyddion perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Sicrhau bod unrhyw ddangosyddion perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru yn cael eu paratoi yn unol â fframwaith mesur perfformiad diwygiedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Effect: We call for an amendment to ensure

Effaith: Yr ydym yn galw am welliant i sicrhau

that performance indicators for local authorities in Wales are determined in conjunction with the National Assembly for Wales.

*Amendment 17
Clause 63*

Purpose: To ensure that both the Welsh and English languages are treated equally in the setting of performance indicators and in the electoral administration system in Wales.

Effect: We call for an amendment to ensure that performance indicators for the Welsh language are included in any set of performance indicators for Wales.

bod dangosyddion perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru yn cael eu pennu mewn cydweithrediad â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

*Gwelliant 17
Cymal 63*

Diben: Sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gydradd wrth bennu dangosyddion perfformiad ac yn y system gweinyddu etholiadol yng Nghymru.

Effaith: Yr ydym yn galw am welliant i sicrhau bod dangosyddion perfformiad ar gyfer y Gymraeg yn cael eu cynnwys mewn unrhyw gyfres o ddangosyddion perfformiad ar gyfer Cymru.

*Cynnig (NDM2757) fel y'i diwygiwyd: O blaid 48, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amended motion (NDM2757): For 48, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Glyn
Davies, Janet
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
Isherwood, Mark
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Helen Mary
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Melding, David
Mewies, Sandy

Morgan, Jonathan
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Randerson, Jenny
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Brynle

*Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.
 Amended motion carried.*

Cynnig i Ystyried Adroddiad yr Astudiaeth Ddichonoldeb ar gynnig Val Lloyd o dan Reol Sefydlog Rhif 31 a Drafodwyd ar 27 Medi 2005
Motion to Consider the Feasibility Study Report on Val Lloyd's Standing Order No. 31 Proposal Debated on 27 September 2005

The Minister for Health and Social Services (Brian Gibbons): I propose that

the National Assembly for Wales, acting under Standing Order No. 31

1. welcomes the proposal set out in the motion tabled by Val Lloyd (NDM2535) and debated in Plenary on 27 September 2005;

2. notes the approach recommended in the feasibility report laid in Table Office on 16 December 2005, and the intention to develop secondary legislation to give effect to it; and

3. recommends that the National Assembly for Wales proceeds with the proposal. (NDM2756)

The Assembly Government is committed to providing patients, hospital staff and visitors with services in a clean, safe and hygienic environment in our hospitals. I welcome the principle behind the motion put forward by Val Lloyd and promise to take it forward and reflect on the comments that other Assembly Members raised at our previous debate in September.

I recommend that we develop legislation to give effect to this proposal. If agreed, this will be an important day for the Assembly as it will be the first time that a proposal made by a backbencher under Standing Order No.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons): Cynigiaf fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog Rhif 31

1. yn croesawu'r argymhelliad yn y cynnig a gyflwynwyd gan Val Lloyd (NDM2535) ac a drafodwyd mewn Cyfarfod Llawn ar 27 Medi 2005;

2. yn nodi'r agwedd a argymhellwyd yn yr adroddiad dichonoldeb a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Rhagfyr 2005, a'r bwriad o ddatblygu deddfwriaeth eilaidd i'w roi ar waith; a

3. yn argymhell bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn bwrw ymlaen â'r cynnig. (NDM2756)

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau ar gyfer cleifion, staff ysbytai ac ymwelwyr mewn amgylchedd glân, diogel a hylan yn ein hysbytai. Croesawaf yr egwyddor y tu ôl i'r cynnig a gyflwynodd Val Lloyd, ac addawaf y byddaf yn symud ymlaen ac yn ystyried y sylwadau a godwyd gan Aelodau eraill y Cynulliad yn ystod ein dadl flaenorol ym mis Medi.

Argymhellaf y dylem ddatblygu deddfwriaeth i weithredu'r cynnig hwn. Os byddwn yn cytuno, bydd hwn yn ddiwrnod pwysig i'r Cynulliad gan mai dyma'r tro cyntaf i gynnig gan aelod o'r meinciau cefn o dan Reol Sefydlog Rhif 31

31 has reached this stage. That will represent a new milestone in the life of the National Assembly as a legislative body.

As required following the previous debate, I discussed the issues and the second motion with Val Lloyd and the Health and Social Services Committee, and they are content. The original motion specifically mentioned hospital cleaning. I intend to expand on that and ensure that hospital hygiene and infection management are also included.

You will notice from the tabled feasibility report that, following Val Lloyd's initial motion in September, I now propose that a non-executive director is the most appropriate trust board member to ensure that issues relating to cleaning, hygiene and infection management are regularly discussed at trust board meetings. This ensures that the accountability of chief executives remains intact, while also giving community health councils, patients and other hospital users an advocate who is ideally placed to ensure that a focus on these important issues is maintained.

I am also proposing that non-executive directors be specifically named in trust literature and their advocacy role clearly described. This will give a specific point of contact for members of the public who have specific concerns. It is my intention that these requirements will cover NHS trusts in Wales, plus Powys Local Health Board and its associate non-officer member, who is the equivalent of a trust non-executive director.

Eleanor Burnham: How will you ensure that CHCs that perhaps have difficulties in accessing certain areas of hospitals that the hospitals might not want them to access, will have easier access?

Brian Gibbons: One of our proposals would be that the non-executive director would attend community health council meetings on a regular basis to report what has gone on in terms of infections, hygiene and so on. The CHC would then physically report back to that executive director, who would bring the message back to the trust.

gyrraedd y cam hwn. Bydd hyn yn garreg filltir newydd ym mywyd y Cynulliad Cenedlaethol fel corff deddfwriaethol.

Fel sy'n ofynnol yn dilyn y ddadl flaenorol, trafodais y materion a'r ail gynnig gyda Val Lloyd a'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac maent yn fodlon. Soniai'r cynnig gwreiddiol yn benodol am lanhau ysbytai. Bwriadaf ehangu ar hynny a sicrhau y caiff glanweithdra ysbytai a rheoli heintiau eu cynnwys hefyd.

Fe welwch o'r adroddiad dichonoldeb a gyflwynwyd fy mod yn awr yn cynnig, yn dilyn cynnig gwreiddiol Val Lloyd ym mis Medi, mai cyfarwyddwr anweithredol yw'r aelod mwyaf priodol o fwrdd ymddiriedolaeth i sicrhau bod materion yn ymwneud â glanhau, hylendid a rheoli heintiau yn cael eu trafod yn rheolaidd yng nghyfarfodydd bwrdd ymddiriedolaeth. Mae hyn yn sicrhau bod atebolrwydd prif weithredwyr yn parhau'n gadarn, gan roi i gynghorau iechyd cymuned, cleifion ac eraill sy'n defnyddio ysbytai eiriolwr sydd mewn sefyllfa ddelfrydol i sicrhau parhau i ganolbwyntio ar y materion pwysig hyn.

Yr wyf hefyd yn cynnig y dylai cyfarwyddwyr anweithredol gael eu henwi'n benodol yn llenyddiaeth ymddiriedolaethau, a bod eu rôl eirioli yn cael ei disgrifio'n glir. Bydd hyn yn rhoi pwynt cyswllt penodol i'r cyhoedd sydd â phryderon penodol. Fy mwriad yw y bydd y gofynion hyn yn cwmpasu ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru, ynghyd â Bwrdd Iechyd Lleol Powys, a'i aelod cyswllt nad yw'n swyddog ac sy'n cyfateb i gyfarwyddwr anweithredol ymddiriedolaeth.

Eleanor Burnham: Sut y byddwch yn sicrhau mynediad haws i Gyngorau Iechyd Cymuned, sydd efallai'n ei chael yn anodd cael mynediad i rai rhannau o ysbytai nad yw'r ysbytai efallai am iddynt gael mynediad iddynt?

Brian Gibbons: Un o'n cynigion fyddai i'r cyfarwyddwr anweithredol fynychu cyfarfodydd cynghorau iechyd cymuned (CIC) yn rheolaidd i gyflwyno adroddiad ar yr hyn sydd wedi digwydd o ran heintiau, hylendid, ac ati. Yna, byddai'r CIC yn adrodd yn ôl i'r cyfarwyddwr gweithredol, a fyddai'n cyfleu'r neges i'r ymddiriedolaeth.

In conclusion, if this second motion is carried, I will, in accordance with stage 3 of Standing Order No. 31, bring forward further legislation to give effect to the proposal.

Val Lloyd: I thank the Minister for his work on the feasibility study and his support for my Standing Order No. 31 proposal and today's resultant motion. If the motion is supported today, and I sincerely hope that it will be, hospital cleanliness and the quality of patient care will be addressed and supported in a cohesive and integrated way, and will involve the public and professionals in the maintenance of a clean patient environment.

Primarily, quality of patient care underpins my proposals. I want the public to have full and uncompromising confidence in the NHS in Wales. I want all patients to feel assured that they will receive excellent quality care in the cleanest possible environment, and I want all staff to feel confident that they have the resources, support and guidance to maintain the highest possible standards of infection control and cleanliness. Research has indicated that there is a role to be filled in terms of engaging with patients and professionals so that our infection control and cleaning policies are integrated.

I am conscious of time and, therefore, I will cut short my contribution. In Wales, we have been quick to take action and develop a robust programme of infection control, including the public information campaign, Clean Your Hands, which encourages and educates patients and visitors to healthcare settings about the importance of infection control and, specifically, their role in that regard. Our infection rates are already lower than those in England, but there is no room for complacency. I am confident that my proposals will bring together infection control and healthcare cleanliness in order to facilitate better partnership working across trusts, CHCs and LHBs. The legislation will also inform patients and provide them with an open forum in which to contribute to policy development and further improvement, which is an important step forward.

I gloi, os derbynnir yr ail gynnig hwn, yn unol â cham 3 Rheol Sefydlog Rhif 31 byddaf yn cyflwyno deddfwriaeth bellach i weithredu'r cynnig.

Val Lloyd: Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei waith ar yr astudiaeth ddichonoldeb, ac am gefnogi fy nghynnig ar Reol Sefydlog Rhif 31 a'r cynnig heddiw sy'n deillio o hynny. Os cefnogir y cynnig heddiw, ac yr wyf yn gobeithio'n fawr y caiff, eir i'r afael â glendid ysbytai ac ansawdd gofal cleifion a chefnogi hynny mewn modd cydlynol ac integredig. Bydd hynny'n cynnwys y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol wrth gynnal a chadw amgylchedd glân ar gyfer cleifion.

Ansawdd gofal cleifion sy'n sail i'm cynigion yn bennaf. Yr wyf am i'r cyhoedd ymddiried yn llawn ac yn ddigyfaddawd yn y GIG yng Nghymru. Yr wyf am i bob claf fod yn hyderus y bydd yn cael gofal o safon ardderchog yn yr amgylchedd glanaf posibl. Yr wyf am i bob aelod o staff deimlo'n hyderus fod ganddo'r adnoddau, y cymorth a'r arweiniad i gynnal y safonau uchaf posibl wrth reoli heintiau a glendid. Mae ymchwil wedi dangos bod rhan i'w chwarae wrth ymgysylltu â chleifion a gweithwyr proffesiynol, er mwyn i'n polisïau rheoli heintiau a glanhau gael eu hintegreiddio.

Yr wyf yn ymwybodol o'r amser, ac felly bydd fy nghyfraniad yn fyr. Yng Nghymru, yr ydym wedi gweithredu'n gyflym ac wedi datblygu rhaglen gadarn ar gyfer rheoli heintiau, gan gynnwys yr ymgyrch i roi gwybodaeth i'r cyhoedd, Glanhewch Eich Dwylo. Mae hon yn annog ac yn addysgu cleifion a phobl sy'n ymweld â manau gofal iechyd am bwysigrwydd rheoli heintiau, a'u rôl hwy yn hyn yn benodol. Mae ein cyfraddau heintiau eisoes yn is na'r rheini yn Lloegr, ond nid oes lle i orffwys ar ein rhwyfau. Yr wyf yn hyderus y bydd fy nghynigion yn uno rheoli heintiau a glendid gofal iechyd er mwyn hwyluso gwaith partneriaeth gwell ar draws ymddiriedolaethau, CIC a BIL. Bydd y ddeddfwriaeth hefyd yn rhoi gwybodaeth i gleifion, ac yn eu galluogi i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu polisïau a sicrhau gwelliannau pellach mewn fforwm agored, sy'n gam pwysig ymlaen.

I see the legislation as leading to improved monitoring and evaluation procedures through reports to trust board meetings, and, more importantly, to CHC meetings, which will be available to the public. Such reports will provide a clear mandate for action and improvement and will lead to better understanding at a local level of the key priorities for improvement.

Helen Mary Jones: I will be brief given the time constraints. I thank Val Lloyd for putting this important issue on the agenda. It is a matter of major concern to anyone who has any dealings with the health service. I also congratulate her on her success, which is historic, as the Minister rightly said. Plaid Cymru will support the motion today, but, in doing so, we must not kid ourselves that this will solve the problem. It will make the problem more visible and therefore easier to address, and it will give a senior person specific responsibility for sorting it out. However, a great deal more needs to be done in terms of training staff, information for the public, visitors and patients, and practical measures such as ensuring the sufficient provision of staff uniforms and adequate on-site changing and laundry facilities. I believe strongly that one key problem remains, and that is where cleaning services are not under the direct control of those managing the wards. In the end, we need to reverse the damage done by that privatisation and ensure that we have effective ward teams of nursing, medical and cleaning and ancillary staff who can all work together. Until that is done, we can have all the cleansing tsars in the world, but we will still not have clean hospitals.

4.50 p.m.

The Deputy Presiding Officer: I can see that Members wish to be succinct. There are four more Members who wish to speak, unless we go for an extension.

Sandy Mewies: I will keep my comments brief. I welcome this Standing Order No. 31 proposal by Val and I congratulate her on her hard work. It is important and will inspire transparency. Helen Mary Jones might be right up to a point, but this is a start. It has given people a start and a focus point—it tells them where to go. It will enable patients and

Yn fy marn i, bydd y ddeddfwriaeth yn arwain at wel gweithdrefnau monitro a gwerthuso drwy adroddiadau a gyflwynir yng nghyfarfodydd byrddau ymddiriedolaethau, ac yn bwysicach, mewn cyfarfodydd CIC, a'r rheini ar gael i'r cyhoedd. Bydd adroddiadau felly'n rhoi mandad clir ar gyfer gweithredu a gwella, a byddant yn arwain at well dealltwriaeth ar lefel leol o'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwella.

Helen Mary Jones: Byddaf yn fyr gan fod yr amser yn brin. Hoffwn ddiolch i Val Lloyd am roi'r mater pwysig hwn ar yr agenda. Mae'n peri pryder mawr i unrhyw un sy'n ymwneud â'r gwasanaeth iechyd. Hoffwn hefyd ei llongyfarch ar ei llwyddiant, sy'n hanesyddol, fel y dywedodd y Gweinidog. Bydd Plaid Cymru yn cefnogi'r cynnig heddiw. Ond wrth wneud hynny ni ddylem dwyllo ein hunain y bydd yn datrys y broblem. Bydd yn gwneud y broblem yn fwy gweladwy ac felly'n haws mynd i'r afael â hi, a bydd yn gwneud person mewn swydd uwch yn benodol gyfrifol am hynny. Fodd bynnag, mae angen gwneud llawer mwy i hyfforddi staff, rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd, ymwelwyr a chleifion, a llunio mesurau ymarferol megis sicrhau darparu digon o lifrau staff a chyfleusterau newid a golchi dillad ar y safle. Credaf yn gryf fod un broblem allweddol yn parhau, sef lle nad yw gwasanaethau glanhau o dan reolaeth uniongyrchol y rheini sy'n rheoli'r wardiau. Yn y pen draw, mae angen inni ddad-wneud y difrod a wnaed drwy'r broses breifateiddio honno, a sicrhau bod gennym dimau nyrsio, timau meddygol, timau glanhau a thimau ategol effeithiol ar wardiau sy'n gallu gweithio gyda'i gilydd. Nes y gwneir hynny, waeth faint o tsariaid glanhau a fydd gennym, ni fydd gennym ysbytai glân.

Y Dirprwy Lywydd: Gallaf weld bod Aelodau am fod yn gryno. Mae pedwar Aelod arall am siarad, oni bai ein bod am ymestyn y sesiwn.

Sandy Mewies: Bydd fy sylwadau'n gryno. Croesawaf y cynnig hwn gan Val ar Reol Sefydlog Rhif 31, a hoffwn ei llongyfarch am ei gwaith caled. Mae'n bwysig a bydd yn ysbrydoli eglurder. Hwyrach fod Helen Mary Jones yn iawn i raddau, ond dechrau'n unig yw hyn. Mae wedi rhoi man cychwyn a chanolbwynt i bobl—mae'n dweud wrthynt i

staff to have the courage to challenge procedures when they see that they are going wrong. They will no longer feel that they cannot say anything because they are frightened to do so. They will have someone on whom they can concentrate and consult when something is going wrong. It will give patients and their visitors rights as well as responsibilities. Those responsibilities mean that all of us visiting someone in hospital will have to think clearly about what we are doing. It is up to all of us to observe the rules as they are set out. We are also putting in place clear procedures. Patients need to know, when they go into hospital, the risks of the procedures that they face. However, they also have the absolute right to know the risks of getting a hospital-acquired infection. These infections are not new—let us be clear about that. However, they have escalated and it is time to do something about this. I congratulate Val on leading the way, along with the Welsh Assembly Government, in terms of doing something about this.

Jonathan Morgan: We are pleased to support this measure, as we did when this was first raised by Val Lloyd. We think that this will help give some transparency about what is going on in hospitals and will provide a focus for NHS trusts not just in combating infections, but in terms of the overall level of hospital cleanliness. However, we need to go slightly further. It is not simply a case of a breakdown in the relationship between the hospital management and those who manage the cleaning contract perhaps from an outside perspective, it is also about how wards are kept clean daily by hospital staff, particularly by nurses. Sadly, too many of the cases with which I have dealt in the past seven years have involved a lack of attention and a lack of spot and routine checks by nurses as to the exact level of cleanliness in a hospital: whether a ward is dirty, whether bed sheets are left on the floor or whether there is dirt on the window sills. Those sorts of things are regularly picked up by community health councils when they make spot checks in hospital visits. This is not just about how a contract is managed, but how staff take ownership and responsibility for ensuring that patients are looked after in a clean environment.

ble i fynd. Bydd yn sicrhau bod cleifion a staff yn ddigon dewr i herio gweithdrefnau pan welant eu bod yn mynd o chwith. Ni fyddant bellach yn teimlo na allant ddweud dim am eu bod yn ofni gwneud hynny. Bydd ganddynt rywun i ganolbwyntio arno ac ymgynghori ag ef pan aiff rhywbeth o chwith. Bydd yn rhoi hawliau i gleifion a'u hymwelwyr yn ogystal â chyfrifoldebau. Golyga'r cyfrifoldebau hynny y bydd yn rhaid i bob un ohonom sy'n ymweld â rhywun yn yr ysbyty feddwl yn glir am yr hyn yr ydym yn ei wneud. Ein cyfrifoldeb ni bob un yw dilyn y rheolau fel y maent wedi eu gosod allan. Yr ydym hefyd yn rhoi gweithdrefnau clir ar waith. Mae angen i gleifion wybod, pan ânt i'r ysbyty, am y risgiau sy'n gysylltiedig â'u triniaeth. Fodd bynnag, mae ganddynt hefyd yr hawl llwyr i wybod am y risgiau o ddal haint yn yr ysbyty. Nid yw'r heintiau hyn yn newydd—gadewch inni fod yn glir ynglŷn â hynny. Fodd bynnag, maent wedi cynyddu ac mae'n hen bryd gwneud rhywbeth ynglŷn â hyn. Hoffwn longyfarch Val am arwain y ffordd, ynghyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru, i wneud rhywbeth ynglŷn â hyn.

Jonathan Morgan: Yr ydym yn falch cael cefnogi'r mesur hwn, fel y gwnaethom pan gafodd ei godi gyntaf gan Val Lloyd. Credwn y bydd yn helpu rhoi rhywfaint o oleuni ar yr hyn sy'n digwydd mewn ysbytai, a bydd yn darparu canolbwynt i ymddiriedolaethau'r GIG, nid yn unig i atal heintiau, ond fynd i'r afael â lefel gyffredinol glendid mewn ysbytai. Fodd bynnag, mae angen inni fynd ychydig ymhellach. Nid mater syml yw hwn o fethiant y berthynas rhwng rheolwyr ysbytai a'r rheini sy'n rheoli'r contract glanhau o safbwynt allanol efallai: mae hefyd yn ymwneud â'r ffordd y caiff wardiau eu cadw'n lân o ddydd i ddydd gan staff ysbytai, yn enwedig nyrsys. Yn anffodus, mae gormod o'r achosion yr wyf wedi ymdrin â hwy dros y saith mlynedd diwethaf wedi ymwneud â diffyg sylw, a diffyg archwiliadau rheolaidd ac ar hap gan nyrsys ynglŷn ag union lefel glendid mewn ysbyty: a yw ward yn frwnt, a yw llieniau gwely'n cael eu gadael ar y llawr, neu a oes baw ar silffoedd ffenestri. Mae'r mathau hynny o bethau'n cael eu nodi'n rheolaidd gan gynghorau iechyd cymuned pan fyddant yn gwneud archwiliadau ar hap wrth ymweld ag ysbytai. Nid mater yn unig yw o'r ffordd y caiff contract ei reoli, ond sut y mae staff yn cymryd perchenogaeth a chyfrifoldeb dros sicrhau bod cleifion yn cael

Finally, I accept what Val Lloyd said, that hospital infections are lower in Wales than elsewhere, but just because you are treated in a dirty ward, it does not mean that you get an infection. I suspect that there are hundreds of people throughout Wales who are treated in wards that are wanting in terms of cleanliness and who, thankfully, do not get infections. However, we cannot be blasé about it. We must ensure that those wards meet European standards. We all know what goes on in other countries; there are countries in mainland Europe where hospital cleanliness is more important and where cleanliness is rated far higher than it is in Wales and across the UK. We look forward to this measure providing the benefits that the people of Wales deserve.

Lorraine Barrett: I want to reinforce what has already been said and perhaps offer a few tips to the newly appointed tsars, when they are in place, from my days as a nurse many years ago. It is basic stuff, such as washing your hands and the training of nurses, that has to be reinforced over and over again. On access to hospital wards by visitors, we all expect to be able to visit patients in hospital, practically at any time of the day, and to take as many of the family as we want, but, in my day, there were two visitors to a bed and that was strictly adhered to.

Visitors, as well as patients who have visitors, have a responsibility to be sensible about this, and to be aware of what could be carried in when, for example, they throw their things on the bed or sit on the bed. While I would not like to go back to the old days—I am not sure that they were the good old days—which were very strict, some of that discipline has to come back into hospitals, and everyone has to take responsibility. The important thing about this proposal is that the tsars will keep this issue permanently on the agenda. I hope that the trusts will have this on their agendas and will receive a report from their tsars at every board meeting.

Jenny Randerson: The Welsh Liberal

gofal mewn amgylchedd glân.

Yn olaf, derbyniaf yr hyn a ddywedodd Val Lloyd, sef bod heintiau mewn ysbytai yn is yng Nghymru nag mewn mannau eraill, ond nid yw'r ffaith eich bod yn cael eich trin mewn ward frwnt yn golygu y byddwch yn dal haint. Yr wyf yn amau bod cannoedd o bobl ledled Cymru yn cael eu trin mewn wardiau sy'n ddiffygiol o ran glendid ac nad ydynt, diolch byth, yn dal heintiau. Fodd bynnag, ni allwn fod yn ddidaro yn ei gylch. Rhaid inni sicrhau bod y wardiau hynny'n cyrraedd safonau Ewropeaidd. Gwyddom i gyd beth sy'n digwydd mewn gwledydd eraill; mae yna wledydd ar dir mawr Ewrop lle mae glendid ysbytai'n bwysicach a lle mae glendid lawer yn bwysicach nag ydyw yng Nghymru ac ar draws y DU. Edrychwn ymlaen at weld y mesur hwn yn darparu'r manteision y mae pobl Cymru yn eu haeddu.

Lorraine Barret: Hoffwn ategu'r hyn a ddywedwyd eisoes ac efallai gynnig ychydig awgrymiadau i'r tsariaid sydd newydd eu penodi, pan fyddant yn eu swyddi, o'm dyddiau fel nyrs flynyddoedd lawer yn ôl. Cyngor sylfaenol ydyw, megis golchi'ch dwylo a hyfforddi nyrsys, a rhaid ailadrodd hynny dro ar ôl tro. O ran caniatáu mynediad i wardiau ysbyty i ymwelwyr, yr ydym i gyd yn disgwyl gallu ymweld â chleifion yn yr ysbyty, unrhyw adeg o'r dydd, fwy neu lai, a mynd â chynifer o'r teulu ag a fyynnwn. Ond pan oeddwn i'n nyrs, dim ond dau ymwelydd a allai ymweld â chlaf yr un pryd, a chedwid at y rheol honno'n llym.

Mae gan ymwelwyr, yn ogystal â chleifion sy'n cael ymwelwyr, gyfrifoldeb i fod yn synhwyrol ynglŷn â hyn, a bod yn ymwybodol o'r hyn a all gael ei gario i mewn pan fyddant, er enghraifft, yn taflu eu pethau ar y gwely neu'n eistedd ar y gwely. Er na fyddwn am ddychwelyd i'r hen ddyddiau—nid wyf yn siŵr mai hen ddyddiau da oeddent—a oedd yn llym iawn, rhaid i ryw faint o'r ddisgyblaeth honno ddod yn ôl i'r ysbytai, a rhaid i bawb gymryd cyfrifoldeb. Y peth pwysig am y cynnig hwn yw y bydd y tsariaid yn cadw'r mater hwn ar yr agenda'n barhaol. Gobeithio y bydd yr ymddiriedolaethau'n rhoi hyn ar eu hagenda'u ac yn cael adroddiad gan eu tsariaid ymhob cyfarfod bwrdd.

Jenny Randerson: Mae Democratiaid

Democrats welcome the Minister's comments, and I would like to thank Val for putting this issue on the agenda, and, potentially, on the statute book. Following Lorraine's contribution, I would like to say that we have come a long way. I recall that one of the first things that my colleague, Eleanor Burnham, said in the Chamber five years ago was that one of the key ways of preventing MRSA was to keep washing your hands. That remark was met with laughter. We have come a long way in understanding that such a basic issue as hand-washing is key to prevention.

I hope, however, that the Minister will not rest on his laurels following this. I am sure that he will not. There is a great deal more to be done. Strict powers are being introduced under the Health Bill for the Secretary of State for Health in England, but it is not considered necessary to have that in Wales, as we already have those powers. It is a great pity that more has not been done to use the powers of the Welsh Assembly Government and the Assembly to introduce stricter measures. All trusts in England already have a director who reports directly to the board; we are only now thinking of that. All trusts in England have already had an improvement package of key measures, but our Government only decided to publish the figures on MRSA and other infections less than a year ago. One of the key issues identified in England is freedom and openness of information and the importance of frequent reporting. Minister, your strategy was introduced in July 2004, and I wonder when the full report on the impact of that will be released.

Another key issue that needs to be addressed is that of bed occupancy. We heard in committee that bed occupancy of more than 85 per cent means that patients are moved between wards; this leads to infection. We, as a country, need to address the high rates of bed occupancy in some areas.

Finally, I would like to point out that excellent work has been done in Wales; the University Hospital of Wales, and the Cardiff and Vale NHS Trust as a whole, already has a director of infection prevention and control,

Rhyddfrydol Cymru yn croesawu sylwadau'r Gweinidog, a hoffwn ddiolch i Val am roi'r mater hwn ar yr agenda, ac ar y llyfr statud, o bosibl. Yn dilyn cyfraniad Lorraine, hoffwn ddweud ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol. Cofiaf mai un o'r pethau cyntaf a ddywedwyd gan fy nghyd-Aelod, Eleanor Burnham, yn y Siambr bum mlynedd yn ôl oedd mai un o'r ffyrdd allweddol i atal MRSA oedd golchi'ch dwylo'n gyson. Yr oedd rhai'n chwethin ar ben y sylw hwnnw. Yr ydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran deall bod mater mor sylfaenol â golchi dwylo yn allweddol ar gyfer atal.

Fodd bynnag, gobeithio na fydd y Gweinidog yn gorffwys ar ei rwyfau yn dilyn hyn. Yr wyf yn siŵr na fydd. Mae llawer mwy o waith i'w wneud. Caiff pwerau llym eu cyflwyno o dan y Mesur Iechyd ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd yn Lloegr. Ond nid ystyrir bod angen gwneud hynny yng Nghymru, gan fod gennym y pwerau hynny eisoes. Mae'n drueni mawr na wnaed mwy i ddefnyddio pwerau Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Cynulliad i gyflwyno mesurau llymach. Mae gan bob ymddiriedolaeth yn Lloegr gyfarwyddwr eisoes sy'n uniongyrchol atebol i'r bwrdd; dim ond yn awr yr ydym ni'n meddwl am hynny. Mae pob ymddiriedolaeth yn Lloegr eisoes wedi cael pecyn gwella o fesurau allweddol, ond penderfynodd ein Llywodraeth ni gyhoeddi'r ffigurau ar MRSA a heintiau eraill lai na blwyddyn yn ôl yn unig. Un o'r materion allweddol a nodwyd yn Lloegr yw rhyddid gwybodaeth a gwybodaeth agored, a phwysigrwydd cyflwyno adroddiadau'n aml. Weinidog, cyflwynwyd eich strategaeth ym mis Gorffennaf 2004, a hoffwn wybod pryd y cyhoeddir yr adroddiad llawn ar yr effaith.

Mater allweddol arall y mae angen mynd i'r afael ag ef yw'r gyfradd llenwi gwelyau. Yng nghyfarfod y pwyllgor, clywsom fod canran llenwi gwelyau o fwy nag 85 y cant yn golygu bod cleifion yn cael eu symud o ward i ward; mae hyn yn arwain at heintiau. Mae angen i ni, fel gwlad, fynd i'r afael â chyfraddau uchel llenwi gwelyau mewn rhai ardaloedd.

Yn olaf, hoffwn dynnu sylw at y gwaith ardderchog sydd wedi'i wneud yng Nghymru; mae gan Ysbyty Athrofaol Cymru, ac Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro ar y cyfan, eisoes gyfarwyddwr atal a rheoli

which was the first post of its kind in the UK. Since that post was introduced four years ago, the trust has reduced its infection rate by 60 per cent. That shows the efficacy of the measures to be introduced as a result of today's debate. However, we need to emphasise that much remains to be done.

The Minister for Health and Social Services (Brian Gibbons): In view of the time, I do not think that I can respond to all of the points raised. We have had very positive contributions, and I would like to thank Val Lloyd for this imaginative and creative proposal. I urge the Assembly to offer its full support for this proposal so that we can move forward on it.

heintiau, sef y swydd gyntaf o'i bath yn y DU. Ers cyflwyno'r swydd honno bedair blynedd yn ôl, mae'r ymddiriedolaeth wedi gostwng ei chyfradd heintiau 60 y cant. Dengys hynny effeithiolrwydd y mesurau a gyflwynir o ganlyniad i'r ddadl heddiw. Fodd bynnag, mae angen inni bwysleisio bod llawer iawn i'w wneud o hyd.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons): O ystyried yr amser sydd ar gael, ni chredaf y gallaf ymateb i'r holl bwyntiau a godwyd. Yr ydym wedi cael cyfraniadau cadarnhaol iawn, a hoffwn ddiolch i Val Lloyd am y cynnig hwn, sy'n llawn dychymyg ac yn greadigol. Anogaf y Cynulliad i gefnogi'r cynnig hwn yn llawn fel y gallwn symud ymlaen.

*Cynnig (NDM2756): O blaid 42, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion (NDM2756): For 42, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Janet
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
Isherwood, Mark
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Helen Mary
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Jonathan
Neagle, Lynne
Randerson, Jenny
Sargeant, Carl

Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn

*Derbyniwyd y cynnig.
 Motion carried.*

5.00 p.m.

Dadl Fer Short Debate

Cyllid Craidd ar gyfer Cyngor ar Bopeth Core Funding for Citizens Advice

Peter Black: I have had requests from Mick Bates, Mark Isherwood and Rhodri Glyn Thomas to contribute to this debate.

Peter Black: Mae Mick Bates, Mark Isherwood a Rhodri Glyn Thomas wedi gofyn am gael cyfrannu i'r ddadl hon.

I have chosen this subject for the first short debate of 2006 largely because of the work that I have been doing over the past few months with Swansea's Citizens Advice. However, wider issues have been thrown up by this work regarding how the Welsh Assembly Government is able to take forward its own anti-poverty agenda when one of the main local advice agencies is so crippled by its own funding problems that it is forced to spend a huge amount of time pursuing crucial core funding. The problems besetting Swansea's Citizens Advice are by no means recent. I was talking to it at the end of 2003 about its funding crisis. That was temporarily resolved by a rescue package in February 2004 from the City and County of Swansea Council. However, the more stable and longer term funding that trustees and staff hoped for, so as to allow them to continue and develop their operations, did not appear.

Yr wyf wedi dewis y pwnc hwn ar gyfer dadl fer gyntaf 2006 yn bennaf oherwydd y gwaith yr wyf wedi ei wneud dros yr ychydig fisoedd diwethaf gyda'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth yn Abertawe. Fodd bynnag, codwyd materion ehangach o ganlyniad i'r gwaith hwn am y ffordd y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu ei hagenda ei hun i atal tlodi, er bod un o'r prif asiantaethau cynghori lleol yn wynebu cynifer o broblemau ariannol nes ei bod yn gorfod treulio llawer iawn o amser yn ceisio arian craidd hanfodol. Nid problemau diweddar o bell ffordd yw'r rhai sy'n wynebu'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth yn Abertawe. Bûm yn siarad â'r Ganolfan ddiwedd 2003 am ei hargyfwng ariannol. Datryswyd hynny dros dro gan becyn achub ym mis Chwefror 2004 gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe. Fodd bynnag, ni welwyd yr arian mwy sefydlog a hirdymor yr oedd yr ymddiriedolwyr a'r staff wedi gobeithio'i gael, er mwyn eu galluogi i barhau eu gweithrediadau a'u datblygu.

Swansea council is now conducting a review of how it funds the independent sector, and hopes to be able to make a decision on funding in the next few weeks. However, it has become clear that even a substantial increase in funding will prove to be insufficient to meet the demand of a beleaguered service. In the current financial year, Swansea Citizens Advice had a 1.95 per cent increase in funding. This was lower than it should have been due to the 1 per cent Gershon cut imposed on all council services

Mae cyngor Abertawe yn awr yn gwneud adolygiad o'r modd y mae'n ariannu'r sector annibynnol, ac mae'n gobeithio gallu gwneud penderfyniad ynglŷn ag ariannu yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf. Fodd bynnag, daeth yn amlwg na fydd cynnydd ariannol sylweddol hyd yn oed yn ddigon i ateb gofynion gwasanaeth sydd mewn trafferthion. Yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, cafodd y Ganolfan Cyngor ar Bopeth yn Abertawe gynnydd o 1.95 y cant yn ei chyllid. Yr oedd hyn yn is nag a ddylai fod oherwydd y toriad Gershon o 1 y

by the Labour Assembly Government. Citizens Advice is facing a 10 per cent increase in its rent, plus many other pressures. Its council grant at present is £108,000, but it is facing a shortfall of £16,000 this year.

Swansea's service has been wound down to a bare minimum—currently 10 hours a week in Wales's second city. Despite that, it is getting more and more inquiries. That situation has been compounded by the decision to move benefit offices to call centres, and other changes to the benefit system, as more and more people are seeking advice.

The importance of Citizens Advice was driven home to me shortly before Christmas when I went on the breakfast run with Wallach Clifford in Swansea. This run concluded with a visit to a chapel in George Street, where breakfast is provided. This facility is also used by those who have been homeless but have been recently re-housed. At the chapel I spoke to one person who had accommodation, but who, because of his debts, feared that he would soon lose it and end up back on the streets. For him, the service offered by the local Citizens Advice in advising him on managing his debts will be crucial in maintaining the progress that he has made. Many hundreds of people in Swansea also rely on that service.

Citizens Advice in Wales delivers a wide range of services, which vary from bureau to bureau, depending on resources, identified local need, and alternative services available in the area served. As a minimum, a bureau will seek to offer advice in money management, welfare rights, housing, employment, consumer issues, immigration and nationality, family and personal matters, taxes, health and education. Most will offer casework assistance and representation services at welfare benefit tribunals and some at employment tribunals.

Even without the additional and specifically funded services that many provide, it is clear that, across Wales, Citizens Advice is crucial to the Assembly's social inclusion agenda. If it was properly funded and able to provide a

cant yn holl wasanaethau cynghorau gan lywodraeth Lafur y Cynulliad. Mae'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth yn wynebu cynnydd o 10 y cant yn ei rhent, a llawer o bwysau eraill. Mae'n cael o £108,000 gan y cyngor ar hyn o bryd, ond mae'n wynebu diffyg o £16,000 eleni.

Mae gwasanaeth Abertawe wedi ei gwtogi i'r lefel leiaf sy'n bosibl—10 awr yr wythnos ar hyn o bryd, a hynny yn ail ddinas Cymru. Er hynny, mae'n cael nifer cynyddol o ymholiadau. Mae'r sefyllfa honno wedi gwaethygu oherwydd y penderfyniad i symud swyddogion budd-daliadau i ganolfannau galwadau, a newidiadau eraill yn y system budd-daliadau, wrth i nifer cynyddol o bobl ofyn am gyngor.

Sylweddolais bwysigrwydd Canolfannau Cyngor ar Bopeth ychydig cyn y Nadolig, pan oeddwn yn dosbarthu brecwast gyda Wallach Clifford yn Abertawe. Daeth y daith i ben gydag ymweliad â chapel yn George Street, lle darperir brecwast. Defnyddir y cyfleuster hwn hefyd gan bobl sydd wedi bod yn ddigartref ond sydd wedi cael eu hailgartrefu'n ddiweddar. Yn y capel siaradais ag un person yr oedd ganddo lety, ond oherwydd ei ddyledion yr oedd yn ofni y byddai'n colli ei lety ac yn gorfod dychwelyd i fyw ar y stryd. Iddo ef, bydd y gwasanaeth a gynigir gan y Ganolfan leol Cyngor ar Bopeth i roi cyngor iddo ar reoli ei ddyledion yn hanfodol i gynnal y cynnydd y mae wedi ei wneud. Mae cannoedd o bobl yn Abertawe hefyd yn dibynnu ar y gwasanaeth hwnnw.

Mae Canolfannau Cyngor ar Bopeth yng Nghymru yn darparu ystod eang o wasanaethau, sy'n amrywio o ganolfan i ganolfan, yn ôl yr adnoddau, yr angen lleol a nodir, a'r gwasanaethau gwahanol sydd ar gael yn yr ardal a wasanaethir. Bydd canolfan o leiaf yn ceisio cynnig cyngor ar reoli arian, hawliau lles, tai, cyflogaeth, materion defnyddwyr, mewnffudo a chenedligrwydd, materion teuluol a phersonol, trethi, iechyd ac addysg. Bydd y rhan fwyaf yn cynnig cymorth gyda gwaith achos a gwasanaethau cynrychioli mewn tribiwnlysoedd budd-daliadau lles a rhai tribiwnlysoedd cyflogaeth.

Hyd yn oed heb y gwasanaethau ychwanegol sy'n cael eu darparu gan nifer ohonynt ac sy'n cael eu hariannu'n benodol, mae'n amlwg bod y mudiad Canolfannau Cyngor ar Bopeth ledled Cymru yn hanfodol i agenda cynhwysiant

full-time service, supplemented by the many dedicated volunteers on which it relies at present, then the help and advice that it offers would make an appreciable difference in many areas.

At present, access to these services is locally determined and dependent on the resources available. Citizens Advice remains the largest integrated network of advice services in Wales. Main offices are to be found in the larger towns and cities, and there are regular outreach sessions in smaller towns, villages and community locations. Increasingly, Citizens Advice is offering telephone or diagnostic initial access, followed by an appointment for clients, so as to make the most effective use of clients' and advisers' time.

The 56 main offices offer face-to-face drop-in advice for 599 hours a week and appointment sessions for 675 hours a week, delivered by a variety of people, 79 per cent of whom are volunteers. Research carried out by Citizens Advice shows that clients and potential clients increasingly expect their services to be available at least on a 9 a.m. to 5 p.m. basis, five-day a week, with some access to services outside those core hours. Although there is a Citizens Advice service in every local authority area, that sort of delivery is a long way away.

There are no main face-to-face bureau services open before 9.30 a.m. and most are not open to the public until 10 a.m.. After 2.30 p.m. on most days, it is very difficult to find a bureau open and there is no consistent pattern of opening between bureaux or across the week in many locations. Only one service has its telephone service available from 9 a.m. to 5 p.m. and this is because it has specific Legal Services Commission funding to provide specialist advice in welfare benefits, debt, housing and employment.

Total funding to Citizens Advice in Wales amounted to nearly £7.6 million in 2004-05. The funding for the core generalist service,

cymdeithasol y Cynulliad. Pe bae'n cael ei ariannu'n briodol, a phe byddai'n gallu darparu gwasanaeth amser llawn, gyda chymorth y llu o wirfoddolwyr ymroddedig y mae'n dibynnu arnynt ar hyn o bryd, yna byddai'r cymorth a'r cyngor a gynigia yn gwneud gwahaniaeth sylweddol mewn llawer ardal.

Ar hyn o bryd, mae gallu cael y gwasanaethau hyn yn cael ei benderfynu'n lleol ac yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael. Canolfannau Cyngor ar Bopeth yw'r rhwydwaith integredig mwyaf o wasanaethau cynghori yng Nghymru o hyd. Mae yna brif swyddfeydd yn y trefi mawr a'r dinasoedd, a chynhelir sesiynau allgymorth rheolaidd mewn trefi bach, pentrefi a lleoliadau cymunedol. Mae Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn gynyddol yn cynnig defnyddio'r teleffon a mynediad cychwynnol diagnostig, ac yna apwyntiad i gleientiaid, er mwyn defnyddio amser cleientiaid ac ymgynghorwyr yn y modd mwyaf effeithiol.

Mae'r 56 o brif swyddfeydd yn cynnig sesiynau galw heibio i roi cyngor unigol 599 awr yr wythnos, a sesiynau drwy apwyntiadau am 675 awr yr wythnos. Mae'r rheiny'n cael eu darparu gan amrywiaeth o bobl, 79 y cant ohonynt yn wirfoddolwyr. Dengys ymchwil a wnaed gan Ganolfannau Cyngor ar Bopeth fod cleientiaid a darpar gleientiaid yn gynyddol yn disgwyl i'w gwasanaethau fod ar gael o 9 a.m. i 5 p.m. o leiaf, bum diwrnod yr wythnos, a rhywfaint o fynediad i wasanaethau y tu allan i'r oriau craidd hynny. Er bod yna wasanaeth Cyngor ar Bopeth ym mhob ardal awdurdod lleol, mae angen gwneud llawer o waith cyn y gellir sicrhau darpariaeth o'r fath.

Nid oes unrhyw brif wasanaeth cynghori unigol yn agor cyn 9.30 a.m. ac nid yw'r rhan fwyaf ar agor i'r cyhoedd tan 10 a.m.. Ar ôl 2.30 p.m. bron bob dydd, mae'n anodd iawn dod o hyd i ganolfan sydd ar agor, ac nid oes patrwm agor rheolaidd rhwng canolfannau nac yn ystod yr wythnos mewn llawer man. Un gwasanaeth ffôn yn unig sydd ar gael rhwng 9 a.m. a 5 p.m, a hynny am ei fod wedi cael arian penodol gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol i roi cyngor arbenigol ar fudd-daliadau lles, dyled, tai a chyfflogaeth.

Cafodd Canolfannau Cyngor ar Bopeth yng Nghymru £7.6 miliwn bron yn 2004-05. Yr oedd arian ar gyfer y gwasanaeth cyffredinol

paid by local councils, amounted to £2.7 million, or 36 per cent of the total. Town and community councils added £119,000, or 1.6 per cent of the total; the Welsh Assembly Government contributed £947,000, or 13 per cent of the total, mainly for 'Better Advice, Better Health' services and for capital improvement. In addition, £2.4 million came from the Legal Services Commission for specialist contracted services and £1.3 million from a variety of sources, the biggest of which was the Community Fund. However, the majority of this funding is on a short-term and unsustainable basis for specific project work or one-off capital spend and not for the core generalist service.

Total funding for Citizens Advice fell by 0.2 per cent overall in 2004-05 compared with the previous year. When inflation is taken into account, this amounts to a funding cut of at least 2.1 per cent. However, this hides the true picture, as a number of the increases were for specific new projects and work on capital projects. There is, therefore, a reduction in funding for direct services. Services in Ammanford, Cardiff, Camarthen, Conwy, south Denbighshire, the Vale of Glamorgan and Ynys Môn have seen overall reductions of more than £20,000 in their total funding.

The main funders of core work—unitary authorities and town and community councils—have mainly kept up with inflation. The Legal Services Commission has made no inflation increase in its investment in the service and any absolute increases have been for the delivery of new services. The Welsh Assembly Government funding for 'Better Advice, Better Health' has remained static with no inflation increases. What is evident is that local councils are doing their bit to try to keep these key advice services afloat. Other agencies, and the Welsh Assembly Government itself, are failing to reciprocate. Political pressure to keep bureaux open and to enable them to deliver a satisfactory core service may be falling on local authorities, but it is also the Government's fault. Not only are the Welsh Assembly Government and UK agencies failing to keep up with their own obligations and with inflation, they are

craidd yn £2.7 miliwn, a hwnnw'n cael ei dalu gan gynghorau lleol, sef 36 y cant o'r cyfanswm. Ychwanegodd cynghorau tref a chymuned £119,000, neu 1.6 y cant o'r cyfanswm; cyfrannodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £947,000, neu 13 y cant o'r cyfanswm, yn bennaf ar gyfer gwasanaethau 'Cyngor Da: Iechyd Da' ac ar gyfer gwelliannau cyfalaf. Hefyd, cafwyd £2.4 miliwn gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ar gyfer gwasanaethau arbenigol wedi'u contractio, a £1.3 miliwn o amrywiol ffynonellau. Y Gronfa Gymunedol oedd un o'r rhai mwyaf. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r arian hwn ar sail tymor byr ac anghynaliadwy ar gyfer gwaith prosiect penodol neu wariant cyfalaf unigol, nid ar gyfer y gwasanaeth cyffredinol craidd.

Gostyngodd cyfanswm yr ariannu i Ganolfannau Cyngor ar Bopeth 0.2 y cant yn gyffredinol yn 2004-05 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. O ystyried chwyddiant, mae hyn yn golygu gostyngiad ariannol o 2.1 y cant o leiaf. Fodd bynnag, mae hyn yn celu'r darlun gwirioneddol, gan fod llawer o'r cynnydd ar gyfer prosiectau newydd penodol a gwaith ar brosiectau cyfalaf. Felly, mae gostyngiad yn yr arian ar gyfer gwasanaethau uniongyrchol. Bu gostyngiad cyffredinol o fwy na £20,000 yng nghyfanswm yr arian a gafodd gwasanaethau yn Rhydaman, Caerdydd, Caerfyrddin, Conwy, de Sir Ddinbych, Bro Morgannwg ac Ynys Môn.

Mae prif noddwyr gwaith craidd—awdurdodau unedol a chynghorau tref a chymuned—wedi cynyddu cyllid yn unol â chwyddiant ar y cyfan. Ni roddodd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol unrhyw gynnydd oherwydd chwyddiant yn ei fuddsoddiad yn y gwasanaeth, ac ar gyfer darparu gwasanaethau newydd y bu unrhyw gynnydd absoliwt. Erys arian Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 'Cyngor Da: Iechyd Da' yr un fath heb unrhyw gynnydd oherwydd chwyddiant. Yr hyn sy'n amlwg yw bod cynghorau lleol yn gwneud eu rhan i geisio sicrhau parhad y gwasanaethau cynghori allweddol hyn. Mae asiantaethau eraill, a Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hun, yn methu ymateb. Efallai mai awdurdodau lleol sy'n wynebu'r pwysau gwleidyddol i gadw canolfannau ar agor a'u galluogi i ddarparu gwasanaeth craidd boddhaol, ond mae bai ar y Llywodraeth hefyd. Yn ogystal â methu cadw at eu hymrwymiaid eu hunain a chyda

passing the buck to hard-pressed local councils whose own resources are under intense pressure. These councils are unable to deliver the substantial additional funding needed to bolster and expand the generalist advice services that can help some of the neediest people in society.

When I have raised these matters in the Chamber—yesterday being an example—Ministers have tried to fob me off by arguing that this is not a devolved matter. This has not stopped them funding other non-devolved matters when it suits their agenda and objectives—Operation Tarian is a case in point. Ministers know that they are able to provide core funding for individual bureaux if they wish, and they also know that if they did so, that money would be an effective use of resource in achieving the many social inclusion objectives set by the Government.

However, for the record, the situation is this: Citizens Advice Cymru is an umbrella organisation and forms part of the England and Wales structure, which is answerable to a single trustee board in London. Its offices in Wales receive an allocation of a grant in aid from the Department for Trade and Industry to carry out its functions in terms of supporting the network of bureaux in Wales.

5.10 p.m.

The structure of Citizens Advice Cymru is semi-autonomous; the direction of its policy agenda is monitored by a Wales committee consisting of representatives from bureaux across Wales, which reports on matters of interest to the trustee board in London through a representative. Citizens Advice Cymru has offices in Cardiff, St Asaph and Aberystwyth, and a staff team that has a role in supporting bureaux, which is consistent with that seen in England. However, additionally, and crucially, it includes roles specifically appointed in response to the devolution context in Wales. It is in this respect that the functions, but not the funding of Citizens Advice Cymru, can be seen as partially devolved.

chwyddiant, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ac asiantaethau'r DU yn trosglwyddo'r baich i gynghorau lleol, sy'n wynebu trafferthion a lle mae pwysau mawr ar eu hadnoddau eu hunain. Mae'r cynghorau hyn yn methu darparu'r arian sylweddol ychwanegol y mae ei angen i hybu ac ehangu'r gwasanaethau cynghori cyffredinol sy'n gallu cynorthwyo rhai o'r bobl fwyaf anghenus mewn cymdeithas.

Wrth godi'r materion hyn yn y Siambr—ddoe, er enghraifft—mae Gweinidogion wedi ceisio rhoi taw arnaf drwy ddadlau nad yw hwn yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Nid yw hyn wedi eu rhwystro rhag ariannu materion eraill nad ydynt wedi'u datganoli, pan fydd yn gweddu i'w hagenda a'u hamcanion hwy—mae Ymgyrch Tarian yn enghraifft dda. Mae Gweinidogion yn gwybod y gallant ddarparu arian craidd ar gyfer canolfannau unigol os dymunant, a gwyddant hefyd, os gwnânt hynny, y byddai'r arian hwnnw'n defnyddio adnodd yn effeithiol drwy gyflawni'r llu amcanion cynhwysiant cymdeithasol sydd wedi eu gosod y Llywodraeth.

Fodd bynnag, er gwybodaeth, dyma'r sefyllfa: sefydliad ambarél yw Cyngor ar Bopeth Cymru ac mae'n rhan o strwythur Cymru a Lloegr, sy'n atebol i un bwrdd ymddiriedolwyr yn Llundain. Mae ei swyddfeydd yng Nghymru yn cael dyraniad o gymorth grant gan yr Masnach a Diwydiant i gyflawni ei swyddogaethau i gnorthwyo'r rhwydwaith canolfannau yng Nghymru.

Mae strwythur Cyngor ar Bopeth Cymru yn lled-annibynnol; caiff cyfeiriad ei agenda polisi ei fonitro gan bwyllgor yng Nghymru sy'n cynnwys cynrychiolwyr o ganolfannau ledled Cymru, ac sy'n cyflwyno adroddiadau ar faterion sydd o ddiddordeb i fwrdd yr ymddiriedolwyr yn Llundain drwy cynrychiolydd. Mae gan Gyngor ar Bopeth Cymru swyddfeydd yng Nghaerdydd, Llanelwy ac Aberystwyth, a thîm o staff sydd â'r swyddogaeth o gynorthwyo canolfannau, fel sy'n digwydd yn Lloegr. Fodd bynnag, yn ychwanegol, ac yn hollbwysig, mae'n cyflawni swyddogaethau penodol i ymateb i ddatganoli yng Nghymru. Yn y cyswllt hwn y gellir ystyried bod y swyddogaethau, ond nid y broses o ariannu Cyngor ar Bopeth Cymru, wedi'u

datganoli'n rhannol.

Each local bureau, in contrast, is an independent charity, locally governed and managed and a member of the umbrella organisation. In terms of funding for individual bureaux—core funding in particular—it is correct to state that this is led by local authorities, as funding for core services is provided by local authorities to help fulfil their local advice needs. This is often provided in the form of a service level agreement for certain services. This element determines the capacity of bureaux to attract further funding from other sources.

In this respect, it is clear that core funding is a devolved matter, as local authorities are answerable to the Assembly in terms of their strategic aims and in providing services to their local communities. The 'Better Advice, Better Health' project is a clear example of how the Assembly can directly fund the service to deliver national strategic objectives, and is an example of how strategic funding can be led in the devolution context.

In concluding, I once again ask the Minister to take notice of the urgent need to address the situation in which many bureaux find themselves. The Government is rightly prepared to core fund voluntary service councils; I ask that it would do the same for Citizens Advice. Not only would such a move take a lot of pressure off local government, but it would acknowledge and recognise how the work of these bureaux closely mirrors the aims and objectives of the Government.

Mick Bates: Thank you, Peter, for bringing this important issue to the Assembly today. It is one that, for many years, I have also carried. I know that there is a cross-party desire to see core funding forthcoming from the Assembly. I have heard an outline from Peter in this short debate, for the first time, of the strategic vision necessary in order to provide that funding.

The point that the Minister must answer in his response is how can a Government that has—through the Government of Wales

I'r gwrthwyneb, mae pob canolfan leol yn elusen annibynnol, sy'n cael ei llywodraethu a'i rheoli'n lleol ac sy'n aelod o'r sefydliad ambarél. O ran ariannu canolfannau unigol—arian craidd yn benodol—mae'n wir dweud mai awdurdodau lleol sy'n arwain hyn, gan mai awdurdodau lleol sy'n darparu arian ar gyfer gwasanaethau craidd i helpu diwallu eu hanghenion lleol mewn perthynas â chynghori. Darperir hyn yn aml ar ffurf cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau penodol. Mae'r elfen hon yn pennu gallu canolfannau i ddenu arian ychwanegol o ffynonellau eraill.

Yn y cyswllt hwn, mae'n amlwg bod arian craidd yn fater sydd wedi ei ddatganoli, gan fod awdurdodau lleol yn atebol i'r Cynulliad mewn perthynas â'u nodau strategol ac wrth ddarparu gwasanaethau i'w cymunedau lleol. Mae'r prosiect 'Cyngor Da: Iechyd Da' yn enghraifft amlwg o'r ffordd y gall y Cynulliad ariannu'r gwasanaeth yn uniongyrchol i gyflawni amcanion strategol cenedlaethol, ac mae'n enghraifft o'r ffordd y gellir arwain arian strategol yng nghyd-destun datganoli.

I gloi, hoffwn ofyn i'r Gweinidog unwaith eto gymryd sywl o'r angen brys am fynd i'r afael â'r sefyllfa y mae nifer o ganolfannau ynddi. Mae'r Llywodraeth yn barod, a hynny'n gwbl gywir, i roi arian craidd i gynghorau gwasanaethau gwirfoddol; galwaf arni i wneud yr un fath ar gyfer Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Byddai penderfyniad felly nid yn unig yn cymryd llawer o bwysau oddi ar ysgwyddau lywodraeth leol, ond yn cydnabod ac yn nodi'r modd y mae gwaith y canolfannau hyn yn debyg iawn i nodau ac amcanion y Llywodraeth.

Mick Bates: Diolch, Peter, am gyflwyno'r mater pwysig hwn yn y Cynulliad heddiw. Mae'n fater sydd wedi bod yn bwysig i mi hefyd ers llawer blwyddyn. Gwn fod awydd ar draws y pleidiau i weld arian craidd yn dod gan y Cynulliad. Clywais amlinelliad gan Peter yn y ddadl fer hon, am y tro cyntaf, o'r weledigaeth strategol sy'n angenrheidiol i ddarparu'r arian hwnnw.

Y pwynt y mae'n rhaid i'r Gweinidog ei ateb yw sut y gall Llywodraeth sy'n rhoi cymaint o bwys ar gynhwysiant cymdeithasol, cyfle

Act—social inclusion, equal opportunities and sustainability at its heart, justify the existence of such an important function for citizens in Wales that is obviously unsustainable? Despite the best intentions of volunteers, local councils and all those people who work to provide extra funding above that which comes from the local authorities, great effort is wasted in acquiring funding. The anxiety levels among staff are often such that they themselves need support to continue their work. I hope that we can retain this excellent service, because so much of it is independent advice. That is why the citizens of Wales trust the Citizens Advice to provide them with advice. I hope that this service can continue with core funding.

The Deputy Presiding Officer: Order. There are only 40 seconds each left.

Mark Isherwood: First, I declare an interest as a member of the Conwy district Citizens Advice bureau. I also thank Peter for initiating this debate.

In Conwy, the chair's report at the last annual general meeting said that core funding had remained static and that the bureau had had to draw on its financial reserves to meet ever-increasing demands for its services. The Flintshire chair's report last month identified the need to secure funding for the future as a key challenge. He added that the service goes to the heart of community development and empowerment and is still one of the most cost effective services to deliver. Citizens Advice Cymru also told me that the current level of service does not meet demand, and a co-operative approach to funding at Welsh Assembly Government, local government and community level is needed if we are to address the inequitable access to independent advice services across Wales, with 'independence' being the key term.

Rhodri Glyn Thomas: Yr wyf yn llongyfarch Peter Black yn fawr am godi'r pwnc hwn ar gyfer y ddadl fer, a hefyd am gyflwyno dadl gynhwysfawr ac effeithiol dros ariannu canolog i'r gwasanaeth hollbwysig hwn. Yr wyf yn ymwybodol o'r gwasanaeth a gynigir o Rydaman, a hefyd o

cyfartal a chynaliadwyedd—drwy Ddeddf Llywodraeth Cymru—gyfiawnhau'r ffaith fod bodolaeth swyddogaeth sydd mor bwysig i ddinasyddion yng Nghymru yn amlwg mor anghynaliadwy? Er gwaethaf holl ymdrechion gwirfoddolwyr, cynghorau lleol a'r holl bobl hynny sy'n gweithio i ddarparu arian sy'n ychwanegol i'r hyn a roddir gan yr awdurdodau lleol, caiff llawer o ymdrech ei wastraffu yn ceisio sicrhau'r arian. Mae'r staff yn aml yn pryderu cymaint fel bod angen cymorth arnynt hwy eu hunain i barhau eu gwaith. Gobeithio y gallwn gadw'r gwasanaeth ardderchog hwn, oherwydd cyngor annibynnol yw cymaint ohono. Dyna pam mae pobl Cymru yn ymddiried yn y Canolfannau Cyngor ar Bopeth i roi cyngor iddynt. Gobeithio y gall y gwasanaeth hwn barhau gydag arian craidd.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Dim ond 40 eiliad yr un sydd ar ôl.

Mark Isherwood: I ddechrau, hoffwn ddatgan buddiant fel aelod o'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth yng Nghonwy. Hoffwn hefyd ddiolch i Peter am ddechrau'r ddadl hon.

Yng Nghonwy, dywedai adroddiad y cadeirydd yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol diwethaf fod arian craidd wedi parhau'n ddigyfnewid a bod yn rhaid i'r ganolfan ddefnyddio'i chronfa wrth gefn i ateb y galw cynyddol am ei gwasanaethau. Yr oedd adroddiad cadeirydd sir y Fflint y mis diwethaf yn dweud bod yr angen sicrhau arian ar gyfer y dyfodol yn her allweddol. Ychwanegodd fod y gwasanaeth wrth wraidd y gwaith o ddatblygu a grymuso cymunedau, ac mai hwn o hyd yw un o'r gwasanaethau mwyaf cost effeithiol i'w ddarparu. Dywedodd Cyngor ar Bopeth Cymru wrthyf hefyd nad yw'r lefel bresennol o wasanaeth yn ateb y galw, a bod angen dull cydweithredol o ariannu ar lefel Llywodraeth Cynulliad Cymru, llywodraeth leol a chymuned os ydym i sicrhau bod pawb yn cael yr un cyfle i gael gwasanaethau cynghori annibynnol ledled Cymru, gan bwysleisio'r term 'annibynnol'.

Rhodri Glyn Thomas: I congratulate Peter Black very much on bringing this issue forward as the subject of this short debate, and also for presenting a comprehensive and effective argument for core funding for this vital service. I am aware of the service that is offered from Ammanford, and also from Carmarthen, which

Gaerfyrddin, sydd ychydig y tu allan i ffin fy etholaeth, ond sydd yn gwasanaethu fy etholwyr. Dylai'r Gweinidog ystyried yn ddifrifol—

The Deputy Presiding Officer: Order. Time has sadly run out. I call on Huw Lewis, the Deputy Minister with responsibility for communities, to reply.

The Deputy Minister with Responsibility for Communities (Huw Lewis): I thank Peter, and the other speakers, for using this short debate to discuss this important issue, and particularly for the intelligent and thought-provoking case that you have put to the Assembly today.

The 56 citizens advice bureaux in Wales provide invaluable support on the vital issues that Peter has enumerated. I know, from my constituency work, that my surgeries would become quickly overwhelmed if it were not for the work of the citizens advice bureau in my community.

As a Deputy Minister, I have found the input of Citizens Advice Cymru to be absolutely invaluable in the policy reviews that I have undertaken. Peter expresses frustration, and that frustration is real, and I know that there is integrity behind it. However, there is a reality behind that frustration, and this debate must overcome and resolve the point that funding for the consumer advice provided by Citizens Advice is a non-devolved issue. The responsibility for funding belongs to the Department of Trade and Industry. That is not say that the Assembly cannot or will not provide funding when and where appropriate. Support is given to Citizens Advice from a number of sources other than the Department of Trade and Industry. These include the local authorities, as Peter said, and the Legal Services Commission, and specific project funding comes from a number of sources, including the £700,000 recurrent funding to deliver the Welsh Assembly Government's 'Better Health, Better Advice' initiative. Here, the citizens advice bureaux provide advice on better access to, and on the uptake of, benefits through general practitioner surgeries. A number of new initiatives are also being introduced by the UK

is slightly outside the boundary of my constituency, but which serves my constituents. The Minister should seriously consider—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Yn anffodus, mae'r amser wedi dod i ben. Galwaf ar Huw Lewis, y Dirprwy Weinidog sydd â chyfrifoldeb dros gymunedau, i ateb.

Y Dirprwy Weinidog â Chyfrifoldeb am Gymunedau (Huw Lewis): Diolch i Peter, ac i'r siaradwyr eraill, am ddefnyddio'r ddadl fer hon i drafod y mater pwysig hwn, ac yn arbennig am yr achos deallus a gyflwynwyd gennych i'r Cynulliad heddiw, sydd wedi peri inni feddwl.

Mae'r 56 o ganolfannau cyngor ar bopeth yng Nghymru yn rhoi cymorth gwerthfawr ar y materion hollbwysig y mae Peter wedi'u nodi. Gwn, yn sgîl fy ngwaith etholaethol, y byddai gwaith fy nghyngorfeydd yn cynyddu'n ormodol yn gyflym oni bai am waith y canolfannau cyngor ar bopeth yn fy nghymuned.

Fel Dirprwy Weinidog, mae cyfraniad Cyngor ar Bopeth Cymru wedi bod yn gwbl amhrisiadwy o ran yr adolygiadau polisi yr wyf wedi'u gwneud. Mae Peter yn mynegi rhwystredigaeth. Mae honno'n rhwystredigaeth wirioneddol a gwn ei bod yn hollol onest. Fodd bynnag, mae'r rhwystredigaeth honno'n seiliedig ar realiti, a rhaid i'r ddadl hon fynd i'r afael â'r ffaith mai mater heb ei ddatganoli yw'r arian ar gyfer cyngor defnyddwyr a ddarperir gan Gyngor ar Bopeth. Yr Adran Masnach a Diwydiant sy'n gyfrifol am ei hariannu. Nid yw hynny'n golygu na all neu na fydd y Cynulliad yn rhoi arian pryd a ble mae hynny'n briodol. Mae nifer o ffynonellau yn rhoi cymorth i Gyngor ar Bopeth ar wahân i'r Adran Masnach a Diwydiant. Ymhlith y rhain mae'r awdurdodau lleol, fel y dywedodd Peter, a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, a daw arian ar gyfer prosiectau penodol o nifer o ffynonellau, gan gynnwys arian rheolaidd o £700,000 i gyflwyno menter Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Iechyd Da, Cyngor Da'. Yma, mae'r canolfannau cyngor ar bopeth yn rhoi cyngor ar fynediad gwell i fuddiannau drwy feddygfeydd, ac ar fanteisio ar y cyngor hwnnw. Mae nifer o fentrau newydd yn cael eu cyflwyno gan Lywodraeth y DU hefyd, gyda

Government, with the involvement of the Assembly Government, to address several advice issues. It would be a mistake to assume that the citizens advice bureaux are not already closely involved in those initiatives. The Labour Governments in Westminster and in the Assembly work closely with them on those issues. Primary among those issues, currently, at a UK level, are Link-Age, which is led by the Department for Work and Pensions, and the Department of Trade and Industry's face-to-face debt advice fund.

In terms of core-funding support for citizens advice bureaux in Communities First areas—an issue that has been raised quite often—while it is initially an attractive idea, we must remember that the Communities First programme is not meant to do this sort of work. It has to concentrate on building the capacity of people living in the poorest areas across Wales. The programme's aim is to add value, stimulate new thinking and encourage managed risk taking. The Communities First programme should not subsidise basic services that could be supported from mainstream and local funds. That position was confirmed by the Minister at a meeting of the Social Justice and Regeneration Committee in July 2005. The point was also made that to fund citizens advice bureaux in Communities First areas would create a precedent for the rest of Wales. That is not to say that all avenues are closed in Communities First areas, and that is why I mentioned it, as small-scale applications will be considered—this is a relatively new development—if they focus on training and the building of the capacity of local people to deliver information and advice services in those deprived communities.

A further opportunity will be available to Citizens Advice through the new Department of Trade and Industry face-to-face debt advice fund, which I have mentioned. This is not inconsiderable, as it is a £45-million fund to support the expansion of free face-to-face debt advice in England and Wales. The objective of the fund is to increase the number of debt advisers and the hours that they are available. These new resources are welcome, especially following the publication of my review of overindebtedness

chyfranogiad Llywodraeth y Cynulliad, i ymdrin â nifer o faterion cynghori. Byddai'n gamgymeriad cymryd yn ganiataol nad yw'r canolfannau cyngor ar bopeth yn chwarae rhan fawr yn y mentrau hynny eisoes. Mae'r Llywodraethau Llafur yn San Steffan ac yn y Cynulliad yn gweithio'n agos gyda hwy ar y materion hynny, yn bennaf, ar hyn o bryd, ar lefel y DU, Menter Cyswllt Oedran, a arweinir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, a'r gronfa cyngor wyneb yn wyneb ar ddyledion gan yr Adran Masnach a Diwydiant.

O ran cymorth arian craidd i ganolfannau cyngor ar bopeth mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf—mater a godwyd yn eithaf aml—er bod hynny'n syniad deniadol i ddechrau, rhaid inni gofio na fwriedir i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wneud y math hwn o waith. Rhaid iddi ganolbwyntio ar feithrin gallu'r bobl sy'n byw yn yr ardaloedd tlotaf ledled Cymru. Nod y rhaglen yw ychwanegu gwerth, ysgogi meddwl o'r newydd, ac annog pobl i gymryd risgiau wedi'u rheoli. Ni ddylai'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf roi cymhorthdal i wasanaethau sylfaenol y gellid eu cefnogi drwy gronfeydd prif ffrwd a lleol. Cadarnhawyd y farn honno gan y Gweinidog yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ym mis Gorffennaf 2005. Gwnaed y pwynt hefyd y byddai ariannu canolfannau cyngor ar bopeth mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn creu cysail ar gyfer gweddill Cymru. Nid yw hynny'n golygu nad oes unrhyw ffordd i wneud hynny mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, a dyna pam yr wyf wedi'i grybwyll, oherwydd caiff ceisiadau bach eu hystyried—datblygiad cymharol newydd yw hwn—os ydynt yn canolbwyntio ar hyfforddiant a meithrin gallu pobl leol i gyflwyno gwasanaethau gwybodaeth a chyngor yn y cymunedau difreintiedig hynny.

Bydd cyfle arall ar gael i Gyngor ar Bopeth drwy'r gronfa cyngor wyneb yn wyneb ar ddyledion gan yr Adran Masnach a Diwydiant y soniais amdani. Nid cronfa fach yw hon, gan ei bod yn gronfa o £45 miliwn i gefnogi'r broses o ymestyn gwasanaeth cyngor wyneb yn wyneb ar ddyledion am ddim yng Nghymru a Lloegr. Amcan y gronfa yw cynyddu nifer y cynghorwyr dyledion a'r oriau y maent ar gael. Croesewir yr adnoddau newydd hyn, yn enwedig yn sgîl cyhoeddi fy adolygiad o orddyled yng Nghymru, a oedd yn tynnu sylw at

in Wales, which highlighted the great importance of face-to-face debt advice as opposed to other methods of delivering that advice. I am sure that Members will join me in welcoming that development. It will be targeted at areas with high levels of financial exclusion.

Assembly Government officials play an active role in the advisory board that is supporting the Department of Trade and Industry-led project board. I understand that Citizens Advice Cymru is to submit a final bid to the Department of Trade and Industry by 20 January. The overindebtedness review that I mentioned a moment ago also recognised the importance of citizens advice bureaux in contributing to the debate surrounding financial literacy and running financial literacy projects with either adults or young people. Work is under way on developing that idea as I speak.

5.20 p.m.

It is wrong to assume that because core funding is not available for Citizens Advice from the Assembly Government we do not recognise and utilise its expertise—we seek to support its services where we can. Indeed, at the request of the Assembly Government, Fran Targett, the director of Citizens Advice Cymru, is on the project board for the new DTI scheme. As I mentioned at the outset of my reply, this debate will come back to the same point, and that is how I must, largely, conclude.

The funding of Citizens Advice is not a devolved matter. If we start down the path of giving core funding to non-devolved areas, the question that will arise is ‘where do we stop?’. It is not necessarily a responsible course of action as it stands, and we would have to be much more imaginative in answering that question. There is also the danger that if the Assembly steps forward with regard to core funding, others will step back. We must have the answers to those questions ready, and we have not yet developed—despite Peter’s contribution—proper answers to those hard-nosed financial points. That said, I thank Peter again for highlighting the important role that CABx play in providing invaluable support to

bwysigrwydd mawr cyngor wyneb yn wyneb ar ddyledion, yn hytrach na dulliau eraill o roi’r cyngor hwnnw. Yr wyf yn siŵr y bydd Aelodau’n ymuno â mi i groesawu’r datblygiad hwnnw. Bydd yn targedu ardaloedd lle mae llawer o allgáu ariannol.

Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn chwarae rhan frwd yn y bwrdd cynghori sy’n cefnogi’r bwrdd prosiect o dan arweiniad yr Adran Masnach a Diwydiant. Deallaf fod Cyngor ar Bopeth Cymru yn bwriadu cyflwyno cynnig terfynol i’r Adran Masnach a Diwydiant erbyn 20 Ionawr. Yr oedd yr adolygiad o orddyled a grybwyllais funud yn ôl hefyd yn crybwyll pwysigrwydd canolfannau cyngor ar bopeth wrth gyfrannu at y ddatl ynghylch llythrennedd ariannol a chynnal prosiectau llythrennedd ariannol, naill ai gydag oedolion neu bobl ifanc. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu’r syniad hwnnw ar y funud hon.

Mae’n anghywir cymryd yn ganiataol, am nad oes arian craidd ar gael i Gyngor ar Bopeth gan Lywodraeth y Cynulliad, nad ydym yn cydnabod nac yn defnyddio’i arbenigedd—ceisiwn gefnogi ei wasanaethau lle gallwn. Yn wir, ar gais Llywodraeth y Cynulliad, mae Fran Targett, cyfarwyddwr Cyngor ar Bopeth Cymru, yn aelod o’r bwrdd prosiect ar gyfer cynllun newydd yr Adran Masnach a Diwydiant. Fel y crybwyllais ar ddechrau fy ateb, bydd y ddatl hon yn dychwelyd i’r un man, ac ar y pwynt hwnnw’n fras rhaid imi orffen.

Nid yw ariannu Cyngor ar Bopeth yn fater sydd wedi ei ddatganoli. Os dechreuwn roi arian craidd i feysydd sydd heb eu datganoli, y cwestiwn a fydd yn codi yw ‘ble byddwn yn gorffen?’. Nid yw’n gam gweithredu cyfrifol o reidrwydd fel y mae, a byddai’n rhaid inni ddangos llawer mwy o ddychymyg wrth ateb y cwestiwn hwnnw. Mae yna berygl hefyd, os bydd y Cynulliad yn cymryd cam ymlaen o ran arian craidd, y bydd eraill yn cymryd cam yn ôl. Rhaid i’r atebion i’r cwestiynau hynny fod yn barod gennym, ac nid ydym—er gwaethaf cyfraniad Peter—wedi datblygu atebion priodol i’r pwyntiau ariannol caled hynny eto. Ar ôl dweud hynny, diolchaf eto i Peter am dynnu sylw at ran bwysig canolfannau cyngor ar bopeth wrth roi cymorth gwerthfawr i bobl

vulnerable people in Wales. We recognise the value of that work and we will continue to support it where and when we can. We are open to ideas and suggestions, and I am sure that this discussion is not at an end, and nor should it be.

ddiamddiffyn yng Nghymru. Yr ydym yn cydnabod gwerth y gwaith hwnnw, a byddwn yn parhau i'w gefnogi ble a phryd y gallwn. Yr ydym yn fodlon derbyn syniadau ac awgrymiadau, ac yr wyf yn siŵr nad yw'r drafodaeth hon wedi dod i ben, ac ni ddylai fod wedi dod i ben.

The Deputy Presiding Officer: That brings today's proceedings to a close.

Y Dirprwy Lywydd: Daw hynny â chyfarfod heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.21 p.m.
The meeting ended at 5.21 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau
Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
 Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
 Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
 Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)
 Davies, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Davies, Glyn (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Davies, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Dunwoody, Tamsin (Llafur - Labour)
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Essex, Sue (Llafur – Labour)
 Francis, Lisa (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)
 Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
 Gwyther, Christine (Llafur – Labour)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Idris Jones, Denise (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 James, Irene (Llafur – Labour)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Laura Anne (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Law, Peter (Annibynnol – Independent)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)
 Marek, John (Cymru Ymlaen – Forward Wales)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)

Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Pugh, Alun (Llafur – Labour)
Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
Thomas, Catherine (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Owen John (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)